# Arolwg Tai ac Iaith Gwynedd ac Ynys Môn

Adroddiad llawn

Gorffennaf 2014

Cynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd
ymchwil@gwynedd.gov.uk

**Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd**
**Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**
**☎ 01286 679380 ✉ ymchwil@gwynedd.gov.uk**

## Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol ..... 5
2. Cyflwyniad ..... 7
3. Methodoleg ..... 10
4. Canlyniadau ..... 13
5. Casgliadau ..... 128

Atodiad 1: Holiadur Preswylwyr – Tai a'r Iaith Gymraeg 2013 ..... 140

Atodiad 2: Proffiliau ward ..... 149


## Rhestr Tablau


Tabl 1: Nifer ymatebion fesul ardal ..... 14
Tabl 2: Ym mha flwyddyn y cafodd yr eiddo ei adeiladu / drosi? ..... 15
Tabl 3: Ym mha flwyddyn y cafodd yr eiddo ei adeiladu / trosi? (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau) ..... 16
Tabl 4: Ym mha flwyddyn y cafodd yr eiddo ei adeiladu / trosi? (fesul ward) ..... 17
Tabl 5: Ym mha flwyddyn wnaethoch chi symud i'r eiddo? ..... 18
Tabl 6: Ym mha flwyddyn wnaethoch chi symud i'r eiddo? (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau) ..... 19
Tabl 7: Ym mha flwyddyn wnaethoch chi symud i'r eiddo? (fesul ward) ..... 20
Tabl 8: Ai chi yw preswylydd cyntaf yr eiddo? ..... 21
Tabl 9: A ydych yn brynwr tro cyntaf? ..... 22
Tabl 10: Math o eiddo presennol ..... 25
Tabl 11: Daliadaeth eiddo presennol ..... 28
Tabl 12: Daliadaeth eiddo presennol (fesul ward) ..... 29
Tabl 13: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo presennol ..... 30
Tabl 14: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo presennol (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau) ..... 31
Tabl 15: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo presennol (fesul ward) ..... 32
Tabl 16: Nifer o bobl sy'n byw yn yr eiddo presennol yn barhaol ..... 34
Tabl 17: Math o eiddo blaenorol ..... 36
Tabl 18: Daliadaeth eiddo blaenorol ..... 38
Tabl 19: Daliadaeth eiddo blaenorol (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau) ..... 38
Tabl 20: Daliadaeth eiddo blaenorol (fesul ward) ..... 39
Tabl 21: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo blaenorol ..... 41
Tabl 22: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo blaenorol (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau) ..... 41
Tabl 23: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo blaenorol (fesul ward) ..... 42
Tabl 24: Nifer o bobl a oedd yn byw yn yr eiddo blaenorol yn barhaol ..... 44
Tabl 25: Newid mewn math o dŷ ..... 45
Tabl 26: Newid mewn math o daliadaeth ..... 47
Tabl 27: Newid yn y gost fisol (rhentu neu forgais) ..... 49
Tabl 28: Newid yn y nifer o bobl sy'n byw mewn eiddo ..... 50
Tabl 29: Ble oeddech chi'n byw cyn i chi symud i'r eiddo presennol? ..... 53
Tabl 30: Ble oeddech chi'n byw cyn i chi symud i'r eiddo presennol fesul Gwerthiannau a Tai newydd mewn wardiau ..... 54

Tabl 31: A ydych chi erioed wedi byw yn Ynys Môn, yng Ngwynedd, neu rywle arall yng Nghymru? ..... 56
Tabl 32: Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol ..... 59
Tabl 33: Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau) ..... 59
Tabl 34: Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol (fesul ward) ..... 60
Tabl 35: Sut mae'r eiddo presennol yn cael ei ddefnyddio ..... 62
Tabl 36: Lleoliad cartref parhaol os nad yw'r eiddo presennol yn gartref parhaol ..... 63
Tabl 37: Prif iaith yn cael ei siarad yn yr eiddo ..... 65
Tabl 38: Prif iaith yn cael ei siarad yn yr eiddo fesul tai newydd / gwerthiannau mewn wardiau ..... 66
Tabl 39: Iaith hefyd yn cael ei siarad ..... 67
Tabl 40: Nifer o bobl yn yr aelwydydd a ymatebodd ..... 68
Tabl 41: Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg? ..... 70
Tabl 42: Gallu i siarad Cymraeg ..... 73
Tabl 43: Gallu i siarad Cymraeg ar sail oedran a phrif iaith y cartref (holl ardal) ..... 74
Tabl 44: Gallu i siarad Cymraeg ar sail oedran a phrif iaith y cartref (Gwynedd) ..... 75
Tabl 45: Gallu i siarad Cymraeg ar sail oedran a phrif iaith y cartref (Ynys Môn) ..... 76
Tabl 46: Gallu i ddarllen yn Gymraeg ..... 78
Tabl 47: Gallu i ysgrifennu yn Gymraeg ..... 80
Tabl 48: Pa mor bwysig yw'r Gymraeg i chi? ..... 82
Tabl 49: Hunaniaith genedlaethol ..... 84
Tabl 50: Pa mor aml fyddwch yn defnyddio'r Gymraeg? ..... 88
Tabl 51: Pa mor aml fyddwch yn defnyddio'r Gymraeg? (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau) ..... 89
Tabl 52: Pa mor aml fyddwch yn defnyddio'r Gymraeg? (fesul ward) ..... 90
Tabl 53: Defnydd o'r Gymraeg wrth gymdeithasu ..... 93
Tabl 54: Defnydd o'r Gymraeg wrth gymdeithasu (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau) ..... 94
Tabl 55: Defnydd o'r Gymraeg wrth gymdeithasu (fesul ward) ..... 95
Tabl 56: Sector gweithio ..... 97
Tabl 57: Yn eich gwaith, pa iaith sy'n cael ei defnyddio yn bennaf? ..... 99
Tabl 58: Yn eich gwaith, pa iaith sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfathrebu MEWNOL? ..... 101
Tabl 59: Ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith ..... 104
Tabl 60: Cefnogaeth y cyflogwr i'r iaith Gymraeg ..... 107

## Rhestr Ffigurau

Ffigwr 1: Math o eiddo presennol yng Ngwynedd ..... 23
Ffigwr 2: Math o eiddo presennol yn Ynys Môn ..... 24
Ffigwr 3: Daliadaeth eiddo presennol yng Ngwynedd ..... 26
Ffigwr 4: Daliadaeth eiddo presennol ym Môn ..... 27
Ffigwr 5: Ble oedd ymatebwyr yn byw cyn symud i'r eiddo presennol (Gwynedd) ..... 51
Ffigwr 6: Ble oedd ymatebwyr yn byw cyn symud i'r eiddo presennol (Môn) ..... 52
Ffigwr 7: Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol (Gwynedd) ..... 58
Ffigwr 8: Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol (Môn) ..... 58
Ffigwr 9: Prif iaith yn cael ei siarad yn yr eiddo (Gwynedd) ..... 64
Ffigwr 10: Prif iaith yn cael ei siarad yn yr eiddo (Môn) ..... 65
Ffigwr 11: Gallu i siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (Gwynedd) ..... 69
Ffigwr 12: Gallu i siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (Môn) ..... 70

Ffigwr 13: Gallu i siarad Cymraeg (Gwynedd) .....72
Ffigwr 14: Gallu i siarad Cymraeg (Môn) .....72
Ffigwr 15: Pwysigrwydd y Gymraeg i'r ymatebwyr (Gwynedd) .....81
Ffigwr 16: Pwysigrwydd y Gymraeg i'r ymatebwyr (Môn) .....82

## Rhestr Mapiau

Map 1: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Absersoch.....109
Map 2: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Clynnog .....111
Map 3: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward De Dolgellau .....113
Map 4: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Diffwys a Maenofferen .....115
Map 5: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Hirael .....117
Map 6: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Llanrug.....119
Map 7: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Cyngar .....121
Map 8: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Llanbadrig .....123
Map 9: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Llanfihangel Ysgeifiog.....125
Map 10: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Porthyfelin.....127

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei gynhyrchu ar ran Cyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan y Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd. Cafwyd cefnogaeth ariannol ychwanegol gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.

1.2 Mae'n darparu dadansoddiad o ymatebion i'r 'Arolwg Tai a'r Iaith Gymraeg Gwynedd ac Ynys Môn', a gynhaliwyd rhwng Medi – Tachwedd 2013. Bydd yn rhan o sail dystiolaeth y cyrff uchod ar sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd ac ym Môn.

1.3 Roedd cwestiynau'r Arolwg yn canolbwyntio ar bedair thema benodol, a'r perthynasau rhyngddynt:

- Yr eiddo a'r aelwyd;
- Patrymau mudo;
- Sgiliau iath Gymraeg;
- Defnydd o'r iaith Gymraeg.

1.4 Anfonwyd holiadur at gyfanswm o 4,516 o gyfeiriadau – cymysgedd o ganiatadau cynllunio wedi eu cwblhau dros y cyfnod 2007-2011 (gan gynnwys rheini oedd wedi eu dynodi yn dai fforddiadwy), gwerthiannau tai eraill yn ystod 2008-2012 o fewn 10 ward o dan sylw, a 30% o'r tai nad oedd wedi eu gwerthu dros y cyfnod hwnnw yn yr un 10 ward.

1.5 Cafwyd 1,559 o ymatebion dilys, sef 34.5% o'r sampl. Roedd 55.3% o'r ymatebion o Wynedd a 44.7% o Fôn; roedd 87.9% o Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn a 12.1% o Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

1.6 Adnabuwyd negeseuon allweddol gan gynnwys:

1.6.1 cydberthynas rhwng rhuglder yn y Gymraeg, barn ymatebwyr ar bwysigrwydd yr iaith a'r cyfleoedd i'w defnyddio. Mae'r darlun gofodol yn tueddu i adlewyrchu hyn, er enghraifft wrth gymharu Abersoch, Hirael, Llanbadrig a Porthyfelin â Llanrug, Cyngar a Chlynnog.

1.6.2 polisi addysg yn cael effaith bositif ar sgiliau ieithyddol plant, ond bod y defnydd o'r iaith yn amrywio y tu allan i sefyllfa addysg.

1.6.3 agwedd cyflogwyr yn gallu bod yn hwb i'r iaith Gymraeg e.e. y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yn fwy cefnogol i'r iaith yng Ngwynedd nag ym Môn.

1.6.4 cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn hwb i'r iaith.

1.6.5 mynediad i dai sydd yn fforddiadwy, o'r math a'r maint cywir, ac o fewn ardal teithio i'r gwaith, yn yrrwr pwysig yn natblygiad defnydd y Gymraeg mewn rhai ardaloedd e.e. Cyngar a Llanrug, ac i raddau, Clynnog.

1.6.6 mewnfudo yn gwanhau sefyllfa'r iaith Gymraeg e.e. Abersoch, Llanbadrig ac i raddau Clynnog.

1.6.7 difaterwch yn gwanhau sefyllfa'r iaith Gymraeg e.e. Hirael a Porthyfelin.

# 2. Cyflwyniad

2.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei gynhyrchu ar ran Cyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan y Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd. Cafwyd cefnogaeth ariannol ychwanegol gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.

2.2 Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad o ymatebion i'r 'Arolwg Tai a'r Iaith Gymraeg Gwynedd ac Ynys Môn', a gynhaliwyd rhwng Medi – Tachwedd 2013. Bydd yn rhan o sail dystiolaeth y cyrff uchod ar sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd ac ym Môn.

2.3 Mae'r gwaith hwn yn dilyn dadansoddiad blaenorol o dueddiadau ar sail Cyfrifiadau 2001 a 2011, ynghyd â dadansoddiad o dystiolaeth berthnasol eraill o wahanol ffynonellau.

2.4 Yng Ngwynedd, mae hefyd yn dilyn seminar ar 'Sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd' a gynhaliwyd ar gyfer Aelodau'r Cyngor ym Mawrth 2013. Roedd y seminar hwnnw yn gyfle i ddeall safbwyntiau'r Aelodau, ynghyd â'u tybiaethau am y prif yrwyr dros newid yn sefyllfa'r iaith rhwng 2001 a 2011. Roedd y Grŵp yn awyddus i geisio profi neu wrthbrofi'r tybiaethau hynny gyda'r Arolwg hwn.

2.5 Yn y Seminar, daethpwyd i'r casgliad mai'r prif ffactorau sy'n effeithio ar newid yw:

- mudo
- yr economi
- polisi Addysg
- polisi Cynllunio
- defnydd o'r iaith.

Yn ogystal, cododd nifer o themâu cyson o'r trafodaethau grŵp yn y Seminar:

- defnydd o'r iaith a'r hyder i'w defnyddio
- patrymau mudo ac allfudo

- rôl ysgolion ac addysg i hyrwyddo'r iaith
- materion tai a chynllunio
- codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg
- dylanwadu ar gyrff eraill.

2.5 Bydd y sail tystiolaeth am Tai a'r Iaith Gymraeg yn cynorthwyo'r Awdurdodau gyda'i amcan o ddarparu polisïau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth a hynny yn ei dro yn cefnogi a chreu cymunedau cynaliadwy. Bydd y wybodaeth hon yn eu galluogi i:

- Gyfrannu tuag at sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol ac ieithyddol y Sir;
- Adnabod dulliau cadarnhaol gogyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg;
- Hyrwyddo datblygiadau newydd a fydd yn annog pobl i aros yn eu cymunedau;
- Annog cyfleoedd cyflogaeth gogyfer cefnogi a chreu cymunedau cynaliadwy;
- Gynllunio ac arwain ar ddatblygiadau i wella'r ansawdd a chyflenwad o dai i brynu a rhentu ynghyd â chyfleusterau eraill nawr ac ar gyfer y dyfodol;
- Ystyried effaith bosibl datblygiadau newydd ar yr iaith Gymraeg a chymunedau Cymreig.

2.6 Bydd y sail dystiolaeth hon yn rhoi siâp ar, yn dylanwadu ar ac yn cefnogi'r broses o baratoi a darparu cynlluniau a strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bob Awdurdod, megis y Cynllun Integredig Sengl a'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

2.7 Roedd cwestiynau'r Arolwg hwn yn canolbwyntio ar bedair thema benodol:

- Yr eiddo a'r aelwyd;
- Patrymau mudo;
- Sgiliau iath Gymraeg;

- Defnydd o'r iaith Gymraeg.

2.8 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio taflu goleuni ar unrhyw berthnasau sy'n bodoli rhwng y themâu uchod.

# 3. Methodoleg

3.1 Roedd arnom eisiau deall y sefyllfa ar draws nifer o wahanol ardaloedd daearyddol:

- Yr holl ardal astudiaeth (h.y. Gwynedd ac Ynys Môn);
- Gwynedd ac Ynys Môn yn unigol;
- Ardal Gynllunio Gwynedd ac Ynys Môn ac Ardal Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri (o fewn Gwynedd);

3.2 Yn ogystal, roedd arnom eisiau dealltwriaeth fwy dwys o'r sefyllfa mewn wardiau penodol a oedd wedi gweld newid yn sefyllfa'r iaith Gymraeg, a ble tybiwyd fod y gyrwyr yn amrywio. Dewiswyd 10 Ward Etholiadol – 6 yng Ngwynedd (2 yr un yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd) a 4 ym Môn. Dyma'r wardiau yn ogystal â disgrifiad byr o'r sefyllfa a'r prif yrwyr tybiedig:

3.2.1 **Abersoch:** nifer cymharol isel o siaradwyr Cymraeg. Llawer o ail gartrefi; prisiau tai'n uchel.

3.2.2 **Clynnog:** cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ac yn y boblogaeth yn ôl Cyfrifiad 2011. Tai newydd wedi eu codi.

3.2.3 **De Dolgellau:** wedi cwympo o dan 70% o siaradwyr Cymraeg (y trothwy a ystyrir yn angenrheidiol i gynnal cymuned Gymraeg hyfyw) yn ôl Cyfrifiad 2011.

3,2,4 **Diffwys a Maenofferen:** ardal ôl-ddiwydiannol, gymharol amddifad â phoblogaeth eithaf sefydlog. 3.2.5 **Hirael:** dirywiad mawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011. Cymharol amddifad; llawer o fyfyrwyr.

3.2.6 **Llanrug:** canran uchaf drwy Gymru o siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011. Lloeren i Gaernarfon – llawer yn teithio oddi yno i'r gwaith.

3.2.7 **Cyngar:** canran uchel o siaradwyr Cymraeg, Llawer o dai newydd wedi eu codi yno.

3.2.8 **Llanbadrig:** tybio bod llawer o fewnfudo yno oherwydd gwaith, yn sgil agosrwydd Wylfa.

3.2.9 **Llanfihangel Ysgeifiog:** awgrym gan Hwylusydd Tai Gwledig Ynys Môn fod llawer o dai fforddiadwy wedi eu codi yno.

3.2.10 **Porthyfelin:** dirywiad mawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg; cymharol amddifad.

3.3 Ystyriwyd y wardiau hyn yn eithaf cynrychioladol o wardiau eraill o fewn yr ardal, sy'n golygu mewn egwyddor y gallai negeseuon o'r Arolwg gael eu cymhwyso wrth gynllunio a darparu gwasanaethau o fewn wardiau tebyg. Er enghraifft, gellid defnyddio casgliadau Llanrug yn y Waunfawr a'r Groeslon, a chymhwyso negeseuon o Abersoch yn Abermaw a Thywyn.

3.4 Fe wnaethom samplu tai newydd a oedd â chaniatadau cynllunio wedi eu cwblhau dros y cyfnod 2007-2011. Roedd modd adnabod pa rai o'r rheini oedd wedi eu dynodi yn dai fforddiadwy.

3.5 Roedd tai a oedd wedi eu gwerthu fel arall yn ystod 2008-2012 o fewn y 10 ward o dan sylw hefyd wedi eu cynnwys o fewn y sampl.

3.6 Yn ogystal, fe wnaethom gynnwys cyfran (30%) o'r tai nad oedd wedi eu gwerthu dros y cyfnod hwnnw yn y 10 ward o fewn y sampl.

3.7 Penderfynwyd cynnal arolwg post er mwyn targedu sampl penodol o gyfeiriadau o fewn yr ardal astudiaeth. Roedd sail y sampl terfynol fel a ganlyn:

| Data | Sampl |
|---|---|
| **Tai Newydd (gan gynnwys rheini ag amodau tai fforddiadwy)** | **1,476** |
| *Gwynedd - tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri*[1] | *599* |
| *Gwynedd - tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri*[2] | *211* |
| *Ynys Môn*[3] | *666* |
| **Gwerthiannau tai eraill yn y 10 ward** | **753** |
| *Gwynedd*[4] | *414* |
| *Ynys Môn*[5] | *339* |
| **Cyfeiriadau eraill yn y 10 ward** | **2,287** |
| *Gwynedd*[6] | *1,186* |
| *Ynys Môn*[7] | *1,101* |
| **Maint Sampl** | **4,516** |

[1,3]*Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn*
[2]*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*
[4,5]*Y Gofrestrfa Tir*
[6]*Cofrestr Tir ac Eiddo Lleol, Cyngor Gwynedd*
[7]*Cofrestr Tir ac Eiddo Lleol, Cyngor Ynys Môn*

3.8 Anfonwyd holiadur at gyfanswm o 4,516 o gyfeiriadau, gyda llythyr atgoffa'n cael ei hanfon at 2,258 o gyfeiriadau oedd heb ymateb hanner ffordd drwy gyfnod yr arolwg. Roedd yr opsiwn i'r aelwydydd ymateb ar bapur neu ar-lein.

3.9 Derbyniwyd 88.0% o'r ymatebion drwy'r post, a 12.0% ar-lein.

3.10 Roedd yr holiadur ar-lein ar gael i bawb, felly roedd cyfle hefyd i aelwydydd eraill gymryd rhan yn yr arolwg. Golyga hyn fod y canlyniadau terfynol yn cynnwys aelwydydd nas targedwyd fel rhan o'r sampl uchod.

3.11 Mae'r lefel ymateb wedi ei gofnodi yn adran nesaf yr adroddiad.

3.12 Cynhwysir copi o'r holiadur yn Atodiad 1.

# 4. Canlyniadau

## 4.1 Nifer ymatebion fesul ardal

4.1.1 Roedd cyfradd yr ymatebion yn gyson ar draws y gwahanol ardaloedd, gyda'r ganran ar gyfer holl ardal yr astudiaeth yn 34.5%.

4.1.2 Roedd cyfradd yr ymatebion dipyn yn is na'r cyfartaledd yn achos tai newydd (22.8%) ac eiddo ag amodau tai fforddiadwy yn enwedig (12.5%). Yn achos tai fforddiadwy, mae nifer yr ymatebion yn isel iawn ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r canlyniadau hyn. Ni chafwyd unrhyw ymatebion o dai fforddiadwy ym Môn.

4.1.3 Roedd y ganran o ymatebion yn gymharol is yn Abersoch (24.0%) a Hirael (27.7%) ac yn gryf yn Llanrug (44.1%), gyda gweddill y wardiau'n gyson ac o gwmpas y cyfartaledd.

**Tabl 1: Nifer ymatebion fesul ardal**

| | Maint sampl | Nifer ymatebion dilys | % o'r sampl | % o'r holl ymatebion dilys |
|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 4,516 | 1,559 | 34.5 | 100.0 |
| Gwynedd | 2,410 | 862 | 35.8 | 55.3 |
| Ynys Môn | 2,106 | 697 | 33.1 | 44.7 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 4,028 | 1,370 | 34.0 | 87.9 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 488 | 189 | 38.7 | 12.1 |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 1,476 | 337 | 22.8 | 21.6 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 336 | 42 | 12.5 | 2.7 |
| Gwerthiannau | 753 | 232 | 30.8 | 14.9 |
| Abersoch | 346 | 83 | 24.0 | 5.3 |
| Clynnog | 198 | 70 | 35.4 | 4.5 |
| De Dolgellau | 292 | 110 | 37.7 | 7.1 |
| Diffwys & Maenofferen | 248 | 93 | 37.5 | 6.0 |
| Hirael | 300 | 83 | 27.7 | 5.3 |
| Llanrug | 304 | 134 | 44.1 | 8.6 |
| Cyngar | 395 | 157 | 39.7 | 10.1 |
| Llanbadrig | 340 | 112 | 32.9 | 7.2 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 400 | 146 | 36.5 | 9.4 |
| Porthyfelin | 433 | 130 | 30.0 | 8.3 |

## 4.2 Ym mha flwyddyn y cafodd yr eiddo ei adeiladu / drosi?

4.2.1 Roedd cyfradd uchel o'r eiddo wedi eu hadeiladu / trosi yn y 10 mlynedd diwethaf, gyda dros 20% wedi eu hadeiladu / trosi ers 2003 ymhob ardal. Roedd 29% o'r eiddo yn Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri wedi eu hadeiladu / trosi ers 2003. Mae'r ffigurau'n awgrymu cwymp yn nifer y tai sy'n cael eu hadeiladu yn y cyfnod ers 1976. (Tabl 2)

4.2.2 Adeiladwyd y mwyafrif (69.1%) o'r tai newydd (sef rhai â chaniatadau cynllunio wedi eu cwblhau yn y cyfnod 2007-11) ers 2007, gyda 10.7% pellach wedi'u hadeiladu ers 2003. Mae'r ffigurau hyn yn annisgwyl; efallai fod rhai ymatebwyr wedi rhoi'r flwyddyn y cafodd yr adeilad ei godi yn wreiddiol yn hytrach na pryd y cafodd ei drosi'n dŷ. Adeiladwyd y mwyafrif llethol (85.7%) o'r eiddo ag amodau tai fforddiadwy ers 2007, gyda dim ohonynt wedi eu hadeiladu cyn 2003. (Tabl 3)

4.2.3 Mae oed y tai yn y wardiau yn amrywiol, gyda 2.5% o'r tai yng Nghyngar a 3.6% yn Abersoch wedi'u codi cyn 1900, o'i gymharu â 28.6% yng Nghlynnog a 37.6% yn Niffwys a Maenofferen. Dim ond 1.1% o'r tai yn Niffwys a Maenofferen a godwyd ers 2003, 3.7% yn Llanrug a 4.8% yn Hirael. (Tabl 4)

**Tabl 2: Ym mha flwyddyn y cafodd yr eiddo ei adeiladu / drosi?**

| | Holl ardal astudiaeth | Gwynedd | Ynys Môn | Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | Ardal Cynllunio APCE |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyn 1900 | 12.6% | 16.4% | 7.9% | 11.9% | 17.5% |
| 1900 - 1929 | 9.7% | 10.9% | 8.3% | 10.5% | 4.2% |
| 1930 - 1949 | 6.5% | 6.3% | 6.7% | 6.7% | 4.8% |
| 1950 - 1966 | 9.8% | 8.6% | 11.3% | 9.4% | 12.7% |
| 1967 - 1975 | 7.6% | 7.1% | 8.2% | 8.0% | 4.8% |
| 1976 - 1982 | 4.7% | 3.7% | 6.0% | 5.2% | 1.6% |
| 1983 - 1990 | 3.3% | 2.8% | 4.0% | 3.3% | 3.7% |
| 1991 - 1995 | 1.5% | 1.6% | 1.4% | 1.5% | 1.6% |
| 1996 - 2002 | 2.9% | 2.8% | 3.0% | 2.8% | 3.7% |
| 2003 - 2006 | 4.5% | 3.8% | 5.3% | 3.9% | 9.0% |
| 2007+ | 17.1% | 17.7% | 16.2% | 16.6% | 20.1% |
| Dim Ateb | 19.8% | 18.3% | 21.5% | 20.2% | 16.4% |
| N = | 1,559 | 862 | 697 | 1370 | 189 |

**Tabl 3: Ym mha flwyddyn y cafodd yr eiddo ei adeiladu / trosi? (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau)**

| | Tai Newydd (Caniatadau cynllunio) | Ag amodau tai fforddiadwy | Gwerthiannau |
|---|---|---|---|
| Cyn 1900 | 3.9% | - | 11.2% |
| 1900 - 1929 | 1.2% | - | 12.9% |
| 1930 - 1949 | 0.3% | - | 5.2% |
| 1950 - 1966 | 0.0% | - | 7.3% |
| 1967 - 1975 | 0.6% | -- | 10.8% |
| 1976 - 1982 | 0.3% | - | 5.6% |
| 1983 - 1990 | 0.3% | - | 4.3% |
| 1991 - 1995 | 0.3% | - | 1.3% |
| 1996 - 2002 | 2.4% | - | 3.9% |
| 2003 - 2006 | 10.7% | 7.1% | 3.0% |
| 2007+ | 69.1% | 85.7% | 7.8% |
| Dim Ateb | 11.0% | 7.1% | 26.7% |
| N = | 337 | 42 | 232 |

**Tabl 4: Ym mha flwyddyn y cafodd yr eiddo ei adeiladu / trosi? (fesul ward)**

| | Abersoch | Clynnog | De Dolgellau | Diffwys & Maenofferen | Hirael | Llanrug | Cyngar | Llanbadrig | Llanfihangel Ysgeifiog | Porthyfelin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyn 1900 | 3.6% | 28.6% | 16.4% | 37.6% | 10.8% | 7.5% | 2.5% | 14.3% | 8.2% | 9.2% |
| 1900 - 1929 | 10.8% | 12.9% | 3.6% | 20.4% | 13.3% | 12.7% | 5.7% | 6.3% | 7.5% | 19.2% |
| 1930 - 1949 | 3.6% | 8.6% | 4.5% | 3.2% | 21.7% | 3.7% | 7.0% | 3.6% | 3.4% | 20.0% |
| 1950 - 1966 | 24.1% | 10.0% | 19.1% | 1.1% | 6.0% | 9.0% | 16.6% | 12.5% | 13.7% | 10.0% |
| 1967 - 1975 | 13.3% | 7.1% | 4.5% | 4.3% | 1.2% | 18.7% | 6.4% | 17.0% | 11.6% | 2.3% |
| 1976 - 1982 | 7.2% | 0.0% | 1.8% | 4.3% | 3.6% | 7.5% | 5.1% | 10.7% | 11.0% | 0.0% |
| 1983 - 1990 | 2.4% | 0.0% | 4.5% | 1.1% | 0.0% | 6.7% | 6.4% | 4.5% | 7.5% | 0.0% |
| 1991 - 1995 | 4.8% | 0.0% | 1.8% | 0.0% | 1.2% | 3.7% | 3.2% | 0.9% | 1.4% | 0.0% |
| 1996 - 2002 | 1.2% | 1.4% | 4.5% | 0.0% | 6.0% | 3.0% | 8.3% | 0.0% | 1.4% | 0.8% |
| 2003 - 2006 | 0.0% | 1.4% | 10.9% | 0.0% | 2.4% | 0.7% | 5.1% | 3.6% | 1.4% | 3.1% |
| 2007+ | 12.0% | 10.0% | 6.4% | 1.1% | 2.4% | 3.0% | 10.8% | 10.7% | 6.2% | 4.6% |
| Dim Ateb | 16.9% | 20.0% | 21.8% | 26.9% | 31.3% | 23.9% | 22.9% | 16.1% | 26.7% | 30.8% |
| N = | 83 | 70 | 110 | 93 | 83 | 134 | 157 | 112 | 146 | 130 |

### 4.3 Ym mha flwyddyn wnaethoch chi symud i'r eiddo?

4.3.2 Mae dros hanner yr ymatebwyr (53% yn yr ardal gyfan) wedi symud i'r eiddo yn y 10 mlynedd ers 2003, ac mae hyn yn gyson yn yr holl ardaloedd. Yn ôl y disgwyl, mae'r ffigwr yma'n codi i dros 90% yn achos tai newydd a thai a werthwyd yn y 5 mlynedd diwethaf. Mae oddeutu 12% pellach o'r ymatebwyr wedi symud i'r eiddo ers 1996. (Tablau 5 a 6)

4.3.3 Ar draws y wardiau, mae'r ganran o ymatebwyr sydd wedi symud i'r eiddo ers 2003 yn amrywio o 36.1% yn Abersoch a 36.2% ym Mhorthyfelin i 55.5% yn Ne Dolgellau a 58.0% yn Llanbadrig. (Tabl 7)

**Tabl 5: Ym mha flwyddyn wnaethoch chi symud i'r eiddo?**

| | Holl ardal astudiaeth | Gwynedd | Ynys Môn | Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | Ardal Cynllunio APCE |
|---|---|---|---|---|---|
| 1900 - 1929 | 0.1% | 0.0% | 0.1% | 0.1% | 0.0% |
| 1930 - 1949 | 0.6% | 0.3% | 1.0% | 0.7% | 0.0% |
| 1950 - 1966 | 3.8% | 3.5% | 4.2% | 4.1% | 1.6% |
| 1967 - 1975 | 4.5% | 4.2% | 4.9% | 4.7% | 2.6% |
| 1976 - 1982 | 6.3% | 6.6% | 5.9% | 6.1% | 7.4% |
| 1983 - 1990 | 8.3% | 8.7% | 7.7% | 8.3% | 7.9% |
| 1991 - 1995 | 5.7% | 5.2% | 6.3% | 6.0% | 3.7% |
| 1996 - 2002 | 11.9% | 12.2% | 11.6% | 11.3% | 16.4% |
| 2003 - 2006 | 7.6% | 7.3% | 8.0% | 7.4% | 9.0% |
| 2007+ | 45.4% | 45.7% | 45.1% | 45.3% | 46.0% |
| Dim Ateb | 5.8% | 6.3% | 5.2% | 5.8% | 5.3% |
| N = | 1,559 | 862 | 697 | 1370 | 189 |

**Tabl 6: Ym mha flwyddyn wnaethoch chi symud i'r eiddo? (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau)**

| | Tai Newydd (Caniatadau cynllunio) | Ag amodau tai fforddiadwy | Gwerthiannau |
|---|---|---|---|
| 1900 - 1929 | 0.0% | | 0.4% |
| 1930 - 1949 | 0.0% | | 0.0% |
| 1950 - 1966 | 0.0% | | 0.0% |
| 1967 - 1975 | 0.0% | | 0.0% |
| 1976 - 1982 | 0.6% | | 0.0% |
| 1983 - 1990 | 0.0% | | 0.4% |
| 1991 - 1995 | 0.6% | | 0.0% |
| 1996 - 2002 | 2.4% | | 1.3% |
| 2003 - 2006 | 4.7% | 2.4% | 0.9% |
| 2007+ | 86.1% | 92.9% | 90.9% |
| Dim Ateb | 5.6% | 4.8% | 6.0% |
| N = | 337 | 42 | 232 |

**Tabl 7: Ym mha flwyddyn wnaethoch chi symud i'r eiddo? (fesul ward)**

| | Abersoch | Clynnog | De Dolgellau | Diffwys & Maenofferen | Hirael | Llanrug | Cyngar | Llanbadrig | Llanfihangel Ysgeifiog | Porthyfelin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1900 - 1929 | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.7% | 0.0% |
| 1930 - 1949 | 1.2% | 1.4% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.7% | 0.6% | 0.9% | 0.7% | 3.1% |
| 1950 - 1966 | 3.6% | 11.4% | 2.7% | 5.4% | 6.0% | 3.7% | 6.4% | 0.9% | 6.2% | 6.9% |
| 1967 - 1975 | 2.4% | 4.3% | 4.5% | 8.6% | 9.6% | 6.0% | 3.8% | 3.6% | 4.8% | 13.1% |
| 1976 - 1982 | 9.6% | 10.0% | 5.5% | 10.8% | 6.0% | 5.2% | 5.1% | 10.7% | 6.2% | 8.5% |
| 1983 - 1990 | 14.5% | 8.6% | 7.3% | 8.6% | 8.4% | 11.2% | 7.0% | 6.3% | 10.3% | 11.5% |
| 1991 - 1995 | 6.0% | 5.7% | 3.6% | 8.6% | 4.8% | 3.7% | 8.9% | 6.3% | 6.8% | 3.8% |
| 1996 - 2002 | 13.3% | 12.9% | 16.4% | 10.8% | 14.5% | 18.7% | 15.9% | 10.7% | 12.3% | 8.5% |
| 2003 - 2006 | 7.2% | 5.7% | 12.7% | 5.4% | 6.0% | 7.5% | 7.0% | 11.6% | 8.2% | 3.1% |
| 2007+ | 28.9% | 32.9% | 42.7% | 37.6% | 36.1% | 37.3% | 38.9% | 46.4% | 39.0% | 33.1% |
| Dim Ateb | 13.3% | 7.1% | 4.5% | 4.3% | 8.4% | 6.0% | 6.4% | 2.7% | 4.8% | 8.5% |
| N = | 83 | 70 | 110 | 93 | 83 | 134 | 157 | 112 | 146 | 130 |

### 4.4 Ai chi yw preswylydd cyntaf yr eiddo?

4.4.1 Ychydig dan chwarter yr ymatebwyr yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn oedd y preswylwyr cyntaf yn yr eiddo, gyda hyn yn codi i dros draean yn Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

4.4.2 Roedd canran uwch o’r ymatebwyr yn breswylwyr cyntaf yn yr eiddo pan oedd amodau tai fforddiadwy ar yr eiddo (85.7% o’i gymharu â 72.7% ar gyfer yr holl dai newydd).

4.4.3 Dim ond 1.1% o’r ymatebwyr yn Niffwys a Maenofferen oedd y preswylwyr cyntaf yn yr eiddo (efallai oherwydd bod y tai yno’n tueddu i fod yn hŷn, fel y gwelir yn Nhabl 2), o’i gymharu â 22.7% yn Ne Dolgellau a 23.6% yng Nghyngar.

**Tabl 8: Ai chi yw preswylydd cyntaf yr eiddo?**

| | Ia | Na | Dim ateb | N = |
|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 25.2% | 72.5% | 2.3% | 1,559 |
| Gwynedd | 24.5% | 73.0% | 2.6% | 862 |
| Ynys Môn | 26.1% | 71.9% | 2.0% | 697 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 24.0% | 73.9% | 2.1% | 1,370 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 33.9% | 62.4% | 3.7% | 189 |
| | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 72.7% | 26.7% | 0.6% | 337 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 85.7% | 14.3% | 0.0% | 42 |
| Gwerthiannau | 6.0% | 92.2% | 1.7% | 232 |
| | | | | |
| Abersoch | 19.3% | 74.7% | 6.0% | 83 |
| Clynnog | 15.7% | 78.6% | 5.7% | 70 |
| De Dolgellau | 22.7% | 72.7% | 4.5% | 110 |
| Diffwys & Maenofferen | 1.1% | 96.8% | 2.2% | 93 |
| Hirael | 7.2% | 92.8% | 0.0% | 83 |
| Llanrug | 16.4% | 82.1% | 1.5% | 134 |
| | | | | |
| Cyngar | 23.6% | 73.9% | 2.5% | 157 |
| Llanbadrig | 16.1% | 83.0% | 0.9% | 112 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 19.2% | 79.5% | 1.4% | 146 |
| Porthyfelin | 13.8% | 82.3% | 3.8% | 130 |

### 4.5 A ydych yn brynwr tro cyntaf?

4.5.1 Roedd llai o brynwyr tro cyntaf yn Ardal Cynllunio PCE (15.9%) o'i gymharu ag Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (23.4%).

4.5.2 Roedd mwy o brynwyr tro cyntaf ymhlith y gwerthiannau cyffredinol (22.4%) na'r cartrefi ag amodau tai fforddiadwy (21.4%). Roedd hynny'n fwy na'r ganran o dai newydd a aeth i brynwyr tro cyntaf, sef 18.7%.

4.5.3 Roedd cyfradd y prynwyr tro cyntaf yn sylweddol is yn Abersoch (4.8%) nag yn y wardiau eraill, gyda'r ganran fwyaf o brynwyr tro cyntaf yn Hirael (39.8%). Mae'n bosib fod y gyfradd ymateb ymhlith myfyrwyr yn Hirael yn isel, a bod hynny'n effeithio ar y ffigwr hwn.

**Tabl 9: A ydych yn brynwr tro cyntaf?**

| | Ydw | Nag ydw | Dim ateb | N = |
|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 22.5% | 71.6% | 6.0% | 1,559 |
| Gwynedd | 21.7% | 71.6% | 6.7% | 862 |
| Ynys Môn | 23.4% | 71.6% | 5.0% | 697 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 23.4% | 70.9% | 5.7% | 1,370 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 15.9% | 76.2% | 7.9% | 189 |
| | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 18.7% | 76.9% | 4.5% | 337 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 21.4% | 69.0% | 9.5% | 42 |
| Gwerthiannau | 22.4% | 74.6% | 3.0% | 232 |
| | | | | |
| Abersoch | 4.8% | 84.3% | 10.8% | 83 |
| Clynnog | 15.7% | 75.7% | 8.6% | 70 |
| De Dolgellau | 13.6% | 75.5% | 10.9% | 110 |
| Diffwys & Maenofferen | 20.4% | 74.2% | 5.4% | 93 |
| Hirael | 39.8% | 56.6% | 3.6% | 83 |
| Llanrug | 28.4% | 65.7% | 6.0% | 134 |
| | | | | |
| Cyngar | 28.0% | 66.9% | 5.1% | 157 |
| Llanbadrig | 17.0% | 77.7% | 5.4% | 112 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 30.8% | 65.1% | 4.1% | 146 |
| Porthyfelin | 22.3% | 70.0% | 7.7% | 130 |

## 4.6 Math o eiddo presennol


4.6.1 Yn ôl canlyniadau'r arolwg hwn, yn Ynys Môn, gwelir mwy o dai ar wahân (42.0%) a thai pâr (25.7%) nag yng Ngwynedd (36.9% a 20.8%). Mae canran uwch o dai teras (30.0%) yng Ngwynedd o'i gymharu â Môn (21.8%).

4.6.2 O gymharu ag Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, yn Ardal Cynllunio PCE ceir mwy o dai ar wahân (46.0%) ar draul tai pâr (18%); mae'r ganran o fflatiau (4.8%) yn is yno hefyd.


4.6.3 Tai ar wahân (49.9%) yw'r math mwyaf cyffredin o dai newydd, tra bod tai ag amodau tai fforddiadwy'n fwyaf tebygol o fod yn semi (40.5%). Er mai tai ar wahân yw'r math mwyaf cyffredin ymhlith y gwerthiannau cyffredinol (37.5%), mae canran eithaf sylweddol o dai teras (31.9%) ymhlith y gwerthiannau hefyd.

4.6.4 Mae canran uchel o'r eiddo yn Llanbadrig (60.7%), Clynnog (55.7%) ac Abersoch (53%) yn dai ar wahân, o'i gymharu â 3.6% yn Hirael a 9.2% ym Mhorthyfelin. Mae canran uchel o'r tai yn Niffwys a Maenofferen (68.8%) a Hirael (51.8%) yn dai teras. Mae'r ganran o fflatiau yn gyffredinol isel, gyda 20.0% ym Mhorthyfelin a 16.9% yn Hirael yn ganrannau uchel.

**Ffigwr 1: Math o eiddo presennol yng Ngwynedd**



**Ffigwr 2: Math o eiddo presennol yn Ynys Môn**



**Tabl 10: Math o eiddo presennol**

| | Tŷ neu fyngalo ar-wahân | Tŷ neu fyngalo semi | Tŷ teras (cynnwys tŷ pen) | Fflat neu 'maisonette' | Arall | Dim Ateb | **N =** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 39.2% | 23.0% | 26.4% | 7.5% | 2.1% | 1.9% | 1,559 |
| Gwynedd | 36.9% | 20.8% | 30.0% | 7.4% | 2.7% | 2.2% | 862 |
| Ynys Môn | 42.0% | 25.7% | 21.8% | 7.6% | 1.4% | 1.4% | 697 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 38.2% | 23.6% | 26.4% | 7.9% | 2.0% | 1.8% | 1,370 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 46.0% | 18.0% | 26.5% | 4.8% | 2.6% | 2.1% | 189 |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 49.9% | 19.9% | 10.4% | 14.8% | 4.5% | 0.6% | 337 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 33.3% | 40.5% | 16.7% | 9.5% | 0.0% | 0.0% | 42 |
| Gwerthiannau | 37.5% | 22.4% | 31.9% | 4.3% | 0.9% | 3.0% | 232 |
| Abersoch | 53.0% | 15.7% | 15.7% | 7.2% | 1.2% | 7.2% | 83 |
| Clynnog | 55.7% | 12.9% | 22.9% | 2.9% | 4.3% | 1.4% | 70 |
| De Dolgellau | 34.5% | 20.9% | 35.5% | 5.5% | 0.9% | 2.7% | 110 |
| Diffwys & Maenofferen | 10.8% | 15.1% | 68.8% | 5.4% | 0.0% | 0.0% | 93 |
| Hirael | 3.6% | 24.1% | 51.8% | 16.9% | 2.4% | 1.2% | 83 |
| Llanrug | 39.6% | 35.1% | 20.1% | 1.5% | 1.5% | 2.2% | 134 |
| Cyngar | 47.8% | 23.6% | 20.4% | 4.5% | 1.3% | 2.5% | 157 |
| Llanbadrig | 60.7% | 13.4% | 22.3% | 2.7% | 0.9% | 0.0% | 112 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 40.4% | 34.9% | 19.2% | 0.7% | 2.7% | 2.1% | 146 |
| Porthyfelin | 9.2% | 31.5% | 36.9% | 20.0% | 0.0% | 2.3% | 130 |


## 4.7 Daliadaeth eiddo presennol

4.7.1 Mae'r patrwm o ran daliadaeth yn gyson yn y gwahanol ardaloedd, gydag oddeutu 43.7% yn eiddo heb forgais, oddeutu 33.7% yn eiddo gyda morgais a tua 18.1% yn rhentu (naill ai'n breifat neu gan gymdeithas tai). (Tabl 11)


4.7.2 Yn achos tai newydd, mae'r rhaniad daliadaeth gyda / heb forgais yn fwy cyfartal, ac mae mwy o dai ag amodau tai fforddiadwy yn eiddo gyda morgais (45.7%) na heb (38.4%). Caiff canran debyg o dai newydd eu rhentu'n breifat (9.5%) a gan gymdeithas tai (10.7%), ond prin iawn yw'r tai ag amodau tai fforddiadwy a gaiff eu rhentu gan gymdeithas tai (0.9%).

4.7.3 Mae'r canrannau uchaf o ddaliadaeth eiddo heb forgais yn Abersoch (60.2%), Clynnog (58.6%) a Llanbadrig (58.0%), tra bod daliadaeth gyda morgais yn fwyaf cyffredin yn Llanrug (48.5%). Mae mwy na'r cyffredin o rentu'n breifat yn Hirael (15.7%) a Diffwys a Maenofferen (15.1%), ac mae'r ganran sy'n rhentu'n breifat yn isel yn Abersoch (2.4%). Mae'r ganran sy'n rhentu gan gymdeithas tai ar ei uchaf yn Hirael 20.5% ac ar ei isaf yn Llanrug (4.5%). (Tabl 12)

**Ffigwr 3: Daliadaeth eiddo presennol yng Ngwynedd**



**Ffigwr 4: Daliadaeth eiddo presennol ym Môn**



**Tabl 11: Daliadaeth eiddo presennol**

| | Holl ardal astudiaeth | Gwynedd | Ynys Môn | Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | Ardal Cynllunio APCE | Tai Newydd (Caniatadau cynllunio) | Ag amodau tai fforddiadwy | Gwerthiannau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Berchen yn gyflawn ar yr eiddo heb forgais | 43.7% | 42.6% | 45.2% | 43.7% | 43.9% | 37.7% | 38.4% | 11.9% |
| Berchen ar yr eiddo gyda morgais/benthyciad | 33.7% | 34.8% | 32.3% | 33.6% | 34.4% | 39.2% | 45.7% | 31.0% |
| Berchen ar yr eiddo yn rhannol ac yn rhentu'n rhannol (cynllun rhan-berchnogaeth) | 0.4% | 0.2% | 0.6% | 0.4% | 0.5% | 0.3% | 0.9% | 0.0% |
| Rhentu'r eiddo gan landlord preifat | 8.0% | 8.4% | 7.5% | 8.4% | 4.8% | 9.5% | 11.2% | 2.4% |
| Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai / Cyngor | 10.1% | 9.3% | 11.2% | 10.1% | 10.1% | 10.7% | 0.9% | 50.0% |
| Byw yn yr eiddo gyda theulu/ffrindiau | .7% | 1.2% | 0.1% | 0.7% | 1.1% | 0.3% | 0.0% | 0.0% |
| Byw yn yr eiddo o dan unrhyw drefniant arall | 1.5% | 1.6% | 1.3% | 1.4% | 2.1% | 1.2% | 0.4% | 2.4% |
| Dim Ateb | 1.9% | 2.0% | 1.9% | 1.8% | 3.2% | 1.2% | 2.6% | 2.4% |
| N = | 1,559 | 862 | 697 | 1370 | 189 | 337 | 42 | 232 |

**Tabl 12: Daliadaeth eiddo presennol (fesul ward)**

| | Abersoch | Clynnog | De Dolgellau | Diffwys & Maenofferen | Hirael | Llanrug | Cyngar | Llanbadrig | Llanfihangel Ysgeifiog | Porthyfelin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Berchen yn gyflawn ar yr eiddo heb forgais | 60.2% | 58.6% | 42.7% | 50.5% | 37.3% | 38.1% | 38.2% | 58.0% | 45.2% | 53.1% |
| Berchen ar yr eiddo gyda morgais/benthyciad | 19.3% | 21.4% | 28.2% | 25.8% | 24.1% | 48.5% | 36.9% | 24.1% | 34.2% | 16.2% |
| Berchen ar yr eiddo yn rhannol ac yn rhentu'n rhannol (cynllun rhan-berchnogaeth) | 0.0% | 0.0% | 0.9% | 1.1% | 0.0% | 0.0% | 0.6% | 0.9% | 0.7% | 0.0% |
| Rhentu'r eiddo gan landlord preifat | 2.4% | 4.3% | 6.4% | 15.1% | 15.7% | 5.2% | 7.0% | 5.4% | 8.2% | 8.5% |
| Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai / Cyngor | 12.0% | 10.0% | 16.4% | 6.5% | 20.5% | 4.5% | 13.4% | 10.7% | 8.2% | 16.9% |
| Byw yn yr eiddo gyda theulu/ffrindiau | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 1.2% | .7% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.8% |
| Byw yn yr eiddo o dan unrhyw drefniant arall | 1.2% | 2.9% | 1.8% | 0.0% | 1.2% | 1.5% | 1.9% | 0.9% | 2.1% | 0.8% |
| Dim Ateb | 4.8% | 2.9% | 3.6% | 1.1% | 0.0% | 1.5% | 1.9% | 0.0% | 1.4% | 3.8% |
| N = | 83 | 70 | 110 | 93 | 83 | 134 | 157 | 112 | 146 | 130 |

## 4.8 Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo presennol

4.8.1 Gwrthododd 16.5% ateb y cwestiwn.

4.8.2 Nid yw cost fisol eiddo'n amrywio'n fawr rhwng y gwahanol ardaloedd, gydag ychydig dros draean yr eiddo heb unrhyw gost fisol (er bod Tabl 11 yn dangos bod 43.7% yn eiddo heb forgais) ac oddeutu chwarter yr eiddo'n costio rhwng £251 a £500 yn fisol ymhob ardal. (Tabl 13)

4.8.3 Mae'r ganran heb gost fisol ychydig yn is na'r darlun cyffredinol ar gyfer tai newydd (30.0%) a gwerthiannau (27.2%), ac yn sylweddol is ar gyfer tai fforddiadwy (7.1%). Mae cost fisol 57.1% o'r tai fforddiadwy rhwng £251 a £500, o'i gymharu â 24.9% ar gyfer tai newydd a 30.2% yn achos gwerthiannau. (Tabl 14)

4.8.4 Mae cost 7.1% o'r eiddo ag amodau tai fforddiadwy rhwng £626 a £750, sy'n debyg iawn i'r ganran ar gyfer tai a werthwyd yn gyffredinol (7.3%).

4.8.5 Mae'r ganran o dai heb gost fisol yn y gwahanol wardiau'n cyd-fynd â'r wybodaeth yn Nhabl 11 ynghylch daliadaeth heb forgais. Mae canran uchel o eiddo yn Niffwys a Maenofferen (12.9%) sy'n costio rhwng £1 a £250 yn fisol. Mae canran uwch na'r cyffredin o dai sy'n costio rhwng £501 a £625 yn fisol yng Nghyngar (10.2%), Hirael (8.4%) a Llanrug (8.2%). (Tabl 15)

**Tabl 13: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo presennol**

| | Holl ardal astudiaeth | Gwynedd | Ynys Môn | Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | Ardal Cynllunio APCE |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim / £0 | 34.4% | 33.8% | 35.3% | 34.2% | 36.5% |
| £1 - £125 | 3.4% | 3.6% | 3.2% | 3.5% | 2.6% |
| £126 - £250 | 5.1% | 5.0% | 5.3% | 5.3% | 4.2% |
| £251 - £375 | 11.7% | 12.9% | 10.3% | 11.5% | 13.8% |
| £376 - £500 | 12.6% | 11.0% | 14.6% | 12.6% | 13.2% |
| £501 - £625 | 6.8% | 6.6% | 7.0% | 7.0% | 5.3% |
| £626 - £750 | 3.6% | 3.8% | 3.3% | 3.6% | 3.2% |
| £751 - £875 | 2.4% | 2.3% | 2.4% | 2.6% | 1.1% |
| Mwy na £875 | 3.4% | 3.9% | 2.7% | 3.4% | 3.2% |
| Dim Ateb | 16.5% | 17.1% | 15.8% | 16.4% | 16.9% |
| N = | 1,559 | 862 | 697 | 1370 | 189 |

**Tabl 14: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo presennol (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau)**

| | Tai Newydd (Caniatadau cynllunio) | Ag amodau tai fforddiadwy | Gwerthiannau |
|---|---|---|---|
| Dim / £0 | 30.0% | 7.1% | 27.2% |
| £1 - £125 | 2.1% | 4.8% | 0.4% |
| £126 - £250 | 2.7% | 2.4% | 1.7% |
| £251 - £375 | 8.9% | 26.2% | 12.5% |
| £376 - £500 | 16.0% | 31.0% | 17.7% |
| £501 - £625 | 11.3% | 4.8% | 10.8% |
| £626 - £750 | 5.6% | 7.1% | 7.3% |
| £751 - £875 | 4.7% | 0.0% | 3.9% |
| Mwy na £875 | 6.8% | 0.0% | 3.0% |
| Dim Ateb | 11.9% | 16.7% | 15.5% |
| N = | 337 | 42 | 232 |

**Tabl 15: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo presennol (fesul ward)**

| | Abersoch | Clynnog | De Dolgellau | Diffwys & Maenofferen | Hirael | Llanrug | Cyngar | Llanbadrig | Llanfihangel Ysgeifiog | Porthyfelin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim / £0 | 45.8% | 44.3% | 33.6% | 38.7% | 36.1% | 26.9% | 30.6% | 50.9% | 32.9% | 38.5% |
| £1 - £125 | 3.6% | 1.4% | 1.8% | 7.5% | 7.2% | 2.2% | 5.1% | 3.6% | 2.1% | 4.6% |
| £126 - £250 | 3.6% | 1.4% | 2.7% | 5.4% | 3.6% | 8.2% | 3.8% | 5.4% | 8.9% | 5.4% |
| £251 - £375 | 9.6% | 7.1% | 19.1% | 20.4% | 20.5% | 14.2% | 11.5% | 8.0% | 11.6% | 8.5% |
| £376 - £500 | 3.6% | 10.0% | 15.5% | 9.7% | 6.0% | 13.4% | 17.8% | 8.9% | 13.0% | 11.5% |
| £501 - £625 | 2.4% | 2.9% | 3.6% | 2.2% | 8.4% | 8.2% | 10.2% | 2.7% | 6.2% | 3.1% |
| £626 - £750 | 1.2% | 1.4% | 1.8% | 3.2% | 2.4% | 5.2% | 3.8% | 3.6% | 2.7% | 1.5% |
| £751 - £875 | 0.0% | 2.9% | 0.9% | 0.0% | 1.2% | 2.2% | 2.5% | 1.8% | 2.1% | 2.3% |
| Mwy na £875 | 3.6% | 4.3% | 2.7% | 0.0% | 3.6% | 2.2% | 1.9% | 2.7% | 1.4% | 0.0% |
| Dim Ateb | 26.5% | 24.3% | 18.2% | 12.9% | 10.8% | 17.2% | 12.7% | 12.5% | 19.2% | 24.6% |
| N = | 83 | 70 | 110 | 93 | 83 | 134 | 157 | 112 | 146 | 130 |

4.8.6 Mae'r mwyafrif llethol o brynwyr tro cyntaf sydd ag unrhyw gost fisol yn berchen ar eu heiddo gyda morgais. Mae 97.1% o'r prynwyr tro cyntaf heb gost fisol yn berchen ar yr eiddo heb forgais. Ar gyfer pobl heblaw prynwyr tro cyntaf, yn y braced cost £126-£250, ac ymhob braced cost uwch na £376, mae mwyafrif yn berchen ar yr eiddo gyda morgais. Yn y braced cost £1-£125 ar gyfer pobl eraill, mae rhentu gan gymdeithas tai (44.2%) yn fwy cyffredin na bod yn berchen gyda morgais (37.2%), ac mae hynny'n wir yn y braced £251-£375 hefyd (53.3% yn rhentu gan gymdeithas tai, 31.4% yn berchen gyda morgais). Mae 92.3% o'r bobl eraill sydd heb gost fisol yn berchen heb forgais.

4.8.7 At ei gilydd, mae gan brynwyr tro cyntaf sy'n berchen ar yr eiddo gyda morgais gostau misol canolig. Mae'r ganran uchaf, 29.9%, yn talu £376-£500 yn fisol. Mae cyfran eithaf sylweddol o 20.6% yn talu £501-£625, a chryn dipyn â chostau is hefyd – 14.9% yn talu £251-£375, a 12.4% yn talu £126-£250. Mae'r canrannau dipyn yn is ar gyfer costau uwch ac is na hynny.

4.8.8 Ymysg pobl eraill sy'n berchen gyda morgais, mae'r costau misol yn fwy gwasgaredig, ond unwaith eto £376-£500 yw'r braced mwyaf cyffredin, gyda £501-£625 (13.8%) a £251-£375 (13.5%) hefyd yn gyffredin. Yn wahanol i brynwyr tro cyntaf, mae canran gymharol uchel yn talu dros £875 (12.3%). Mae'r mwyafrif o bobl eraill sy'n rhentu gan gymdeithas tai yn talu £251-£375 yn fisol (53.3%), tra mai talu £376-£500 sydd fwyaf cyffredin ymysg pobl eraill sy'n rhentu'n breifat (40.4%). Yn achos prynwyr tro cyntaf a phobl eraill, mae mwyafrif o'r rhai sy'n berchen ar yr eiddo heb forgais heb gost fisol.

## 4.9 Nifer o bobl sy'n byw yn yr eiddo presennol yn barhaol

4.9.1 Mae nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo'n gyson drwy'r ardaloedd, gydag aelwydydd 2 berson yn fwyaf cyffredin (oddeutu 37.0% yn yr holl ardaloedd), aelwydydd 1 person yn ail-fwyaf cyffredin (rhwng 24.6% a 29.1%) ac aelwydydd â 3 a 4 person â chanran debyg iawn i'w gilydd (10.5% a 11.2% drwy'r holl ardal astudiaeth).

4.9.2 Mae eiddo ag amodau tai fforddiadwy yn fwy tueddol o fod â mwy o bobl yn byw ynddynt, gyda 47.6% ohonynt â 4-6 person yn byw ynddynt (o gymharu â 16.7% ar gyfer yr holl ymatebwyr). Mae llai o dai fforddiadwy â dim ond 2 breswylydd (16.7%, o gymharu â 35.6% ar gyfer tai newydd a 36.6% ar gyfer gwerthiannau).

4.9.3 Mae canran uchel o aelwydydd 1 person ym Mhorthyfelin (40.0%), Diffwys a Maenofferen (36.6%) a De Dolgellau (36.4%). Mae'n debyg fod y ganran uchel na roddodd ateb yn Abersoch (37.3%) yn ffactor pam mae canran is na'r cyffredin o aelwydydd 2 a 3 person yno (22.9% a 3.6%).

**Tabl 16: Nifer o bobl sy'n byw yn yr eiddo presennol yn barhaol**

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Dim ateb | **N =** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 26.2% | 37.0% | 10.5% | 11.2% | 4.5% | 1.0% | 9.6% | 1,559 |
| Gwynedd | 24.6% | 37.1% | 10.1% | 12.2% | 5.0% | 0.8% | 10.2% | 862 |
| Ynys Môn | 28.1% | 36.9% | 10.9% | 10.0% | 3.9% | 1.3% | 8.9% | 697 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 25.8% | 36.7% | 10.4% | 11.3% | 4.8% | 1.1% | 9.9% | 1,370 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 29.1% | 39.2% | 10.6% | 10.6% | 2.1% | 0.5% | 7.9% | 189 |
| | | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 18.7% | 35.6% | 14.2% | 13.4% | 7.1% | 2.1% | 8.9% | 337 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 19.0% | 16.7% | 9.5% | 19.0% | 23.8% | 4.8% | 7.1% | 42 |
| Gwerthiannau | 26.3% | 36.6% | 8.2% | 10.8% | 3.4% | 0.4% | 14.2% | 232 |
| | | | | | | | | |
| Abersoch | 24.1% | 22.9% | 3.6% | 8.4% | 2.4% | 1.2% | 37.3% | 83 |
| Clynnog | 24.3% | 42.9% | 5.7% | 10.0% | 2.9% | 0.0% | 14.3% | 70 |
| De Dolgellau | 36.4% | 39.1% | 6.4% | 10.0% | 0.9% | 0.0% | 7.3% | 110 |
| Diffwys & Maenofferen | 36.6% | 38.7% | 8.6% | 7.5% | 3.2% | 0.0% | 5.4% | 93 |
| Hirael | 26.5% | 39.8% | 6.0% | 15.7% | 3.6% | 0.0% | 8.4% | 83 |
| Llanrug | 20.1% | 40.3% | 11.2% | 12.7% | 6.7% | 0.7% | 8.2% | 134 |
| Cyngar | 22.9% | 39.5% | 12.7% | 12.1% | 5.1% | 1.3% | 6.4% | 157 |
| Llanbadrig | 29.5% | 45.5% | 7.1% | 6.3% | 0.9% | 0.0% | 10.7% | 112 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 32.2% | 37.0% | 8.2% | 8.9% | 4.8% | 2.1% | 6.8% | 146 |
| Porthyfelin | 40.0% | 33.1% | 10.0% | 2.3% | 0.8% | 1.5% | 12.3% | 130 |

## 4.10 Math o eiddo blaenorol

4.10.1 Roedd y math eiddo blaenorol yn weddol gyson rhwng y gwahanol ardaloedd, gyda thai ar wahân ychydig yn fwy cyffredin yn Ynys Môn (35.6%) nag yng Ngwynedd (32.1%), a thai teras yn fwy cyffredin yng Ngwynedd (29.5%) nag yn Ynys Môn (24.1%).

4.10.2 O gymharu ag Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, yn Ardal Cynllunio PCE roedd mwy o'r ymatebwyr yn arfer byw mewn tai ar wahân (37.0% o gymharu â 33.2%), llai mewn tai pâr (17.5% o gymharu â 21.0%) a mwy mewn fflatiau (9.5% o gymharu â 5.2%).

4.10.3 Roedd cyfradd uchel o breswylwyr tai newydd yn arfer byw mewn tai ar wahân (50.1%), a chanran gymharol uchel o breswylwyr tai fforddiadwy'n arfer byw mewn fflatiau (9.5%).

4.10.4 Roedd y ganran o'r ymatebwyr a oedd yn byw'n flaenorol mewn tŷ ar wahân yn uchel yng Nghlynnog (50.0%) ac Abersoch (49.4%). Roedd cyfradd yr eiddo blaenorol a oedd yn dai ar wahân yn isel ar gyfer ymatebwyr yn Hirael (10.8%) a Diffwys a Maenofferen (14.0%), gyda thai teras yn fwyaf cyffredin yno fel eiddo blaenorol (44.6% ar gyfer Hirael, 52.7% ar gyfer Diffwys a Maenofferen). Roedd cyfradd uchel o'r ymatebwyr yn Hirael (13.3%) a De Dolgellau (12.7%) yn arfer byw mewn fflat.

**Tabl 17: Math o eiddo blaenorol**

| | Tŷ neu fyngalo ar-wahân | Tŷ neu fyngalo semi | Tŷ teras (cynnwys tŷ pen) | Fflat neu 'maisonette' | Arall | Dim Ateb | **N =** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 33.7% | 20.6% | 27.1% | 5.7% | 6.0% | 7.0% | 1,559 |
| Gwynedd | 32.1% | 20.0% | 29.5% | 5.7% | 5.6% | 7.2% | 862 |
| Ynys Môn | 35.6% | 21.4% | 24.1% | 5.7% | 6.5% | 6.7% | 697 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 33.2% | 21.0% | 27.2% | 5.2% | 6.3% | 7.1% | 1,370 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 37.0% | 17.5% | 25.9% | 9.5% | 3.7% | 6.3% | 189 |
| | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 50.1% | 17.5% | 20.5% | 5.6% | 3.3% | 3.0% | 337 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 35.7% | 16.7% | 28.6% | 9.5% | 7.1% | 2.4% | 42 |
| Gwerthiannau | 39.2% | 20.3% | 27.2% | 3.9% | 4.3% | 5.2% | 232 |
| | | | | | | | |
| Abersoch | 49.4% | 13.3% | 7.2% | 3.6% | 4.8% | 21.7% | 83 |
| Clynnog | 50.0% | 10.0% | 21.4% | 1.4% | 15.7% | 1.4% | 70 |
| De Dolgellau | 30.0% | 20.0% | 29.1% | 12.7% | 3.6% | 4.5% | 110 |
| Diffwys & Maenofferen | 14.0% | 18.3% | 52.7% | 2.2% | 6.5% | 6.5% | 93 |
| Hirael | 10.8% | 21.7% | 44.6% | 13.3% | 4.8% | 4.8% | 83 |
| Llanrug | 23.9% | 26.9% | 35.1% | 0.0% | 6.7% | 7.5% | 134 |
| | | | | | | | |
| Cyngar | 28.7% | 26.1% | 26.1% | 7.6% | 4.5% | 7.0% | 157 |
| Llanbadrig | 42.9% | 16.1% | 18.8% | 6.3% | 11.6% | 4.5% | 112 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 34.9% | 20.5% | 22.6% | 4.1% | 8.9% | 8.9% | 146 |
| Porthyfelin | 20.8% | 24.6% | 33.8% | 7.7% | 6.2% | 6.9% | 130 |

## 4.11 Daliadaeth eiddo blaenorol

4.11.1 Roedd bod yn berchen ar yr eiddo blaenorol gyda morgais yn fwy cyffredin ym Môn (31.6%) nag yng Ngwynedd (26.9%). Yn Ardal Cynllunio PCE roedd y ganran o ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu heiddo blaenorol heb forgais yn uchel (30.2%), a'r ganran a arferai fyw gyda theulu / ffrindiau yn isel (9.5%). (Tabl 18)

4.11.2 Roedd bod yn berchen ar yr eiddo blaenorol heb forgais yn gyffredin ymhlith preswylwyr tai newydd (30.3%) a thai wedi'u gwerthu yn y 5 mlynedd diwethaf (34.5%); prin oedd y bobl a symudodd o rentu gan gymdeithas tai i dŷ newydd (5.0%) neu dŷ wedi'i werthu'n ddiweddar (2.2%). Roedd canran uchel o berchnogion tai fforddiadwy'n arfer rhentu (31.0% yn breifat, 14.3% gan gymdeithas tai) neu'n byw gyda theulu / ffrindiau (28.6%). (Tabl 19)

4.11.3 O edrych ar y wardiau, roedd canran uchel o'r ymatebwyr yn Abersoch (36.1%) a Chlynnog (35.7%) yn dal eu heiddo blaenorol heb forgais. Roedd cyfradd uchel o'r ymatebwyr yn dal eu heiddo blaenorol gyda morgais yng Nghyngar (38.2%) a Llanrug (38.1%). Roedd cyfradd uchel o'r ymatebwyr yn arfer byw gyda theulu / ffrindiau yn Llanfihangel Ysgeifiog (21.9%) a Chlynnog (20.0%). Yn Hirael, roedd y ganran a arferai rentu (26.5% yn breifat, 27.7% gan gymdeithas tai) yn uchel iawn. (Tabl 20)

4.11.4 Ymysg pobl a oedd yn berchen ar eu heiddo blaenorol gyda morgais, mae 39.0% bellach yn berchen heb forgais a 54.3% yn berchen gyda morgais. Mae 58.0% o brynwyr tro cyntaf a oedd yn rhentu'n breifat bellach yn berchen gyda morgais, a 33.8% yn berchen heb forgais, ond ymysg pobl eraill a oedd yn rhentu'n breifat mae 38.3% yn dal i wneud hynny a 28.6% wedi symud i'r sector gymdeithasol. Mae 60.8% o'r prynwyr tro cyntaf a oedd yn rhentu gan gymdeithas tai bellach yn berchen ar eu heiddo heb forgais, a 33.3% gyda morgais (gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi symud i'r eiddo presennol ers nifer sylweddol o flynyddoedd). Ymysg pobl heblaw prynwyr tro cyntaf a oedd yn arfer rhentu gan gymdeithas tai, mae 63.0% yn dal yn gwneud hynny. Mae 74.5% o brynwyr tro cyntaf a oedd yn byw gyda theulu/ffrindiau yn flaenorol bellach yn berchen ar eu heiddo gyda morgais, tra bod pobl eraill a oedd yn byw gyda theulu/ffrindiau bellach yn dueddol o fod naill ai'n rhentu gan gymdeithas tai (30.5%), yn berchen heb forgais (24.4%) neu'n rhentu'n breifat (23.2%).

4.11.5 Roedd 24.3% o'r prynwyr tro cyntaf sydd bellach yn berchen eu heiddo heb forgais yn byw gyda theulu/ffrindiau yn flaenorol, 22.1% ohonynt yn rhentu gan gymdeithas tai a 19.3% yn rhentu'n breifat; ymysg pobl eraill sydd bellach yn berchen heb forgais, roedd 50.7% yn arfer bod yn yr un sefyllfa a 31.8% yn berchen gyda morgais. Roedd mwyafrif o'r prynwyr tro cyntaf sydd nawr yn berchen ar eu heiddo gyda morgais yn byw gyda theulu/ffrindiau'n

flaenorol (52.6%); roedd y mwyafrif o bobl eraill sy'n berchen gyda morgais yn berchen gyda morgais yn flaenorol hefyd (71.4%). Ymysg pobl heblaw prynwyr tro cyntaf sy'n rhentu'n breifat ar hyn o bryd, rhentu'n breifat yr oedd y rhan fwyaf yn ei wneud yn flaenorol hefyd (49.0%), tra bod y mwyafrif o bobl eraill sydd bellach yn rhentu'n gymdeithasol naill ai'n rhentu'n gymdeithasol (33.6%) neu'n rhentu'n breifat (27.7%) yn flaenorol.

**Tabl 18: Daliadaeth eiddo blaenorol**

| | Holl ardal astudiaeth | Gwynedd | Ynys Môn | Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | Ardal Cynllunio APCE |
|---|---|---|---|---|---|
| Berchen yn gyflawn ar yr eiddo heb forgais | 21.7% | 23.7% | 19.2% | 20.5% | 30.2% |
| Berchen ar yr eiddo gyda morgais/benthyciad | 29.0% | 26.9% | 31.6% | 29.7% | 23.8% |
| Berchen ar yr eiddo yn rhannol ac yn rhentu'n rhannol (cynllun rhan-berchnogaeth) | 0.1% | 0.2% | 0.0% | 0.1% | 0.5% |
| Rhentu'r eiddo gan landlord preifat | 14.7% | 15.8% | 13.3% | 14.4% | 16.9% |
| Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai / Cyngor | 8.8% | 8.4% | 9.3% | 8.8% | 8.5% |
| Byw yn yr eiddo gyda theulu/ffrindiau | 15.1% | 14.3% | 16.1% | 15.8% | 9.5% |
| Byw yn yr eiddo o dan unrhyw drefniant arall | 2.6% | 2.3% | 2.9% | 2.5% | 3.2% |
| Dim Ateb | 8.1% | 8.5% | 7.6% | 8.2% | 7.4% |
| N = | 1,559 | 862 | 697 | 1370 | 189 |

**Tabl 19: Daliadaeth eiddo blaenorol (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau)**

| | Tai Newydd (Caniatadau cynllunio) | Ag amodau tai fforddiadwy | Gwerthiannau |
|---|---|---|---|
| Berchen yn gyflawn ar yr eiddo heb forgais | 30.3% | 7.1% | 34.5% |
| Berchen ar yr eiddo gyda morgais/benthyciad | 26.1% | 14.3% | 28.9% |
| Berchen ar yr eiddo yn rhannol ac yn rhentu'n rhannol (cynllun rhan-berchnogaeth) | 0.3% | 0.0% | 0.0% |
| Rhentu'r eiddo gan landlord preifat | 16.3% | 31.0% | 14.2% |
| Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai / Cyngor | 5.0% | 14.3% | 2.2% |
| Byw yn yr eiddo gyda theulu/ffrindiau | 16.9% | 28.6% | 12.5% |
| Byw yn yr eiddo o dan unrhyw drefniant arall | 1.8% | 2.4% | 2.2% |
| Dim Ateb | 3.3% | 2.4% | 5.6% |
| N = | 337 | 42 | 232 |

**Tabl 20: Daliadaeth eiddo blaenorol (fesul ward)**

| | Abersoch | Clynnog | De Dolgellau | Diffwys & Maenofferen | Hirael | Llanrug | Cyngar | Llanbadrig | Llanfihangel Ysgeifiog | Porthyfelin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Berchen yn gyflawn ar yr eiddo heb forgais | 36.1% | 35.7% | 25.5% | 24.7% | 10.8% | 14.9% | 12.1% | 30.4% | 15.8% | 17.7% |
| Berchen ar yr eiddo gyda morgais/benthyciad | 22.9% | 17.1% | 24.5% | 32.3% | 13.3% | 38.1% | 38.2% | 28.6% | 26.0% | 27.7% |
| Berchen ar yr eiddo yn rhannol ac yn rhentu'n rhannol (cynllun rhan-berchnogaeth) | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Rhentu'r eiddo gan landlord preifat | 8.4% | 14.3% | 18.2% | 12.9% | 26.5% | 7.5% | 8.3% | 14.3% | 11.6% | 18.5% |
| Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai / Cyngor | 2.4% | 2.9% | 14.5% | 6.5% | 27.7% | 9.7% | 15.9% | 5.4% | 11.6% | 10.0% |
| Byw yn yr eiddo gyda theulu/ffrindiau | 4.8% | 20.0% | 7.3% | 14.0% | 12.0% | 18.7% | 15.9% | 13.4% | 21.9% | 15.4% |
| Byw yn yr eiddo o dan unrhyw drefniant arall | 0.0% | 5.7% | 4.5% | 2.2% | 2.4% | 3.0% | 2.5% | 2.7% | 3.4% | 2.3% |
| Dim Ateb | 25.3% | 4.3% | 5.5% | 7.5% | 7.2% | 8.2% | 7.0% | 5.4% | 9.6% | 8.5% |
| N = | 83 | 70 | 110 | 93 | 83 | 134 | 157 | 112 | 146 | 130 |

### 4.12 Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo blaenorol

4.12.1 Roedd cost fisol yr eiddo blaenorol yn gyson ar draws yr ardaloedd, gyda tua chwarter yr eiddo blaenorol yn costio dim a dros 40% yn costio hyd at £500. Yr unig eithiad yw bod canran uchel (31.2%) o'r eiddo blaenorol ar gyfer ymatebwyr yn Ardal Cynllunio PCE heb gost fisol. Roedd bron i chwarter yr ymatebwyr heb ateb y cwestiwn. (Tabl 21)

4.12.2 Roedd canran uchel o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn tai newydd (33.5%) neu dai wedi'u gwerthu'n ddiweddar (31.9%) yn arfer bod heb gost fisol, o gymharu â chanran isel o'r sawl oedd yn byw mewn tai fforddiadwy (16.7%). (Tabl 22)

4.12.3 Roedd canran uchel o'r ymatebwyr yn Abersoch (30.1%), Llanbadrig (34.8%) a Chlynnog yn enwedig (41.4%) yn arfer bod heb gost fisol ar gyfer eu heiddo, gyda'r ganran yn isel yng Nghyngar (17.8%) a Phorthyfelin (14.6%). (Tabl 23)

4.12.4 Mae 32.0% o brynwyr tro cyntaf a oedd heb gost fisol yn dal heb gost fisol, ond mae hyn yn wir am 78.5% o bobl eraill. Mae 47.4% o brynwyr tro cyntaf, a 47.6% o bobl eraill, wedi mynd o dalu £1-£125 i fod heb gost fisol. Er bod 17.9% o brynwyr tro cyntaf, a 15.3% o bobl eraill, a oedd yn talu £126-£250 yn dal yn talu'r un faint, mae 23.1% o brynwyr tro cyntaf a 28.0% o bobl eraill bellach heb gost fisol, a 20.5% o brynwyr tro cyntaf bellach yn talu £376-£500 a 24.6% o bobl eraill bellach yn talu £251-375. Er bod 31.3% o brynwyr tro cyntaf a oedd cynt yn talu £251-£375 bellach yn talu £376-£500, mae 33.1% o'r bobl eraill a oedd yn talu £251-£375 yn dal yn talu'r un fath. Mae 47.8% o brynwyr tro cyntaf a oedd yn talu £376-£500 yn dal yn gwneud hynny, a 32.8% o bobl eraill yn yr un sefyllfa. Mae 33.3% o brynwyr tro cyntaf a oedd yn talu £501-£625 yn dal yn talu hynny, a 33.3% yn talu £376-£500; mae costau misol pobl eraill a oedd yn talu £501-£625 bellach yn wasgaredig, gyda thalu'r un fath yn fwyaf cyffredin (24.5%). Nifer isel o brynwyr tro cyntaf a oedd yn talu mwy na £625. Mae 18.2% o'r bobl eraill a oedd yn talu £626-£750 yn talu mwy na £825 bellach, a'r un ganran heb gost fisol. Mae 45.5% o'r bobl eraill a oedd yn talu £751-£875 yn fisol bellach yn talu mwy na hynny, a 26.1% o'r bobl eraill a oedd yn talu mwy na £875 yn dal yn talu mwy na £875.

4.12.5 Pan fo prynwyr tro cyntaf nawr heb gost fisol, yn fwyaf aml roeddent heb gost fisol (30.8%) neu'n talu £1-£125 (26.0%) o'r blaen; roedd y mwyafrif o bobl eraill sy'n awr heb gost fisol heb gost fisol yn flaenorol (52.8%). Roedd y prynwyr tro cyntaf sydd bellach yn talu £1-£125 yn dueddol o wario'r un faint yn flaenorol (66.7%), gyda'r un peth yn wir am 46.5% o bobl eraill. Ymysg prynwyr tro cyntaf sydd bellach yn talu swm misol mewn unrhyw fraced rhwng £126 ac £875, roedd yn fwyaf cyffredin bod heb gost fisol yn flaenorol. Talu'r un faint

ag o'r blaen oedd fwyaf cyffredin ymysg pobl eraill a oedd yn y bracedi cost rhwng £126 a £500 bellach, tra bod pobl eraill yn y bracedi cost o £501 i fyny oll yn fwyaf tebygol o fod wedi talu £375-500 yn flaenorol.

**Tabl 21: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo blaenorol**

| | Holl ardal astudiaeth | Gwynedd | Ynys Môn | Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | Ardal Cynllunio APCE |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim / £0 | 25.2% | 26.1% | 24.1% | 24.4% | 31.2% |
| £1 - £125 | 11.0% | 10.8% | 11.2% | 11.1% | 10.1% |
| £126 - £250 | 10.7% | 10.4% | 11.0% | 10.4% | 13.2% |
| £251 - £375 | 10.0% | 9.6% | 10.5% | 10.4% | 6.9% |
| £376 - £500 | 9.3% | 8.9% | 9.8% | 9.6% | 6.9% |
| £501 - £625 | 4.4% | 4.6% | 4.0% | 4.3% | 4.8% |
| £626 - £750 | 2.5% | 2.6% | 2.4% | 2.6% | 1.6% |
| £751 - £875 | .7% | .6% | 0.9% | 0.7% | 1.1% |
| Mwy na £875 | 1.9% | 1.9% | 1.9% | 1.8% | 2.1% |
| Dim Ateb | 24.4% | 24.5% | 24.2% | 24.7% | 22.2% |
| N = | 1,559 | 862 | 697 | 1370 | 189 |

**Tabl 22: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo blaenorol (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau)**

| | Tai Newydd (Caniatadau cynllunio) | Ag amodau tai fforddiadwy | Gwerthiannau |
|---|---|---|---|
| Dim / £0 | 33.5% | 16.7% | 31.9% |
| £1 - £125 | 5.0% | 7.1% | 2.6% |
| £126 - £250 | 8.3% | 7.1% | 5.6% |
| £251 - £375 | 9.5% | 14.3% | 10.3% |
| £376 - £500 | 14.2% | 11.9% | 13.4% |
| £501 - £625 | 7.7% | 11.9% | 7.3% |
| £626 - £750 | 4.5% | 7.1% | 4.7% |
| £751 - £875 | 0.9% | 0.0% | 0.0% |
| Mwy na £875 | 2.1% | 0.0% | 3.4% |
| Dim Ateb | 14.2% | 23.8% | 20.7% |
| N = | 337 | 42 | 232 |

**Tabl 23: Cost fisol (rhentu neu forgais) yr eiddo blaenorol (fesul ward)**

| | Abersoch | Clynnog | De Dolgellau | Diffwys & Maenofferen | Hirael | Llanrug | Cyngar | Llanbadrig | Llanfihangel Ysgeifiog | Porthyfelin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim / £0 | 30.1% | 41.4% | 26.4% | 24.7% | 20.5% | 20.9% | 17.8% | 34.8% | 25.3% | 14.6% |
| £1 - £125 | 4.8% | 8.6% | 13.6% | 18.3% | 20.5% | 11.2% | 14.0% | 8.9% | 10.3% | 19.2% |
| £126 - £250 | 4.8% | 5.7% | 14.5% | 11.8% | 9.6% | 11.9% | 9.6% | 14.3% | 14.4% | 10.0% |
| £251 - £375 | 9.6% | 7.1% | 10.0% | 11.8% | 7.2% | 10.4% | 11.5% | 7.1% | 14.4% | 8.5% |
| £376 - £500 | 3.6% | 4.3% | 4.5% | 6.5% | 10.8% | 11.9% | 10.2% | 8.9% | 4.1% | 5.4% |
| £501 - £625 | 4.8% | 0.0% | 6.4% | 3.2% | 2.4% | 3.0% | 6.4% | 2.7% | 2.7% | 2.3% |
| £626 - £750 | 1.2% | 1.4% | 1.8% | 2.2% | 2.4% | 2.2% | 2.5% | 3.6% | 2.1% | 1.5% |
| £751 - £875 | 1.2% | 1.4% | 0.9% | 0.0% | 1.2% | 0.0% | 0.6% | 0.0% | 0.7% | 0.0% |
| Mwy na £875 | 2.4% | 1.4% | 1.8% | 2.2% | 3.6% | 1.5% | 3.2% | 2.7% | 0.0% | 0.0% |
| Dim Ateb | 37.3% | 28.6% | 20.0% | 19.4% | 21.7% | 26.9% | 24.2% | 17.0% | 26.0% | 38.5% |
| N = | 83 | 70 | 110 | 93 | 83 | 134 | 157 | 112 | 146 | 130 |

4.12.6 Gan amlaf, roedd prynwyr tro cyntaf a oedd heb gost fisol yn eu heiddo blaenorol yn byw gyda theulu/ffrindiau (79.0%), tra bod mwyafrif o’r bobl eraill a oedd heb gost fisol yn berchen ar yr eiddo heb forgais (77.8%). Roedd prynwyr tro cyntaf â chost fisol isel o £1-£125 yn dueddol o rentu naill ai gan gymdeithas (35.1%) neu’n breifat (31.6%), gyda rhentu gan gymdeithas yn llawer mwy cyffredin yng Ngwynedd nag ym Môn, gyda phobl eraill yn yr un braced yn fwy tueddol o fod yn berchen gyda morgais (49.5%). Roedd prynwyr tro cyntaf a oedd yn y braced cost £251-£375 yn flaenorol yn fwyaf tueddol o rentu’n breifat (43.8%), tra bod pobl eraill a oedd yn talu’r un faint yn fwyaf tueddol o fod yn berchnogion gyda morgais (62.8%). Mae’r patrwm yn debyg ar gyfer y bracedi uwch. Pan oedd y gost flaenorol yn £376-£500, roedd 82.6% o brynwyr tro cyntaf yn arfer rhentu’n breifat a 56.9% o bobl eraill yn berchen gyda morgais; yn y braced £501-£625, roedd 66.7% o brynwyr tro cyntaf yn rhentu’n breifat (gyda’r ganran dipyn yn uwch yng Ngwynedd), a 66.0% o bobl eraill yn berchen gyda morgais. Nifer isel o brynwyr tro cyntaf oedd yn gwario mwy na hynny’n flaenorol.

4.12.7 Pan oedd prynwyr tro cyntaf yn rhentu’n breifat yn flaenorol, roedd 23.8% yn talu £376-£500 a 22.5% yn talu £1-£125; ymysg pobl eraill a oedd yn rhentu’n breifat, roedd 29.3% yn talu £376-£500. Pan oedd prynwyr tro cyntaf yn rhentu gan gymdeithas tai yn flaenorol, roedd 39.2% yn talu £1-£125; ymysg pobl eraill a oedd yn rhentu’n breifat, roedd 31.5% yn talu £1-£125 a 26.0% yn talu £251-£375. Pan oedd prynwyr tro cyntaf yn byw gyda theulu/ffrindiau, roedd 57.7% heb gost fisol; 45.1% oedd y ffigwr ar gyfer pobl eraill. Roedd 70.0% o’r bobl eraill a oedd yn berchen heb forgais heb gost fisol, a’r costau’n wastad ar gyfer pobl eraill a oedd yn berchen gyda morgais (19.1% ar gyfer £126-£250 a 18.2% ar gyfer £251-£375).

## 4.13 Nifer o bobl a oedd yn byw yn yr eiddo blaenorol yn barhaol

4.13.1 2 berson oedd y nifer mwyaf cyffredin a oedd yn byw yn yr eiddo blaenorol (27.8% drwy'r holl ardal astudiaeth), gydag aelwydydd 4 person yn ail-fwyaf cyffredin (18.5% drwy'r holl ardal astudiaeth). 10.3% o aelwydydd oedd ag 1 person yn flaenorol, gyda'r ffigwr yn codi i 18.0% ar gyfer Ardal Cynllunio PCE.

4.13.2 Roedd preswylwyr tai fforddiadwy yn dueddol o fyw mewn eiddo â nifer fwy o bobl yn flaenorol, gyda 4.8% yn arfer byw mewn eiddo 1 person a 50.0% yn byw ar aelwydydd â 4 neu fwy o bobl (o gymharu â 28.7% ar gyfer holl ardal yr astudiaeth). Canran isel o breswylwyr tai fforddiadwy oedd yn arfer byw ar aelwyd 2 berson (19.0% o gymharu â 36.5% ar gyfer preswylwyr tai newydd a 35.3% ar gyfer ymatebwyr mewn eiddo a werthwyd yn ddiweddar).

**Tabl 24: Nifer o bobl a oedd yn byw yn yr eiddo blaenorol yn barhaol**

| | Dim ateb | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7+ | **N =** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 18.9% | 10.3% | 27.8% | 14.4% | 18.5% | 7.1% | 2.4% | 0.7% | 1,559 |
| Gwynedd | 19.1% | 10.9% | 27.1% | 14.6% | 18.7% | 7.2% | 2.1% | 0.2% | 862 |
| Ynys Môn | 18.5% | 9.5% | 28.7% | 14.1% | 18.4% | 6.9% | 2.7% | 1.3% | 697 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 19.2% | 9.2% | 28.2% | 14.0% | 18.8% | 7.3% | 2.5% | 0.8% | 1,370 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 16.4% | 18.0% | 25.4% | 16.9% | 16.4% | 5.3% | 1.6% | 0.0% | 189 |
| | | | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 10.4% | 11.0% | 36.5% | 14.5% | 18.1% | 8.0% | 1.5% | 0.0% | 337 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 14.3% | 4.8% | 19.0% | 11.9% | 21.4% | 21.4% | 7.1% | 0.0% | 42 |
| Gwerthiannau | 16.8% | 13.8% | 35.3% | 10.8% | 13.8% | 6.0% | 2.6% | 0.9% | 232 |
| | | | | | | | | | |
| Abersoch | 41.0% | 7.2% | 22.9% | 6.0% | 15.7% | 7.2% | 0.0% | 0.0% | 83 |
| Clynnog | 17.1% | 8.6% | 31.4% | 14.3% | 17.1% | 8.6% | 2.9% | 0.0% | 70 |
| De Dolgellau | 16.4% | 19.1% | 23.6% | 16.4% | 17.3% | 5.5% | 1.8% | 0.0% | 110 |
| Diffwys & Maenofferen | 23.7% | 9.7% | 29.0% | 5.4% | 23.7% | 6.5% | 2.2% | 0.0% | 93 |
| Hirael | 20.5% | 13.3% | 24.1% | 10.8% | 21.7% | 6.0% | 2.4% | 1.2% | 83 |
| Llanrug | 21.6% | 6.7% | 21.6% | 18.7% | 20.1% | 8.2% | 2.2% | 0.7% | 134 |
| Cyngar | 19.1% | 6.4% | 29.9% | 15.3% | 19.7% | 4.5% | 4.5% | 0.6% | 157 |
| Llanbadrig | 17.9% | 12.5% | 36.6% | 9.8% | 15.2% | 5.4% | 0.0% | 2.7% | 112 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 21.2% | 9.6% | 25.3% | 13.0% | 17.1% | 8.2% | 4.8% | 0.7% | 146 |
| Porthyfelin | 24.6% | 11.5% | 20.8% | 16.2% | 14.6% | 6.9% | 2.3% | 3.1% | 130 |

## 4.14 Newid mewn math o dŷ

4.14.1 Y duedd wrth gymharu eiddo blaenorol ac eiddo presennol yr ymatebwyr yw bod pobl naill ai'n aros yn yr un math o eiddo neu'n symud i eiddo mwy o faint.

4.14.2 Mae'r mwyafrif o bobl oedd yn arfer byw mewn tai ar wahân yn dal yn byw mewn tŷ ar wahân (58.1%).

4.14.3 Mae 32.4% o'r ymatebwyr a oedd yn arfer byw mewn semi yn dal yn byw mewn semi, ond symudodd 36.1% ohonynt i dŷ ar wahân.

4.14.4 Mae 41.0% o'r ymatebwyr a oedd yn arfer byw mewn tŷ teras yn dal yn byw mewn tŷ teras, ond symudodd 26.1% ohonynt i semi a 25.4% i dŷ ar wahân.

4.14.5 Dim ond 13.5% o'r ymatebwyr a oedd yn arfer byw mewn fflat sy'n dal yn byw mewn fflat; symudodd 38.2% ohonynt i dŷ teras, 23.6% i semi a 22.5% i dŷ ar wahân.

**Tabl 25: Newid mewn math o dŷ**

| | | Math o dŷ blaenorol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Tŷ neu fyngalo ar-wahân | Tŷ neu fyngalo semi | Tŷ teras (cynnwys tŷ pen) | Fflat neu 'maisonette' | Arall | Dim Ateb |
| Math o dŷ presennol | Tŷ neu fyngalo ar-wahân | 58.3% | 36.1% | 25.4% | 22.5% | 29.0% | 32.1% |
| | Tŷ neu fyngalo semi | 15.6% | 32.4% | 26.1% | 23.6% | 26.9% | 14.7% |
| | Tŷ teras (cynnwys tŷ pen) | 16.6% | 18.4% | 41.0% | 38.2% | 26.9% | 30.3% |
| | Fflat neu 'maisonette' | 6.7% | 9.7% | 6.2% | 13.5% | 8.6% | 4.6% |
| | Arall | 2.5% | 0.9% | 0.9% | 1.1% | 7.5% | 4.6% |
| | Dim Ateb | 0.4% | 2.5% | 0.5% | 1.1% | 1.1% | 13.8% |
| | N = | 525 | 321 | 422 | 89 | 93 | 109 |

## 4.15 Newid mewn math o ddaliadaeth

4.15.1 Y duedd gyffredinol wrth edrych ar y newid yn y math o ddaliadaeth yw bod pobl yn symud i fod yn berchen ar eu heiddo, heb forgais os yw hynny'n bosibl.

4.15.2 Mae 83.7% o'r ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu heiddo blaenorol heb forgais yn dal heb forgais.

4.15.3 Mae mwyafrif yr ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu heiddo blaenorol gyda morgais yn dal â morgais ar eu heiddo presennol (53.5%), ond mae 38.9% bellach yn berchnogion heb forgais.

4.15.4 26.6% o'r ymatebwyr a oedd yn rhentu'n breifat sy'n dal yn gwneud hynny; mae 30.6% ohonynt wedi newid i fod yn berchen ar eiddo gyda morgais, a 20.1% bellach yn berchnogion ar eiddo heb forgais. Mae lleiafrif arwyddocaol o 17.5% wedi symud i rentu gan gymdeithas tai.

4.15.5 Parhau i rentu gan gymdeithas tai sydd fwyaf cyffredin (39.4%) ymysg pobl a wnâi hynny'n flaenorol, ond mae canran eithaf sylweddol (33.6%) o'r bobl a oedd yn rhentu gan gymdeithas tai bellach yn berchen ar eiddo heb forgais. Mae lleiafrif hefyd yn berchen ar eiddo gyda morgais (14.6%) neu wedi symud i rentu yn y sector breifat (8.8%).

4.15.6 Lleiafrif bychan iawn o'r ymatebwyr a oedd yn arfer byw gyda theulu / ffrindiau sy'n dal i wneud hynny; mae'r mwyafrif wedi symud i fod yn berchen ar eu tŷ gyda morgais (50.6%).

4.15.7 Mae mwyafrif yr ymatebwyr oedd â threfniant arall yn flaenorol bellach yn berchen ar eiddo naill ai gyda morgais (37.5%) neu heb forgais (30.0%).

**Tabl 26: Newid mewn math o daliadaeth**

| | | Math o daliadaeth blaenorol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Berchen yn gyflawn ar yr eiddo heb forgais | Berchen ar yr eiddo gyda morgais/ benthyciad | Berchen ar yr eiddo yn rhannol ac yn rhentu'n rhannol (cynllun rhan-berchnogaeth) | Rhentu'r eiddo gan landlord preifat | Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai / Cyngor | Byw yn yr eiddo gyda theulu/ffrindiau | Byw yn yr eiddo o dan unrhyw drefniant arall | Dim Ateb |
| Math o daliadaeth presennol | Berchen yn gyflawn ar yr eiddo heb forgais | 83.7% | 38.9% | 0.0% | 20.1% | 33.6% | 23.8% | 30.0% | 50.0% |
| | Berchen ar yr eiddo gyda morgais/ benthyciad | 10.4% | 53.5% | 100.0% | 30.6% | 14.6% | 50.6% | 37.5% | 17.5% |
| | Berchen ar yr eiddo yn rhannol ac yn rhentu'n rhannol (cynllun rhan-berchnogaeth) | 0.0% | 0.2% | 0.0% | 2.2% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| | Rhentu'r eiddo gan landlord preifat | 1.5% | 3.3% | 0.0% | 26.6% | 8.8% | 9.8% | 10.0% | 3.2% |
| | Rhentu'r eiddo gan gymdeithas tai / Cyngor | 2.4% | 2.2% | 0.0% | 17.5% | 39.4% | 12.3% | 12.5% | 9.5% |
| | Byw yn yr eiddo gyda theulu/ffrindiau | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.9% | 1.5% | 1.3% | 0.0% | 3.2% |
| | Byw yn yr eiddo o dan unrhyw drefniant arall | 1.8% | 0.9% | 0.0% | 1.7% | 0.7% | 1.7% | 7.5% | 0.8% |
| | Dim Ateb | 0.3% | 0.9% | 0.0% | 0.4% | 1.5% | 0.4% | 2.5% | 15.9% |
| | N = | 338 | 452 | 2 | 229 | 137 | 235 | 40 | 126 |

## 4.16 Newid yn y gost fisol (rhentu neu forgais)

4.16.1 Pan fo cost fisol yr eiddo blaenorol yn isel, mae newid i fod heb gost yn gyffredin, gyda 48.0% o’r rhai oedd yn talu £1-£125, a 25.7% o’r rhai oedd yn talu £126-£250, bellach heb gost fisol.

4.16.2 Gyda chostau canolig, aros yn yr un braced cost fisol sydd fwyaf cyffredin, gyda 30.1% o’r rhai a dalai £251-£375, 36.6% o’r rhai a dalai £376-£500, a 26.5% o’r rhai a dalai £501-£625, i gyd yn dal o fewn yr un braced.

4.16.3 Ar ben arall y sbectrwm, mae 45.5% o’r ymatebwyr a oedd yn talu £751-£875 yn fisol bellach yn talu mwy na hynny; ymysg y rhai oedd yn talu dros £875 yn flaenorol, parhau i dalu dros £875 sydd fwyaf cyffredin (27.6%).

**Tabl 27: Newid yn y gost fisol (rhentu neu forgais)**

| | | Cost misol (rhentu neu forgais) blaenorol | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dim / £0 | £1 - £125 | £126 - £250 | £251 - £375 | £376 - £500 | £501 - £625 | £626 - £750 | £751 - £875 | Mwy na £875 | Dim Ateb |
| Cost misol (rhentu neu forgais) presennol | Dim / £0 | 65.6% | 48.0% | 25.7% | 14.1% | 13.1% | 8.8% | 15.4% | 9.1% | 17.2% | 25.0% |
| | £1 - £125 | 0.8% | 15.2% | 3.6% | 4.5% | 0.7% | 1.5% | 0.0% | 0.0% | 3.4% | 2.1% |
| | £126 - £250 | 3.8% | 5.3% | 16.2% | 6.4% | 3.4% | 4.4% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 2.9% |
| | £251 - £375 | 6.6% | 8.2% | 21.0% | 30.1% | 10.3% | 10.3% | 10.3% | 18.2% | 3.4% | 8.4% |
| | £376 - £500 | 9.2% | 5.8% | 15.0% | 19.9% | 36.6% | 14.7% | 10.3% | 0.0% | 3.4% | 7.1% |
| | £501 - £625 | 6.1% | 3.5% | 5.4% | 8.3% | 13.1% | 26.5% | 12.8% | 9.1% | 10.3% | 2.1% |
| | £626 - £750 | 1.8% | 1.2% | 2.4% | 5.1% | 9.7% | 8.8% | 15.4% | 9.1% | 10.3% | 1.3% |
| | £751 - £875 | 1.0% | 1.2% | 0.6% | 4.5% | 5.5% | 8.8% | 10.3% | 9.1% | 13.8% | 0.0% |
| | Mwy na £875 | 1.3% | 0.6% | 0.6% | 2.6% | 6.9% | 11.8% | 15.4% | 45.5% | 27.6% | 1.3% |
| | Dim Ateb | 3.8% | 11.1% | 9.6% | 4.5% | 0.7% | 4.4% | 10.3% | 0.0% | 10.3% | 49.7% |
| N = | | 393 | 171 | 167 | 156 | 145 | 68 | 39 | 11 | 29 | 380 |

## 4.17 Newid yn y nifer o bobl sy'n byw mewn eiddo

4.17.1 Pan oedd nifer llai o breswylwyr yn yr eiddo blaenorol, mae'r niferoedd yn dueddol o aros yn gyson, ond gydag aelwydydd â mwy o bobl mae tueddiad i'r nifer leihau.

4.17.2 Arhosodd y rhan fwyaf o aelwydydd 1 person yr un fath (76.9%), gyda'r un peth yn wir am aelwydydd 2 berson (59.0%). Er bod tua'u chwarter wedi aros yr un maint, newid i fod yn aelwydydd 2 berson oedd fwyaf cyffredin yn achos aelwydydd 3 person (33.5%), 4 person (38.1%). Arhosodd llai o aelwydydd 5 person (18.2%), 6 person (13.5%) a 7+ person (0.0%) yr un fath. Er mai gostwng i fod yn aelwydydd 2 berson sydd fwyaf cyffredin ar gyfer aelwydydd o 6 person (27.0%) a 7+ person (45.5%), newidiodd cyfran eithaf sylweddol o aelwydydd 6 person (27.0%) a 7+ person (27.3%) i fod yn aelwydydd 1 person.

**Tabl 28: Newid yn y nifer o bobl sy'n byw mewn eiddo**

| | | Nifer o bobl mewn eiddo blaenorol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7+ | Dim ateb |
| Nifer o bobl mewn eiddo presennol | 1 | 76.9% | 22.8% | 20.5% | 13.1% | 20.9% | 27.0% | 27.3% | 22.4% |
| | 2 | 13.1% | 59.0% | 33.5% | 38.1% | 30.9% | 27.0% | 45.5% | 22.4% |
| | 3 | 2.5% | 7.4% | 24.1% | 12.1% | 10.9% | 8.1% | 9.1% | 7.5% |
| | 4 | 3.1% | 6.0% | 15.6% | 27.3% | 10.9% | 10.8% | 9.1% | 4.4% |
| | 5 | 1.3% | 1.2% | 4.9% | 6.6% | 18.2% | 13.5% | 0.0% | 2.7% |
| | 6 | 0.6% | 0.5% | 0.0% | 0.7% | 2.7% | 13.5% | 9.1% | 0.7% |
| | Dim ateb | 2.5% | 3.2% | 1.3% | 2.1% | 5.5% | 0.0% | 0.0% | 39.8% |
| | N = | 160 | 434 | 224 | 289 | 110 | 37 | 11 | 294 |


## 4.18 Ble oeddech chi'n byw cyn i chi symud i'r eiddo presennol?

4.18.1 Symud o fewn y siroedd oedd y patrwm mwyaf cyffredin, gyda 63.1% o'r ymatebwyr yng Ngwynedd â'u heiddo blaenorol yn y sir, a 69.3% o'r ymatebwyr ym Môn â'u heiddo blaenorol ym Môn. Prin oedd y mudo o Fôn i Wynedd (3.8%) ac o Wynedd i Fôn (5.9%), a doedd dim mudo o Fôn i Ardal Cynllunio PCE. Symudodd canran ychydig yn fwy o bobl o lefydd eraill yn y DU i Wynedd (17.7%) nag i Fôn (15.9%); roedd canran fwy sylweddol o'r ymatebwyr yn Ardal Cynllunio PCE wedi symud yno o rywle arall yn y DU (22.2%). Roedd symud o rywle arall yng ngogledd Nghymru yn fwy cyffredin ar gyfer Ardal Cynllunio PCE (5.8%) nag Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (2.5%), gyda phatrwm tebyg ar gyfer symud o weddill Cymru hefyd.


4.18.2 Aeth y mwyafrif llethol o dai fforddiadwy i bobl o Wynedd (90.5%). Roedd canran uwch na'r cyffredin o bobl a symudodd o rywle arall yn y DU yn byw mewn tai newydd (19.3%) a thai a werthwyd yn y 5 mlynedd diwethaf (22.4%).

4.18.3 O edrych ar y wardiau, roedd y lefel uchaf o symud o fewn yr un sir i'w weld yn Llanrug (80.6%) a Cyngar (80.3%). Yn Abersoch y gwelwyd y lefel uchaf o fudo o rywle arall yn y DU (42.2%) a hynny ar draul mudo o lefydd eraill yng Ngwynedd (31.3%); roedd patrwm tebyg yn Llanbadrig, gyda 40.2% o'r ymatebwyr yno wedi symud o rywle arall yn y DU, o gymharu â 50.0% wedi symud o lefydd eraill ym Môn.

**Ffigwr 5: Ble oedd ymatebwyr yn byw cyn symud i'r eiddo presennol (Gwynedd)**



**Ffigwr 6: Ble oedd ymatebwyr yn byw cyn symud i'r eiddo presennol (Môn)**



**Tabl 29: Ble oeddech chi'n byw cyn i chi symud i'r eiddo presennol?**

| | Rhywle arall yn Ynys Môn | Rhywle arall yng Ngwynedd | Rhywle arall yng Ngogledd Cymru | Rhywle arall yng Nghymru | Rhywle arall yn y DU | Tu allan i'r DU | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 33.1% | 37.5% | 2.9% | 2.9% | 16.9% | 1.3% | 5.4% | 1,559 |
| Gwynedd | 3.8% | 63.1% | 4.1% | 3.8% | 17.7% | 1.4% | 6.0% | 862 |
| Ynys Môn | 69.3% | 5.9% | 1.4% | 1.7% | 15.9% | 1.1% | 4.6% | 697 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 37.7% | 34.5% | 2.5% | 2.4% | 16.2% | 1.2% | 5.5% | 1,370 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 0.0% | 59.3% | 5.8% | 6.3% | 22.2% | 1.6% | 4.8% | 189 |
| | | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 31.5% | 40.4% | 3.0% | 2.4% | 19.3% | 1.2% | 2.4% | 337 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 0.0% | 90.5% | 0.0% | 2.4% | 4.8% | 0.0% | 2.4% | 42 |
| Gwerthiannau | 31.5% | 31.9% | 4.3% | 3.9% | 22.4% | 2.2% | 3.9% | 232 |
| | | | | | | | | |
| Abersoch | 0.0% | 31.3% | 2.4% | 1.2% | 42.2% | 1.2% | 21.7% | 83 |
| Clynnog | 0.0% | 60.0% | 7.1% | 8.6% | 21.4% | 0.0% | 2.9% | 70 |
| De Dolgellau | 0.0% | 58.2% | 7.3% | 8.2% | 21.8% | .9% | 3.6% | 110 |
| Diffwys & Maenofferen | 1.1% | 65.6% | 7.5% | 1.1% | 17.2% | 1.1% | 6.5% | 93 |
| Hirael | 13.3% | 60.2% | 6.0% | 4.8% | 10.8% | 2.4% | 2.4% | 83 |
| Llanrug | 5.2% | 80.6% | 1.5% | 3.7% | 5.2% | 1.5% | 2.2% | 134 |
| | | | | | | | | |
| Cyngar | 80.3% | 5.7% | 0.6% | 0.6% | 6.4% | 1.9% | 4.5% | 157 |
| Llanbadrig | 50.0% | 2.7% | 0.9% | 3.6% | 40.2% | 0.0% | 2.7% | 112 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 67.8% | 11.0% | 1.4% | 1.4% | 13.0% | 0.7% | 4.8% | 146 |
| Porthyfelin | 76.9% | 3.1% | 2.3% | 0.8% | 8.5% | 2.3% | 6.2% | 130 |

**Tabl 30: Ble oeddech chi'n byw cyn i chi symud i'r eiddo presennol fesul Gwerthiannau a Tai newydd mewn wardiau**

| | | Rhywle arall yn Ynys Môn | Rhywle arall yng Ngwynedd | Rhywle arall yng Ngogledd Cymru | Rhywle arall yng Nghymru | Rhywle arall yn y DU | Tu allan i'r DU | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abersoch | Tai newydd | 0.0% | 100.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 8 |
| | Gwerthiannau | 0.0% | 26.7% | 6.7% | 0.0% | 46.7% | 0.0% | 20.0% | 15 |
| Clynnog | Tai newydd | 0.0% | 80.0% | 20.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 5 |
| | Gwerthiannau | 0.0% | 25.0% | 16.7% | 25.0% | 33.3% | 0.0% | 0.0% | 12 |
| De Dolgellau | Tai newydd | 0.0% | 16.7% | 0.0% | 33.3% | 50.0% | 0.0% | 0.0% | 6 |
| | Gwerthiannau | 0.0% | 54.5% | 9.1% | 4.5% | 31.8% | 0.0% | 0.0% | 22 |
| Diffwys & Maenofferen | Tai newydd | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0 |
| | Gwerthiannau | 0.0% | 59.1% | 4.5% | 0.0% | 31.8% | 4.5% | 0.0% | 22 |
| Hirael | Tai newydd | 0.0% | 50.0% | 50.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 4 |
| | Gwerthiannau | 18.8% | 25.0% | 12.5% | 12.5% | 25.0% | 6.3% | 0.0% | 16 |
| Llanrug | Tai newydd | 0.0% | 100.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 2 |
| | Gwerthiannau | 5.7% | 77.1% | 2.9% | 2.9% | 5.7% | 2.9% | 2.9% | 35 |
| | | | | | | | | | |
| Cyngar | Tai newydd | 88.9% | 5.6% | 0.0% | 0.0% | 5.6% | 0.0% | 0.0% | 18 |
| | Gwerthiannau | 69.6% | 13.0% | 0.0% | 4.3% | 8.7% | 4.3% | 0.0% | 23 |
| Llanbadrig | Tai newydd | 38.5% | 0.0% | 7.7% | 7.7% | 46.2% | 0.0% | 0.0% | 13 |
| | Gwerthiannau | 32.0% | 8.0% | 0.0% | 0.0% | 52.0% | 0.0% | 8.0% | 25 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | Tai newydd | 83.3% | 16.7% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 6 |
| | Gwerthiannau | 63.9% | 16.7% | 2.8% | 2.8% | 11.1% | 0.0% | 2.8% | 36 |
| Porthyfelin | Tai newydd | 100.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 2 |
| | Gwerthiannau | 80.8% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 7.7% | 3.8% | 7.7% | 26 |

## 4.19 Os wnaethoch chi symud o ran arall o'r DU neu o'r tu allan i'r DU, a ydych chi erioed wedi byw yn Ynys Môn, yng Ngwynedd, neu rywle arall yng Nghymru?

4.19.1 Roedd ymatebwyr yn y categori hwn a symudodd i Wynedd ac i Fôn yr un mor dueddol o fod wedi byw yn y sir honno o'r blaen (21.8%). Roedd ymatebwyr yn y categori hwn yn fwy tueddol o fod wedi byw yng Nghymru o'r blaen os oeddent yn byw yn Ardal Cynllunio PCE (17.8%) yn hytrach nag yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (10.9%).

4.19.2 Nifer fechan iawn o breswylwyr tai fforddiadwy a oedd wedi symud o rywle arall yn y DU ond roedd y cwbl wedi byw yng Ngwynedd neu mewn rhan arall o Gymru o'r blaen. Roedd mwy o breswylwyr tai newydd wedi byw yng Ngwynedd o'r blaen (20.3%) nag ym Môn (8.7%), gyda phatrwm tebyg ar gyfer gwethiannau.

4.19.3 Roedd canran uchel o'r bobl yn y categori a symudodd i Hirael (45.5%) a Llanrug (44.4%) wedi byw yng Ngwynedd o'r blaen, tra bod 6.7% yn unig o'r rheiny a symudodd i Glynnog wedi byw yng Ngwynedd. Roedd 50.0% o'r ymatebwyr yn y categori a symudodd i Borthyfelin wedi byw ym Môn o'r blaen.

**Tabl 31: A ydych chi erioed wedi byw yn Ynys Môn, yng Ngwynedd, neu rywle arall yng Nghymru?**

| | Rhywle arall yn Ynys Môn | Rhywle arall yng Ngwynedd | Rhywle arall yng Nghymru | N = |
|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 11.3 | 16.2 | 12.0 | 284 |
| Gwynedd | 3.6 | 21.8 | 15.2 | 165 |
| Ynys Môn | 21.8 | 8.4 | 7.6 | 119 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 13.4 | 16.3 | 10.9 | 239 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 0.0 | 15.6 | 17.8 | 45 |
| | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 8.7 | 20.3 | 13.0 | 69 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 0.0 | 50.0 | 100.0 | 2 |
| Gwerthiannau | 7.0 | 19.3 | 12.3 | 57 |
| | | | | |
| Abersoch | 2.8 | 19.4 | 5.6 | 36 |
| Clynnog | 6.7 | 6.7 | 20.0 | 15 |
| De Dolgellau | 0.0 | 12.0 | 0.0 | 25 |
| Diffwys & Maenofferen | 5.9 | 11.8 | 35.3 | 17 |
| Hirael | 0.0 | 45.5 | 9.1 | 11 |
| Llanrug | 11.1 | 44.4 | 11.1 | 9 |
| | | | | |
| Cyngar | 23.1 | 7.7 | 23.1 | 13 |
| Llanbadrig | 20.0 | 2.2 | 6.7 | 45 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 10.0 | 15.0 | 10.0 | 20 |
| Porthyfelin | 50.0 | 7.1 | 0.0 | 14 |

*Noder: Ni fydd canrannau yn adio i 100 gan ei fod yn gwestiwn aml-ddewis*

### 4.20 Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol


4.20.1 Mae'r rhesymau'n gyson ar draws yr ardaloedd, gyda'r angen eiddo mwy (16.2%) a newid mewn statws teuluol (16.0%) yn rhesymau amlwg, yn ogystal â hoffter o'r ardal (16.9%). Roedd 13.7% yn awyddus i sefydlu cartref cyntaf. Y rhesymau lleiaf poblogaidd oedd bod yn agos at gyfleusterau cymunedol (5.4%) a chyfle i adeiladu cartref (5.8%). (Tabl 31)

4.20.2 Mae rhai amrywiadau yn achos PCE, gyda hoffter o'r ardal (23.3%) yn rheswm mwy cyffredin a'r gallu i sefydlu cartref cyntaf yn llai o ffactor (7.4%). Roedd newid swydd ac ymddeol yn ffactorau mwy amlwg yn Ardal Cynllunio PCE hefyd (12.2% yr un).


4.20.3 Roedd y cyfle i adeiladu tŷ yn ffactor amlwg yn achos tai newydd (16.9%). Doedd newid swydd nac ymddeol i'r ardal ddim yn rheswm cyffredin ymhlith rhai a symudodd i dai fforddiadwy (2.4% yr un). (Tabl 32)

4.20.4 Symudodd canran uchel i Glynnog oherwydd rhesymau gwaith (18.6%), a chanran isel i Ddiffwys a Maenofferen am yr un rheswm (3.2%). Roedd ymddeoliad yn rheswm cyffredin ar gyfer Abersoch (19.3%) a Llanbadrig (17.9%). Roedd yn gyffredin bod ymatebwyr yn Niffwys a Maenofferen (26.9%) a Llanrug (23.9%) yn chwilio am eiddo mwy; prin oedd y rhai a symudodd i Glynnog er mwyn cael eiddo llai (2.9%). Roedd cyfleusterau cymunedol bwysicaf yn Niffwys a Maenofferen (10.8%), a rhesymau teuluol uchaf yn Llanfihangel Ysgeifiog (22.6%). Roedd sefydlu cartref cyntaf yn rheswm blaenllaw yn Hirael (24.1%) ond yn isel yn Abersoch (3.6%). Roedd hoffter o'r ardal yn rheswm amlwg yn Abersoch (27.7%) a Chlynnog (25.7%), ond yn isel yn Hirael (8.4%). (Tabl 33)

**Ffigwr 7: Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol (Gwynedd)**




**Ffigwr 8: Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol (Môn)**



**Tabl 32: Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol**

| | Holl ardal astudiaeth | Gwynedd | Ynys Môn | Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | Ardal Cynllunio APCE |
|---|---|---|---|---|---|
| Newid swydd / symud yn agosach i'r swydd | 8.8 | 8.7 | 8.9 | 8.3 | 12.2 |
| Wedi ymddeol i'r ardal | 8.9 | 8.7 | 9.0 | 8.4 | 12.2 |
| Angen symud i eiddo mwy | 16.2 | 17.6 | 14.3 | 16.4 | 14.8 |
| Angen symud i eiddo llai | 8.3 | 8.0 | 8.6 | 8.3 | 7.9 |
| I fod yn agosach at gyfleusterau cymunedol | 5.4 | 6.0 | 4.6 | 5.3 | 5.8 |
| Newid mewn statws teuluol | 16.0 | 15.5 | 16.5 | 16.1 | 14.8 |
| Er mwyn bod yn agosach at deulu / ffrindiau | 11.0 | 9.7 | 12.5 | 11.0 | 10.6 |
| Sefydlu cartref cyntaf / 'Prynwyr tro cyntaf' | 13.7 | 13.7 | 13.6 | 14.5 | 7.4 |
| Cyfle i adeiladu ein cartref ein hunain | 5.8 | 5.0 | 6.7 | 5.8 | 5.8 |
| Hoffi'r ardal | 16.9 | 17.5 | 16.1 | 16.0 | 23.3 |
| Aralll | 18.7 | 19.1 | 18.2 | 19.1 | 16.4 |
| N = | 1,559 | 862 | 697 | 1,370 | 189 |

*Ni fydd canrannau yn adio i 100 gan fod y cwestiwn yn un aml-ddewis*

**Tabl 33: Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau)**

| | Tai Newydd (Caniatadau cynllunio) | Ag amodau tai fforddiadwy | Gwerthiannau |
|---|---|---|---|
| Newid swydd / symud yn agosach i'r swydd | 7.7 | 2.4 | 4.3 |
| Wedi ymddeol i'r ardal | 9.8 | 2.4 | 8.6 |
| Angen symud i eiddo mwy | 13.1 | 11.9 | 14.2 |
| Angen symud i eiddo llai | 8.3 | 7.1 | 14.7 |
| I fod yn agosach at gyfleusterau cymunedol | 5.6 | 2.4 | 7.3 |
| Newid mewn statws teuluol | 14.2 | 11.9 | 14.7 |
| Er mwyn bod yn agosach at deulu / ffrindiau | 11.9 | 14.3 | 15.1 |
| Sefydlu cartref cyntaf / 'Prynwyr tro cyntaf' | 14.5 | 16.7 | 15.5 |
| Cyfle i adeiladu ein cartref ein hunain | 16.9 | 9.5 | 1.7 |
| Hoffi'r ardal | 21.7 | 11.9 | 19.0 |
| Aralll | 24.0 | 2.4 | 19.0 |
| N = | 337 | 42 | 232 |

*Ni fydd canrannau yn adio i 100 gan fod y cwestiwn yn un aml-ddewis*

**Tabl 34: Rhesymau dros symud i'r eiddo presennol (fesul ward)**

| | Abersoch | Clynnog | De Dolgellau | Diffwys & Maenofferen | Hirael | Llanrug | Cyngar | Llanbadrig | Llanfihangel Ysgeifiog | Porthyfelin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Newid swydd / symud yn agosach i'r swydd | 8.4 | 18.6 | 13.6 | 3.2 | 4.8 | 7.5 | 11.5 | 9.8 | 6.2 | 7.7 |
| Wedi ymddeol i'r ardal | 19.3 | 10.0 | 10.0 | 7.5 | 3.6 | 5.2 | 5.7 | 17.9 | 11.0 | 6.9 |
| Angen symud i eiddo mwy | 7.2 | 15.7 | 15.5 | 26.9 | 12.0 | 23.9 | 15.9 | 11.6 | 10.3 | 16.2 |
| Angen symud i eiddo llai | 6.0 | 2.9 | 10.9 | 8.6 | 12.0 | 9.7 | 7.0 | 10.7 | 10.3 | 10.8 |
| I fod yn agosach at gyfleusterau cymunedol | 3.6 | 2.9 | 7.3 | 10.8 | 7.2 | 4.5 | 6.4 | 4.5 | 2.7 | 6.9 |
| Newid mewn statws teuluol | 4.8 | 21.4 | 11.8 | 11.8 | 14.5 | 17.2 | 16.6 | 17.9 | 22.6 | 11.5 |
| Er mwyn bod yn agosach at deulu / ffrindiau | 7.2 | 10.0 | 10.0 | 6.5 | 13.3 | 11.2 | 14.0 | 12.5 | 13.0 | 13.1 |
| Sefydlu cartref cyntaf / 'Prynwyr tro cyntaf' | 3.6 | 8.6 | 10.0 | 16.1 | 24.1 | 15.7 | 10.8 | 9.8 | 20.5 | 12.3 |
| Cyfle i adeiladu ein cartref ein hunain | 1.2 | 4.3 | 1.8 | 2.2 | 0.0 | 3.0 | 10.2 | 3.6 | 4.1 | 0.0 |
| Hoffi'r ardal | 27.7 | 25.7 | 20.9 | 11.8 | 8.4 | 9.7 | 9.6 | 21.4 | 13.0 | 18.5 |
| Aralll | 22.9 | 20.0 | 16.4 | 12.9 | 24.1 | 20.1 | 17.2 | 23.2 | 15.1 | 16.2 |
| N = | 83 | 70 | 110 | 93 | 83 | 134 | 157 | 112 | 146 | 130 |

*Ni fydd canrannau yn adio i 100 gan fod y cwestiwn yn un aml-ddewis*

## 4.21 Sut mae'r eiddo presennol yn cael ei ddefnyddio

4.21.1 Fel cartref parhaol y defnyddir y mwyafrif llethol o'r eiddo (91.0% drwy'r holl ardal), er bod bron i 5% yn dai gwyliau hefyd. Mae hyn yn gyson drwy'r ardaloedd, gyda'r ganran uchaf o dai gwyliau yng Ngwynedd (6.3%).

4.21.2 Mae tai newydd (7.7%) a gwerthiannau diweddar (9.9%) yn fwy tebygol o fod yn dai gwyliau.

4.21.3 Ymhlith y wardiau, mae canran eithriadol o uchel o dai gwyliau yn Abersoch (32.5%).

**Tabl 35: Sut mae'r eiddo presennol yn cael ei ddefnyddio**

| | Cartref parhaol | Tŷ gwyliau ar gyfer defnydd personol | Eiddo buddsoddi | At bwrpas gwaith | Llety myfyrwyr | Arall | Dim ateb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 91.0% | 4.9% | 0.6% | 0.3% | 0.3% | 0.6% | 2.3% |
| Gwynedd | 89.6% | 6.3% | 0.6% | 0.3% | 0.6% | 0.2% | 2.4% |
| Ynys Môn | 92.8% | 3.2% | 0.7% | 0.1% | 0.0% | 1.0% | 2.2% |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 90.9% | 4.8% | 0.7% | 0.2% | 0.4% | 0.6% | 2.4% |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 92.1% | 5.3% | 0.0% | 0.5% | 0.0% | 0.5% | 1.6% |
| | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 90.2% | 7.7% | 0.6% | 0.0% | 1.2% | 0.3% | |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 97.6% | 2.4% | | | | | |
| Gwerthiannau | 84.5% | 9.9% | 1.7% | 2.2% | 0.4% | 1.3% | |
| | | | | | | | |
| Abersoch | 57.8% | 32.5% | 2.4% | 1.2% | 0.0% | 0.0% | 6.0% |
| Clynnog | 87.1% | 8.6% | 1.4% | 1.4% | 0.0% | 0.0% | 1.4% |
| De Dolgellau | 92.7% | 3.6% | 0.0% | 0.9% | 0.0% | 0.9% | 1.8% |
| Diffwys & Maenofferen | 93.5% | 2.2% | 1.1% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 3.2% |
| Hirael | 92.8% | 1.2% | 0.0% | 0.0% | 6.0% | 0.0% | 0.0% |
| Llanrug | 97.8% | 0.0% | 0.7% | 0.0% | 0.0% | 0.7% | 0.7% |
| | | | | | | | |
| Cyngar | 95.5% | 0.0% | 0.6% | 0.0% | 0.0% | 1.3% | 2.5% |
| Llanbadrig | 90.2% | 7.1% | 2.7% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 95.2% | 1.4% | 0.0% | 0.7% | 0.0% | 0.7% | 2.1% |
| Porthyfelin | 96.2% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.8% | 3.1% |

## 4.22 Lleoliad cartref parhaol os nad yw'r eiddo presennol yn gartref parhaol

4.22.1 Mae ymatebwyr sy'n berchen ar gartrefi yn ardal yr astudiaeth ond ddim yn byw ynddynt yn fwyaf tebygol o fyw yng ngogledd-orllewin Lloegr (42.3%), gyda gorllewin canolbarth Lloegr yn ail (13.5%).

**Tabl 36: Lleoliad cartref parhaol os nad yw'r eiddo presennol yn gartref parhaol**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 6 | 5.8 |
| Gwynedd | 8 | 7.7 |
| Cymru | 6 | 5.8 |
| North West | 44 | 42.3 |
| West Midlands | 14 | 13.5 |
| Deyrnas Unedig | 12 | 11.5 |
| Arall | 2 | 1.9 |
| Dim ateb | 12 | 11.5 |
| | | N = 104 |


## 4.23 Prif iaith yn cael ei siarad yn yr eiddo

4.23.1 Yng Ngwynedd, nodwyd y Gymraeg (58.0%) fel prif iaith yn amlach na'r Saesneg (49.3%), ond nodwyd y Saesneg yn amlach ym Môn (56.4% o gymharu â 51.2% ar gyfer y Gymraeg). Nodwyd y Saesneg yn amlach na'r Gymraeg yn Ardal Cynllunio PCE hefyd (58.2% o gymharu â 51.3%).


4.23.2 Mewn cartrefi fforddiadwy, nodwyd y Gymraeg (59.5%) yn amlach na'r Saesneg (47.6%), ond roedd y patrwm yn groes ar gyfer tai newydd a gwerthiannau diweddar.

4.23.3 Ym Mhorthyfelin, nodwyd y Saesneg fel prif iaith gan 88.5% o'r ymatebwyr, a'r Gymraeg gan 23.1%. Yn Hirael, nodwyd y Saesneg fel prif iaith gan 85.5% o'r ymatebwyr a'r Gymraeg gan 27.7%. Yn yr un modd, yn Abersoch nodwyd y Saesneg fel prif iaith gan 81.9% o'r ymatebwyr a'r Gymraeg gan 19.3%. Roedd y gwrthwyneb yn wir yn Llanrug, lle nododd 88.8% o'r ymatebwyr y Gymraeg fel prif iaith, a 25.4% wedi nodi'r Saesneg. Roedd canrannau uchel ar gyfer y Gymraeg fel prif iaith yng Nghyngar (76.4%) a Diffwys a Maenofferen (71.0%).

**Ffigwr 9: Prif iaith yn cael ei siarad yn yr eiddo (Gwynedd)**



**Ffigwr 10: Prif iaith yn cael ei siarad yn yr eiddo (Môn)**




**Tabl 37: Prif iaith yn cael ei siarad yn yr eiddo**

| | Cymraeg | Saesneg | Arall | N = |
|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 55.0 | 52.5 | 0.6 | 1,559 |
| Gwynedd | 58.0 | 49.3 | 0.6 | 862 |
| Ynys Môn | 51.2 | 56.4 | 0.6 | 697 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 55.5 | 51.7 | 0.7 | 1,370 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 51.3 | 58.2 | 0.0 | 189 |
| | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 51.9 | 55.8 | 1.5 | 337 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 59.5 | 47.6 | 2.4 | 42 |
| Gwerthiannau | 44.4 | 62.5 | 0.4 | 232 |
| | | | | |
| Abersoch | 19.3 | 81.9 | 0.0 | 83 |
| Clynnog | 68.6 | 40.0 | 0.0 | 70 |
| De Dolgellau | 48.2 | 67.3 | 0.0 | 110 |
| Diffwys & Maenofferen | 71.0 | 35.5 | 1.1 | 93 |
| Hirael | 27.7 | 85.5 | 1.2 | 83 |
| Llanrug | 88.8 | 25.4 | 0.0 | 134 |
| | | | | |
| Cyngar | 76.4 | 34.4 | 0.6 | 157 |
| Llanbadrig | 34.8 | 73.2 | 0.0 | 112 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 67.1 | 39.7 | 0.7 | 146 |
| Porthyfelin | 23.1 | 88.5 | 0.0 | 130 |

*Noder: Ni fydd canrannau yn adio i 100 gan ei fod yn gwestiwn aml-ddewis*

**Tabl 38: Prif iaith yn cael ei siarad yn yr eiddo fesul tai newydd / gwerthiannau mewn wardiau**

| | | Cymraeg | Saesneg | Arall | N = |
|---|---|---|---|---|---|
| Abersoch | Tai newydd | 25.0 | 87.5 | 0.0 | 8 |
| | Gwerthiannau | 6.7 | 100.0 | 0.0 | 15 |
| Clynnog | Tai newydd | 100.0 | 0.0 | 0.0 | 5 |
| | Gwerthiannau | 41.7 | 66.7 | 0.0 | 12 |
| De Dolgellau | Tai newydd | 16.7 | 83.3 | 0.0 | 6 |
| | Gwerthiannau | 40.9 | 68.2 | 0.0 | 22 |
| Diffwys & Maenofferen | Tai newydd | - | - | - | 0 |
| | Gwerthiannau | 50.0 | 50.0 | 4.5 | 22 |
| Hirael | Tai newydd | 0.0 | 100.0 | 0.0 | 4 |
| | Gwerthiannau | 12.5 | 93.8 | 0.0 | 16 |
| Llanrug | Tai newydd | 100.0 | 0.0 | 0.0 | 2 |
| | Gwerthiannau | 94.3 | 17.1 | 0.0 | 35 |
| | | | | | |
| Cyngar | Tai newydd | 88.9 | 33.3 | 0.0 | 18 |
| | Gwerthiannau | 65.2 | 43.5 | 0.0 | 23 |
| Llanbadrig | Tai newydd | 30.8 | 84.6 | 0.0 | 13 |
| | Gwerthiannau | 16.0 | 84.0 | 0.0 | 25 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | Tai newydd | 100.0 | 33.3 | 0.0 | 6 |
| | Gwerthiannau | 55.6 | 55.6 | 0.0 | 36 |
| Porthyfelin | Tai newydd | 0.0 | 100.0 | 0.0 | 2 |
| | Gwerthiannau | 11.5 | 92.3 | 0.0 | 26 |

*Noder: Ni fydd canranau'n adio i 100 gan ei fod yn cwestiwn aml-ddewis*

## 4.24 Iaith hefyd yn cael ei siarad

4.24.1 Mae'r canrannau'n dangos bod dros 30% o gartrefi'n ddwyieithog i ryw raddau, gyda'r Gymraeg ychydig yn fwy tebygol o fod yn ail iaith na'r Saesneg yn gyffredinol.

4.24.2 Nododd cyfran uchel o gartrefi ym Mhorthyfelin (32.5%) a Hirael (26.5%) – lle dangosodd Tabl 36 mai Saesneg yw prif iaith y mwyafrif llethol o'r eiddo – fod y Gymraeg hefyd yn cael ei siarad yno. (Nid yw'r un peth yn wir yn Abersoch – 10.8% sydd hefyd yn siarad Cymraeg yno.) Mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir ar gyfer cymunedau lle mae mwyafrif mawr o gartrefi sy'n siarad Cymraeg yn bennaf – roedd 25.5% yn siarad Saesneg hefyd, a 20.9% yn Llanrug.

**Tabl 39: Iaith hefyd yn cael ei siarad**

| | Cymraeg | Saesneg | Arall | N = |
|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 15.9 | 15.1 | 2.4 | 1,559 |
| Gwynedd | 13.7 | 13.7 | 2.6 | 862 |
| Ynys Môn | 18.7 | 16.9 | 2.2 | 697 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 15.8 | 15.6 | 2.6 | 1,370 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 16.9 | 11.6 | 1.1 | 189 |
| | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 16.3 | 13.9 | 1.8 | 337 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 19.0 | 14.3 | 2.4 | 42 |
| Gwerthiannau | 19.8 | 13.4 | 4.7 | 232 |
| | | | | |
| Abersoch | 10.8 | 7.2 | 4.8 | 83 |
| Clynnog | 10.0 | 8.6 | 2.9 | 70 |
| De Dolgellau | 16.4 | 11.8 | 1.8 | 110 |
| Diffwys & Maenofferen | 9.7 | 18.3 | 4.3 | 93 |
| Hirael | 26.5 | 12.0 | 4.8 | 83 |
| Llanrug | 7.5 | 20.9 | 1.5 | 134 |
| | | | | |
| Cyngar | 12.1 | 25.5 | 0.0 | 157 |
| Llanbadrig | 15.2 | 12.5 | 4.5 | 112 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 18.5 | 19.2 | 2.7 | 146 |
| Porthyfelin | 32.3 | 9.2 | 3.1 | 130 |

## 4.25 Nifer y bobl yn yr aelwydydd a ymatebodd

4.25.1 Mae cydberthynas eithaf cyson o gyfartaledd o 218% rhwng y nifer a ymatebodd a chyfanswm y bobl sy'n byw ar yr aelwydydd. Yr unig wahaniaeth eithriadol yw tai fforddiadwy, lle mae cyfanswm nifer y preswylwyr yn 319% o'r nifer a ymatebodd. Y ffigwr isaf yw bod cyfanswm nifer y preswylwyr ym Mhorthyfelin yn 174% o'r nifer a ymatebodd.

**Tabl 40: Nifer o bobl yn yr aelwydydd a ymatebodd**

| | Nifer o bobl | % |
|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 3,404 | 100.0 |
| Gwynedd | 1,929 | 56.7 |
| Ynys Môn | 1,475 | 43.3 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 3,003 | 88.2 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 401 | 11.8 |
| | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 831 | 24.4 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 134 | 3.9 |
| Gwerthiannau | 493 | 14.5 |
| | | |
| Abersoch | 159 | 4.7 |
| Clynnog | 149 | 4.4 |
| De Dolgellau | 211 | 6.2 |
| Diffwys & Maenofferen | 179 | 5.3 |
| Hirael | 180 | 5.3 |
| Llanrug | 321 | 9.4 |
| | | |
| Cyngar | 364 | 10.7 |
| Llanbadrig | 209 | 6.1 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 307 | 9.0 |
| Porthyfelin | 226 | 6.6 |

## 4.26 Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?


4.26.1 Nodwyd bod y mwyafrif o’r bobl ar yr aelwydydd a ymatebodd â rhyw fath o allu yn y Gymraeg, gyda 18.7% yn unig dros yr holl ardal heb unrhyw allu yn yr iaith. Mae’r ganran y nodwyd eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar (69.6%) ychydig yn is na’r ganran y nodwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg (69.8%). Mae bwlch rhwng meysydd llafaredd a llythrennedd: y ganran ar gyfer ysgrifennu Cymraeg (56.8%) oedd isaf, gyda’r ganran y nodwyd eu bod yn gallu darllen Cymraeg ychydig yn uwch (60.8%).

4.26.2 Er bod y canrannau ar gyfer Gwynedd yn gryfach nag ar gyfer Môn ymhob achos, ychydig iawn o wahaniaeth oedd yn y canlyniadau rhwng ardaloedd cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri a Gwynedd a Môn.


4.26.3 Roedd y canlyniadau ar gyfer tai newydd yn cyd-fynd â’r patrwm cyffredinol, ond roedd preswylwyr tai fforddiadwy’n fwy tueddol o fod â sgiliau Cymraeg, tra bod preswylwyr tai a werthwyd yn y 5 mlynedd ddiwethaf â llai o sgiliau Cymraeg. Ar gyfer tai newydd a gwerthiannau, roedd y ganran y nodwyd eu bod yn deall Cymraeg llafar yn uwch na’r ganran oedd yn siarad Cymraeg.

4.26.4 Roedd y ganran heb unrhyw sgiliau ar ei isaf yn Llanrug (3.7%) ac ar ei uchaf yn Abersoch (45.3%). Yn groes i’r patrwm cyffredinol, tra bod nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhorthyfelin yn isel (44.7%), roedd 58.4% yno’n deall Cymraeg llafar, gyda phatrwm tebyg yn Hirael (46.7% yn siarad Cymraeg ond 57.8% yn deall Cymraeg llafar).

**Ffigwr 11: Gallu i siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (Gwynedd)**



**Ffigwr 12: Gallu i siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (Môn)**




**Tabl 41: Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**

| | Siarad Cymraeg | Deall Cymraeg llafar | Darllen Cymraeg | Ysgrifennu Cymraeg | Dim un o'r uchod | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 69.8% | 69.6% | 60.8% | 56.8% | 18.7% | 3,404 |
| Gwynedd | 71.5% | 70.3% | 62.4% | 59.1% | 17.5% | 1,929 |
| Ynys Môn | 67.5% | 68.6% | 58.8% | 53.8% | 20.4% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 69.8% | 69.6% | 60.8% | 56.9% | 19.0% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 69.6% | 69.3% | 61.3% | 55.9% | 17.0% | 401 |
| | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 68.0% | 68.6% | 59.7% | 55.6% | 20.6% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 74.6% | 76.9% | 61.9% | 59.0% | 10.4% | 134 |
| Gwerthiannau | 58.6% | 63.9% | 50.9% | 46.5% | 27.4% | 493 |
| | | | | | | |
| Abersoch | 35.2% | 32.1% | 25.8% | 22.0% | 45.3% | 159 |
| Clynnog | 76.5% | 73.8% | 70.5% | 66.4% | 14.1% | 149 |
| De Dolgellau | 66.8% | 64.9% | 56.9% | 48.8% | 18.0% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 72.6% | 65.4% | 60.9% | 58.1% | 19.0% | 179 |
| Hirael | 46.7% | 57.8% | 34.4% | 33.3% | 35.6% | 180 |
| Llanrug | 92.2% | 88.5% | 84.1% | 81.6% | 3.7% | 321 |
| | | | | | | |
| Cyngar | 83.0% | 82.7% | 72.8% | 67.9% | 9.9% | 364 |
| Llanbadrig | 44.5% | 46.9% | 40.7% | 38.8% | 40.7% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 80.5% | 80.1% | 69.1% | 65.5% | 10.4% | 307 |
| Porthyfelin | 44.7% | 58.4% | 36.7% | 29.6% | 31.9% | 226 |

## 4.27 Gallu i siarad Cymraeg

4.27.1 Nodwyd bod mwyafrif y preswylwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl (57.2% dros yr holl ardal). Tra bod 15.1% yn methu siarad Cymraeg o gwbl, nodwyd bod lleiafrif arwyddocaol yn medru siarad ychydig o Gymraeg (10.8%); y meysydd lleiaf poblogaidd oedd gallu siarad Cymraeg yn dda (6.2%) neu'n weddol (6.9%).


4.27.2 Nodwyd bod mwy o bobl yn rhugl yn y Gymraeg yng Ngwynedd (60.9%) nag ym Môn (52.4%), ond roedd y canrannau ar gyfer y meysydd llai rhugl yn uwch ym Môn. Roedd y canrannau ar gyfer y ddwy ardal cynllunio'n cyd-fynd a'r patrwm cyffredinol ac yn debyg i'w gilydd.

4.27.3 Tra bod preswylwyr tai newydd yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol, roedd mwy o breswylwyr tai fforddiadwy'n gallu siarad Cymraeg, gyda 11.2% heb unrhyw sgiliau. Roedd y gwrthwyneb yn wir am werthiannau diweddar, gyda 20.5% o'r preswylwyr yn methu siarad Cymraeg o gwbl.


4.27.4 Roedd y ganran o bobl a allai siarad Cymraeg naill ai'n rhugl neu'n dda ar ei uchaf yn Llanrug (90.3%), tra bod canrannau uchel yn gallu siarad Cymraeg yn weddol neu ychydig ym Mhorthyfelin (33.6%) a Hirael (31.1%). Roedd y ganran na allai siarad Cymraeg o gwbl ar ei uchaf yn Abersoch (40.9%). Mae'r ganran sy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg a'r ganran nad yw'n gallu siarad Cymraeg ar eu huchaf pan fo'r lefel sy'n rhugl ar ei hisaf. (Tabl 40)

4.27.5 Pan nad yw'r Gymraeg yn brif iaith y cartref, 4.2% o blant 0-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dda, ond mae hyn yn codi i 58.5% ar gyfer plant 5-15 oed. Mewn cartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith, mae 56.8% o blant 0-4 oed yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dda, a 95.1% o blant 5-15 oed â'r un gallu. (Tabl 41)

**Ffigwr 13: Gallu i siarad Cymraeg (Gwynedd)**




**Ffigwr 14: Gallu i siarad Cymraeg (Môn)**



**Tabl 42: Gallu i siarad Cymraeg**

| | Rhugl - Yn gallu siarad Cymraeg efo pawb yn hyderus | Da – Yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn rhai sefyllfaoedd | Gweddol – Yn gallu siarad ychydig o Gymraeg, ond angen codi hyder | Ychydig – Yn gallu cyfarch a dweud rhai brawddegau syml yn Gymraeg | Dim – Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 57.2% | 6.2% | 6.9% | 10.8% | 15.1% | 3.9% | 3,404 |
| Gwynedd | 60.9% | 5.1% | 6.2% | 10.0% | 14.2% | 3.7% | 1,929 |
| Ynys Môn | 52.4% | 7.6% | 7.8% | 11.9% | 16.3% | 4.1% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 57.1% | 6.1% | 7.1% | 10.8% | 15.2% | 3.8% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 57.6% | 7.2% | 5.5% | 10.7% | 14.2% | 4.7% | 401 |
| | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 55.2% | 4.9% | 7.5% | 11.4% | 17.7% | 3.2% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 59.0% | 5.2% | 9.0% | 12.7% | 11.2% | 3.0% | 134 |
| Gwerthiannau | 46.5% | 4.7% | 9.7% | 15.2% | 20.5% | 3.4% | 493 |
| | | | | | | | |
| Abersoch | 27.0% | 3.8% | 2.5% | 17.0% | 40.9% | 8.8% | 159 |
| Clynnog | 67.1% | 5.4% | 6.0% | 7.4% | 10.1% | 4.0% | 149 |
| De Dolgellau | 48.8% | 10.9% | 7.6% | 11.8% | 15.6% | 5.2% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 67.0% | 3.9% | 2.8% | 8.9% | 13.4% | 3.9% | 179 |
| Hirael | 25.6% | 11.1% | 13.9% | 17.2% | 30.0% | 2.2% | 180 |
| Llanrug | 87.9% | 2.5% | 2.8% | 3.1% | 2.8% | .9% | 321 |
| | | | | | | | |
| Cyngar | 70.1% | 5.5% | 4.7% | 7.7% | 6.6% | 5.5% | 364 |
| Llanbadrig | 32.5% | 4.3% | 5.7% | 21.5% | 31.1% | 4.8% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 67.4% | 5.9% | 10.1% | 6.5% | 7.2% | 2.9% | 307 |
| Porthyfelin | 21.7% | 15.0% | 11.9% | 21.7% | 27.4% | 2.2% | 226 |

**Tabl 43: Gallu i siarad Cymraeg ar sail oedran a phrif iaith y cartref (holl ardal)**

| | | Rhugl - Yn gallu siarad Cymraeg efo pawb yn hyderus | Da – Yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn rhai sefyllfaoedd | Gweddol – Yn gallu siarad ychydig o Gymraeg, ond angen codi hyder | Ychydig – Yn gallu cyfarch a dweud rhai brawddegau syml yn Gymraeg | Dim – Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cartrefi a'r Gymraeg yn brif iaith | 0-2 | 36.1% | 1.2% | 0.0% | 10.8% | 10.8% | 41.0% | 83 |
| | 3-4 | 71.4% | 9.5% | 3.2% | 9.5% | 0.0% | 6.3% | 63 |
| | 5-9 | 94.7% | 3.5% | 1.8% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 113 |
| | 10-14 | 95.1% | 3.9% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 1.0% | 102 |
| | 15 | 96.0% | 4.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 25 |
| | Pob oedran | 85.9% | 4.7% | 2.0% | 2.9% | 1.3% | 3.1% | 1,938 |
| | N = | 1,665 | 92 | 39 | 57 | 25 | 60 | |
| Cartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith | 0-2 | 0.0% | 3.4% | 0.0% | 6.9% | 65.5% | 24.1% | 29 |
| | 3-4 | 0.0% | 5.6% | 22.2% | 50.0% | 16.7% | 5.6% | 18 |
| | 5-9 | 37.3% | 13.6% | 22.0% | 16.9% | 10.2% | 0.0% | 59 |
| | 10-14 | 46.7% | 28.9% | 6.7% | 6.7% | 11.1% | 0.0% | 45 |
| | 15 | 25.0% | 25.0% | 37.5% | 12.5% | 0.0% | 0.0% | 8 |
| | Pob oedran | 18.0% | 9.4% | 15.7% | 24.2% | 30.5% | 2.3% | 1,195 |
| | N = | 215 | 112 | 188 | 289 | 364 | 27 | |
| Holl gartrefi | 0-2 | 26.8% | 1.8% | 0.0% | 9.8% | 25.0% | 36.6% | 112 |
| | 3-4 | 55.6% | 8.6% | 7.4% | 18.5% | 3.7% | 6.2% | 81 |
| | 5-9 | 75.0% | 7.0% | 8.7% | 5.8% | 3.5% | 0.0% | 172 |
| | 10-14 | 80.3% | 11.6% | 2.0% | 2.0% | 3.4% | 0.7% | 147 |
| | 15 | 78.8% | 9.1% | 9.1% | 3.0% | 0.0% | 0.0% | 33 |
| | Pob oedran | 60.0% | 6.5% | 7.2% | 11.0% | 12.3% | 2.9% | 3,154 |
| | N = | 1,893 | 205 | 227 | 347 | 389 | 93 | |

**Tabl 44: Gallu i siarad Cymraeg ar sail oedran a phrif iaith y cartref (Gwynedd)**

| | | Rhugl - Yn gallu siarad Cymraeg efo pawb yn hyderus | Da – Yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn rhai sefyllfaoedd | Gweddol – Yn gallu siarad ychydig o Gymraeg, ond angen codi hyder | Ychydig – Yn gallu cyfarch a dweud rhai brawddegau syml yn Gymraeg | Dim – Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cartrefi a'r Gymraeg yn brif iaith | 0-2 | 36.7% | 2.0% | 0.0% | 10.2% | 12.2% | 38.8% | 49 |
| | 3-4 | 73.2% | 9.8% | 0.0% | 9.8% | 0.0% | 7.3% | 41 |
| | 5-9 | 94.9% | 3.8% | 1.3% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 78 |
| | 10-14 | 98.6% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 1.4% | 69 |
| | 15 | 100.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 15 |
| | Pob oedran | 88.6% | 3.8% | 1.5% | 2.2% | 1.2% | 2.7% | 1160 |
| | N = | 1028 | 44 | 17 | 26 | 14 | 31 | |
| Cartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith | 0-2 | 0.0% | 6.3% | 0.0% | 0.0% | 68.8% | 25.0% | 16 |
| | 3-4 | 0.0% | 16.7% | 16.7% | 50.0% | 16.7% | 0.0% | 6 |
| | 5-9 | 54.8% | 6.5% | 16.1% | 16.1% | 6.5% | 0.0% | 31 |
| | 10-14 | 50.0% | 31.8% | 9.1% | 9.1% | 0.0% | 0.0% | 22 |
| | 15 | 33.3% | 16.7% | 33.3% | 16.7% | 0.0% | 0.0% | 6 |
| | Pob oedran | 18.7% | 8.1% | 15.7% | 25.2% | 30.5% | 1.8% | 604 |
| | N = | 113 | 49 | 95 | 152 | 184 | 11 | |
| Holl gartrefi | 0-2 | 27.7% | 3.1% | 0.0% | 7.7% | 26.2% | 35.4% | 65 |
| | 3-4 | 63.8% | 10.6% | 2.1% | 14.9% | 2.1% | 6.4% | 47 |
| | 5-9 | 83.5% | 4.6% | 5.5% | 4.6% | 1.8% | 0.0% | 109 |
| | 10-14 | 86.8% | 7.7% | 2.2% | 2.2% | 0.0% | 1.1% | 91 |
| | 15 | 81.0% | 4.8% | 9.5% | 4.8% | 0.0% | 0.0% | 21 |
| | Pob oedran | 64.6% | 5.3% | 6.3% | 10.0% | 11.1% | 2.6% | 1776 |
| | N = | 1148 | 94 | 112 | 178 | 198 | 46 | |

**Tabl 45: Gallu i siarad Cymraeg ar sail oedran a phrif iaith y cartref (Ynys Môn)**

| | | Rhugl - Yn gallu siarad Cymraeg efo pawb yn hyderus | Da – Yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn rhai sefyllfaoedd | Gweddol – Yn gallu siarad ychydig o Gymraeg, ond angen codi hyder | Ychydig – Yn gallu cyfarch a dweud rhai brawddegau syml yn Gymraeg | Dim – Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cartrefi a'r Gymraeg yn brif iaith | 0-2 | 35.3% | 0.0% | 0.0% | 11.8% | 8.8% | 44.1% | 34 |
| | 3-4 | 68.2% | 9.1% | 9.1% | 9.1% | 0.0% | 4.5% | 22 |
| | 5-9 | 94.3% | 2.9% | 2.9% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 35 |
| | 10-14 | 87.9% | 12.1% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 33 |
| | 15 | 90.0% | 10.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 10 |
| | Pob oedran | 81.9% | 6.2% | 2.8% | 4.0% | 1.4% | 3.7% | 778 |
| | N = | 637 | 48 | 22 | 31 | 11 | 29 | |
| Cartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith | 0-2 | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 15.4% | 61.5% | 23.1% | 13 |
| | 3-4 | 0.0% | 0.0% | 25.0% | 50.0% | 16.7% | 8.3% | 12 |
| | 5-9 | 17.9% | 21.4% | 28.6% | 17.9% | 14.3% | 0.0% | 28 |
| | 10-14 | 43.5% | 26.1% | 4.3% | 4.3% | 21.7% | 0.0% | 23 |
| | 15 | 0.0% | 50.0% | 50.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 2 |
| | Pob oedran | 17.3% | 10.7% | 15.7% | 23.2% | 30.5% | 2.7% | 591 |
| | N = | 102 | 63 | 93 | 137 | 180 | 16 | |
| Holl gartrefi | 0-2 | 25.5% | 0.0% | 0.0% | 12.8% | 23.4% | 38.3% | 47 |
| | 3-4 | 44.1% | 5.9% | 14.7% | 23.5% | 5.9% | 5.9% | 34 |
| | 5-9 | 60.3% | 11.1% | 14.3% | 7.9% | 6.3% | 0.0% | 63 |
| | 10-14 | 69.6% | 17.9% | 1.8% | 1.8% | 8.9% | 0.0% | 56 |
| | 15 | 75.0% | 16.7% | 8.3% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 12 |
| | Pob oedran | 54.1% | 8.1% | 8.3% | 12.3% | 13.9% | 3.4% | 1378 |
| | N = | 745 | 111 | 115 | 169 | 191 | 47 | |

### 4.28 Gallu i ddarllen yn Gymraeg

4.28.1 Dros yr holl ardal, roedd 20.4% yn methu darllen Cymraeg, ac o blith y gweddill nodwyd y gallai 40.8% ddarllen Cymraeg yn dda iawn, 16.5% yn dda a chyfanswm o 16.5% y gallent ddarllen Cymraeg yn weddol neu ychydig. Roedd y ganran a allai ddarllen Cymraeg yn dda iawn yn uwch yng Ngwynedd (43.5%) nag ym Môn (37.3%), a'r ganran na allai ddarllen Cymraeg o gwbl yn is. Roedd mwy'n methu darllen Cymraeg o gwbl yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (20.8%) nag yn Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri (17.5%), ond at ei gilydd roedd y patrwm yn y ddwy ardal yn cyd-fynd â'i gilydd ac â'r cyfartaledd dros yr ardal gyfan.

4.28.2 Er bod canran is o breswylwyr tai fforddiadwy'n gallu darllen Cymraeg yn dda iawn (38.1%) na thai newydd (39.1%), roedd canran uwch o breswylwyr tai newydd yn methu darllen Cymraeg o gwbl (24.3% o gymharu â 17.2% ar gyfer tai fforddiadwy). Roedd canran uchel o breswylwyr tai a werthwyd yn ddiweddar naill ai'n gallu darllen ychydig o Gymraeg yn unig (15.2%) neu ddim Cymraeg o gwbl (26.6%).

4.28.3 Er mai ym Mhorthyfelin y gallai'r ganran isaf ddarllen Cymraeg yn dda iawn (11.1%), roedd sawl ward arall â mwy o bobl yn methu darllen Cymraeg o gwbl. Yn Llanrug, gallai 83.8% o breswylwyr ddarllen Cymraeg naill ai'n dda iawn neu'n dda. Ni allai 50.3% o drigolion Abersoch ddarllen Cymraeg o gwbl.

**Tabl 46: Gallu i ddarllen yn Gymraeg**

| | Da iawn - Yn gallu darllen gwybodaeth neu lenyddiaeth gymhleth | Da – Yn gallu darllen Cymraeg, ond yn teimlo'n llai hyderus wrth ddarllen rhai dogfennau | Gweddol - Yn gallu darllen ychydig o Gymraeg, ond ddim yn hyderus iawn | Ychydig – Yn gallu darllen brawddegau syml yn Gymraeg | Dim – Ddim yn gallu darllen yn Gymraeg | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 40.8% | 16.5% | 7.4% | 9.1% | 20.4% | 5.8% | 3,404 |
| Gwynedd | 43.5% | 16.0% | 7.3% | 8.3% | 19.0% | 5.9% | 1,929 |
| Ynys Môn | 37.3% | 17.0% | 7.5% | 10.2% | 22.2% | 5.8% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 40.9% | 16.3% | 7.3% | 9.2% | 20.8% | 5.6% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 40.4% | 17.7% | 8.2% | 8.7% | 17.5% | 7.5% | 401 |
| | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 39.1% | 14.2% | 7.3% | 8.5% | 24.3% | 6.5% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 38.1% | 15.7% | 10.4% | 9.0% | 17.2% | 9.7% | 134 |
| Gwerthiannau | 32.0% | 12.6% | 7.5% | 15.2% | 26.6% | 6.1% | 493 |
| | | | | | | | |
| Abersoch | 15.1% | 8.2% | 5.0% | 11.9% | 50.3% | 9.4% | 159 |
| Clynnog | 56.4% | 13.4% | 7.4% | 4.7% | 14.1% | 4.0% | 149 |
| De Dolgellau | 29.9% | 24.2% | 9.5% | 10.9% | 18.0% | 7.6% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 40.8% | 20.1% | 5.6% | 9.5% | 19.0% | 5.0% | 179 |
| Hirael | 17.2% | 13.3% | 15.0% | 17.8% | 33.9% | 2.8% | 180 |
| Llanrug | 64.2% | 19.6% | 4.4% | 2.8% | 4.7% | 4.4% | 321 |
| | | | | | | | |
| Cyngar | 51.6% | 17.0% | 3.8% | 7.4% | 11.8% | 8.2% | 364 |
| Llanbadrig | 20.6% | 14.8% | 5.3% | 10.5% | 43.5% | 5.3% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 50.2% | 18.6% | 6.5% | 9.4% | 12.1% | 3.3% | 307 |
| Porthyfelin | 11.1% | 18.1% | 16.8% | 18.6% | 31.4% | 4.0% | 226 |

### 4.29 Gallu i ysgrifennu yn Gymraeg

4.29.1 Gyda 25.1% dros yr holl ardal yn methu ysgrifennu yn Gymraeg o gwbl, mae 37.5% yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg yn dda iawn, 14.3% yn dda, 7.0% yn weddol a 10.5% ychydig. Er bod y ganran a allai ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn yn sylweddol is ym Môn (32.9%) nag yng Ngwynedd (41.0%), mae'r ganran ar gyfer y meysydd llai hyderus yn uwch. O edrych ar yr ardaloedd cynllunio, mae canran uwch yn methu ysgrifennu yn Gymraeg yng Ngwynedd a Môn (25.5%) nag ym Mharc Cenedlaethol Eryri (22.2%) a hynny er bod canran uwch yn gallu ysgrifennu'n dda iawn yng Ngwynedd a Môn (37.5%) nag ym Mharc Cenedlaethol Eryri (36.9%).

4.29.2 Mae'r canrannau ar gyfer tai fforddiadwy'n well nag ar gyfer tai newydd yn gyffredinol, gyda 51.5% o breswylwyr tai fforddiadwy'n gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn neu'n dda o gymharu â 48.5% ar gyfer tai newydd, a 22.4% o breswylwyr tai fforddiadwy yn methu ysgrifennu Cymraeg o gymharu â 28.9% ar gyfer tai newydd. Mae'r ganran o breswylwyr tai wedi'u gwerthu'n ddiweddar sy'n methu ysgrifennu yn Gymraeg yn uchel (33.1%).

4.29.3 Roedd 78.5% o drigolion Llanrug yn gallu ysgrifennu Cymraeg naill ai'n dda iawn neu'n dda. Roedd y ganran isaf o allu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn ym Mhorthyfelin (8.8%), ond yno y gwelwyd y ganran uchaf o bobl yn gallu ysgrifennu naill ai'n weddol neu ychydig (32.7%). Mae'r ganran uchaf o breswylwyr yn methu ysgrifennu yn Gymraeg yn Abersoch (57.9%).

**Tabl 47: Gallu i ysgrifennu yn Gymraeg**

| | Da iawn – Yn gallu 'sgwennu yn Gymraeg yn gywir yn ffurfiol ac yn anffurfiol | Da – Yn gallu 'sgwennu yn Gymraeg, ond yn teimlo'n llai sicr wrth 'sgwennu rhai dogfennau | Gweddol – Yn gallu 'sgwennu ychydig o Gymraeg, ond bydd angen i rywun arall sicrhau ei fod yn gywir | Ychydig – Yn gallu 'sgwennu rhai brawddegau syml yn Gymraeg | Dim – Ddim yn gallu 'sgwennu yn Gymraeg | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 37.5% | 14.3% | 7.0% | 10.5% | 25.1% | 5.6% | 3,404 |
| Gwynedd | 41.0% | 14.3% | 6.4% | 9.7% | 23.0% | 5.7% | 1,929 |
| Ynys Môn | 32.9% | 14.4% | 7.7% | 11.7% | 27.8% | 5.6% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 37.5% | 14.1% | 6.8% | 10.7% | 25.5% | 5.5% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 36.9% | 16.5% | 8.0% | 9.7% | 22.2% | 6.7% | 401 |
| | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 35.4% | 13.1% | 6.3% | 9.9% | 28.9% | 6.5% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 37.3% | 14.2% | 6.0% | 11.2% | 22.4% | 9.0% | 134 |
| Gwerthiannau | 29.6% | 11.0% | 5.5% | 15.8% | 33.1% | 5.1% | 493 |
| | | | | | | | |
| Abersoch | 11.9% | 8.2% | 5.7% | 8.2% | 57.9% | 8.2% | 159 |
| Clynnog | 52.3% | 15.4% | 3.4% | 9.4% | 15.4% | 4.0% | 149 |
| De Dolgellau | 27.0% | 19.0% | 10.4% | 11.8% | 25.1% | 6.6% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 43.0% | 13.4% | 6.1% | 8.9% | 23.5% | 5.0% | 179 |
| Hirael | 12.2% | 11.1% | 10.6% | 18.9% | 45.0% | 2.2% | 180 |
| Llanrug | 60.4% | 18.1% | 6.2% | 4.7% | 5.9% | 4.7% | 321 |
| | | | | | | | |
| Cyngar | 45.1% | 20.3% | 4.4% | 6.9% | 16.2% | 7.1% | 364 |
| Llanbadrig | 21.1% | 9.1% | 8.6% | 9.6% | 47.8% | 3.8% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 43.0% | 17.6% | 6.5% | 13.4% | 16.0% | 3.6% | 307 |
| Porthyfelin | 8.8% | 10.6% | 10.6% | 22.1% | 43.8% | 4.0% | 226 |


## 4.30 Pa mor bwysig yw'r Gymraeg i chi?

4.30.1 Roedd y canlyniadau'n dilyn yr un patrwm ar draws y gwahanol ardaloedd, gyda'r mwyafrif yn datgan bod yr iaith yn bwysig iawn (60.3% ar draws yr holl ardal), niferoedd eithaf tebyg yn ei gweld yn eithaf pwysig (14.8%) neu ddim yn teimlo'r un ffordd na'r llall (13.6%), bron neb yn ei gweld yn eithaf dibwys (1.8%) ac ychydig yn fwy yn ei gweld yn hollol ddibwys (4.2%). Roedd teimladau'n gryfach yng Ngwynedd (77.0% yn teimlo bod y Gymraeg yn eithaf pwysig neu'n bwysig iawn) nag ym Môn (72.7% yn teimlo'r un fath).


4.30.2 Tra bod preswylwyr tai newydd yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol, roedd preswylwyr tai fforddiadwy'n fwy tueddol o ystyried y Gymraeg yn bwysig (gyda 79.9% yn ei gweld yn eithaf pwysig neu'n bwysig iawn, a dim ond 5.2% ddim yn teimlo'r un ffordd na'r llall). Roedd y patrwm ar gyfer gwerthiannau diweddar yn groes i hynny (68.2% yn gweld yr iaith yn eithaf pwysig neu'n bwysig iawn, a 18.1% yn niwtral).

4.30.3 Roedd y ganran uchaf yn teimlo bod yr iaith yn eithaf pwysig neu'n bwysig iawn yn Llanrug (92.5%), a'r isaf yn Abersoch (49.1%). Roedd y canrannau uchaf yn teimlo bod yr iaith yn hollol ddibwys yn Abersoch (10.1%), Hirael (10.0%) a Phorthyfelin (9.3%), tra bod y lefel uchaf o ddifaterwch yn Llanbadrig (32.1%).

**Ffigwr 15: Pwysigrwydd y Gymraeg i'r ymatebwyr (Gwynedd)**



**Ffigwr 16: Pwysigrwydd y Gymraeg i'r ymatebwyr (Môn)**




**Tabl 48: Pa mor bwysig yw'r Gymraeg i chi?**

| | Pwysig iawn | Eithaf pwysig | Ddim yn teimlo'r un ffordd na'r llall | Eithaf dibwys | Hollol ddibwys | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 60.3% | 14.8% | 13.6% | 1.8% | 4.2% | 5.3% | 3,404 |
| Gwynedd | 62.5% | 14.6% | 12.0% | 1.6% | 3.5% | 5.9% | 1,929 |
| Ynys Môn | 57.6% | 15.1% | 15.7% | 2.0% | 5.0% | 4.7% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 60.4% | 14.4% | 13.8% | 1.9% | 4.3% | 5.3% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 59.9% | 17.7% | 12.2% | 0.7% | 3.5% | 6.0% | 401 |
| | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 59.7% | 15.0% | 13.0% | 2.2% | 4.2% | 5.9% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 63.4% | 16.4% | 5.2% | 3.7% | 1.5% | 9.7% | 134 |
| Gwerthiannau | 51.5% | 16.6% | 18.1% | 1.6% | 5.1% | 7.1% | 493 |
| | | | | | | | |
| Abersoch | 28.3% | 20.8% | 25.8% | 4.4% | 10.1% | 10.7% | 159 |
| Clynnog | 73.8% | 12.1% | 6.0% | 0.7% | 2.7% | 4.7% | 149 |
| De Dolgellau | 50.2% | 24.2% | 16.1% | 0.0% | 3.8% | 5.7% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 68.2% | 8.9% | 16.2% | 0.6% | 1.1% | 5.0% | 179 |
| Hirael | 30.0% | 29.4% | 20.0% | 4.4% | 10.0% | 6.1% | 180 |
| Llanrug | 84.7% | 7.8% | 2.2% | 0.0% | 0.3% | 5.0% | 321 |
| | | | | | | | |
| Cyngar | 74.2% | 8.2% | 10.2% | 1.4% | 1.6% | 4.4% | 364 |
| Llanbadrig | 39.2% | 14.4% | 32.1% | 3.3% | 5.3% | 5.7% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 68.7% | 13.7% | 10.4% | 0.7% | 2.9% | 3.6% | 307 |
| Porthyfelin | 40.7% | 24.3% | 18.1% | 4.0% | 9.3% | 3.5% | 226 |

## 4.31 Hunaniaeth genedlaethol

4.31.1 Hunaniaeth Gymreig sydd gan y mwyafrif drwy ardal yr astudiaeth (62.1%), gyda 10.1% pellach yn ystyried eu hunain yn Brydeinig yn ogystal â Chymreig. Roedd 12.4% yn Brydeinig, 6.0% yn Seisnig a 4.1% yn Seisnig-a-Phrydeinig. Roedd y ganran o bobl Gymreig a Chymreig-a-Phrydeinig yn debyg rhwng Gwynedd a Môn, gydag ychydig yn fwy o bobl Seisnig neu Seisnig-a-Phrydeinig ym Môn (11.9%) nag yng Ngwynedd (8.8%), a mwy o bobl Brydeinig yng Ngwynedd (13.6%) nag ym Môn (10.8%). Roedd y dosbarthiad yn y ddwy ardal cynllunio'n weddol debyg i'w gilydd.

4.31.2 Roedd y ganran o breswylwyr tai fforddiadwy a oedd yn Gymreig neu Gymreig-a-Phrydeinig yn uchel (79.9% o gymharu 70.9% ar gyfer tai newydd yn gyffredinol) a'r ganran Seisnig neu Seisnig-a-Phrydeinig yn isel iawn (3.7% o gymharu â 10.5% ar gyfer tai newydd). Ymhlith preswylwyr tai a werthwyd yn ddiweddar, roedd canran isel yn Gymreig neu'n Gymreig-a-Phrydeinig (59.6%), a chanran uchel yn Brydeinig (19.5%).

4.31.3 Roedd y ganran o bobl Gymreig a Chymreig-a-Phrydeinig ar ei uchaf yn Llanrug (91.3%) ac ar ei isaf yn Abersoch (36.5%). Roedd y ganran o bobl Seisnig a Seisnig-a-Phrydeinig ar ei uchaf yn Llanbadrig (29.2%), a'r ganran o bobl Brydeinig ar ei uchaf yn Abersoch (34.0%).

**Tabl 49: Hunaniaith genedlaethol**

| | Cymraeg | Saesneg | Cymraeg a Phrydeinig | Saesneg a Phrydeinig | Prydeinig | Arall | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 62.1% | 6.0% | 10.1% | 4.1% | 12.4% | 2.3% | 3.0% | 3,404 |
| Gwynedd | 64.0% | 5.5% | 8.1% | 3.2% | 13.6% | 2.3% | 3.2% | 1,929 |
| Ynys Môn | 59.5% | 6.6% | 12.7% | 5.2% | 10.8% | 2.3% | 2.8% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 61.7% | 5.8% | 10.7% | 4.3% | 12.2% | 2.4% | 3.0% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 64.6% | 7.7% | 6.2% | 2.7% | 13.7% | 1.7% | 3.2% | 401 |
| | | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 59.2% | 7.1% | 11.7% | 3.4% | 12.9% | 3.1% | 2.6% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 70.1% | 2.2% | 9.7% | 1.5% | 10.4% | 3.7% | 2.2% | 134 |
| Gwerthiannau | 51.7% | 8.9% | 7.9% | 5.7% | 19.5% | 2.0% | 4.3% | 493 |
| | | | | | | | | |
| Abersoch | 24.5% | 10.7% | 11.9% | 10.7% | 34.0% | .6% | 7.5% | 159 |
| Clynnog | 65.8% | 5.4% | 10.7% | 2.7% | 10.7% | .7% | 4.0% | 149 |
| De Dolgellau | 60.7% | 8.5% | 6.6% | 3.8% | 16.1% | 1.4% | 2.8% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 64.2% | 9.5% | 6.1% | 1.1% | 12.8% | 2.2% | 3.9% | 179 |
| Hirael | 41.1% | 5.6% | 19.4% | 8.3% | 17.2% | 6.7% | 1.7% | 180 |
| Llanrug | 88.2% | 1.2% | 3.1% | .9% | 3.7% | 1.2% | 1.6% | 321 |
| | | | | | | | | |
| Cyngar | 73.4% | 3.8% | 12.4% | 1.6% | 3.8% | 1.9% | 3.0% | 364 |
| Llanbadrig | 29.2% | 14.4% | 11.0% | 14.8% | 24.4% | 2.9% | 3.3% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 67.4% | 4.9% | 11.4% | 4.9% | 8.5% | 1.0% | 2.0% | 307 |
| Porthyfelin | 56.6% | 4.0% | 15.9% | 6.2% | 11.9% | 3.5% | 1.8% | 226 |

### 4.32 Pa mor aml fyddwch yn defnyddio'r Gymraeg?

4.32.1 Mae'r ffigurau drwy'r ardal yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'r Gymraeg naill ai bob dydd neu weithiau yn y cartref (70.2%), ar y stryd neu mewn siopau/caffi (69.9%) neu i gymdeithasu (67.9%). Ar y llaw arall, mae'r ffigurau'n is ar gyfer defnydd yn y gwaith (48.8%) ac ar-lein (31.5%). Mae'r defnydd yn debyg ar draws y gwahanol ardaloedd, heblaw ambell wahaniaeth fel bod defnydd ar-lein yn fwy cyffredin yng Ngwynedd (34.1%) nag ym Môn (28.0%).

4.32.2 Tra bod y defnydd o'r iaith ymysg preswylwyr tai newydd yn gyson â'r patrwm cyffredinol, mae preswylwyr tai fforddiadwy'n fwy tueddol o ddefnyddio'r iaith ymhob sefyllfa heblaw gwaith, a phreswylwyr tai a werthwyd yn ddiweddar yn llai tueddol o ddefnyddio'r Gymraeg.

4.32.3 Mae'r defnydd yn amrywio ymysg y wardiau, gyda'r defnydd uchaf o'r Gymraeg i'w weld yn Llanrug a'r isaf yn Abersoch. Yn gyffredinol, y patrwm yw bod lefel uwch o ddefnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r cartref os oes lefel uchel yn y cartref. Mae ambell enghraifft, fel Abersoch a Hirael, lle mae ymatebwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn amlach y tu allan i'r cartref nag efo'r teulu.

4.32.4 Ar gyfer y mwyafrif llethol o sefyllfaoedd, mae mwy o bobl yn defnyddio'r Gymraeg 'bob dydd' yn hytrach na 'weithiau'; gwelir y rhan fwyaf o'r eithriadau i hyn yn y maes ar-lein.

4.32.5 Mae ymatebwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn fwy tueddol o siarad Cymraeg yn y cartref bob dydd yng Ngwynedd (91.7%) nag ym Môn (86.2%), gyda siaradwyr Cymraeg rhugl ym Môn yn fwy tueddol o siarad Cymraeg yn y cartref weithiau (10.5% o gymharu â 5.3% yng Ngwynedd).

4.32.6 Mae ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg yn weddol yn fwy tebygol o siarad Cymraeg gyda'r teulu ym Môn (lle mae 15.7% yn gwneud hynny bob dydd a 52.2% weithiau), nag yng Ngwynedd (lle mae 10.9% o siaradwyr Cymraeg gweddol yn siarad Cymraeg yn y cartref bob dydd a 46.2% yn gwneud weithiau). Yn yr un modd, nid yw 54.2% o'r ymatebwyr ym Môn sy'n siarad ychydig o Gymraeg byth yn siarad Cymraeg yn y cartref, o gymharu â 59.4% yng Ngwynedd.

4.32.7 Mae ymatebwyr yng Ngwynedd sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn fwy tueddol o siarad Cymraeg ar y stryd bob dydd (85.9% o gymharu â 78.4% ym Môn), gyda

siaradwyr Cymraeg rhugl ym Môn yn fwy tueddol o siarad Cymraeg ar y stryd weithiau (16.0% o gymharu â 9.7% yng Ngwynedd).

4.32.8 Mae ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg yn weddol yn fwy tebygol o siarad Cymraeg ar y stryd yng Ngwynedd (lle mae 60.5% yn gwneud hynny weithiau), nag ym Môn (lle mae 53.0% o siaradwyr Cymraeg gweddol yn siarad Cymraeg ar y stryd weithiau). Yn yr un modd, mae 38.5% o'r ymatebwyr yng Ngwynedd sy'n siarad ychydig o Gymraeg yn siarad Cymraeg ar y stryd weithiau, o gymharu a 30.3% ym Môn.

4.32.9 Mae ymatebwyr yng Ngwynedd sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn fwy tueddol o siarad Cymraeg i gymdeithasu bob dydd (88.0% o gymharu â 80.7% ym Môn), gyda siaradwyr Cymraeg rhugl ym Môn yn fwy tueddol o siarad Cymraeg i gymdeithasu weithiau (12.9% o gymharu â 7.6% yng Ngwynedd).

4.32.10 Mae ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg yn weddol yn fwy tebygol o siarad Cymraeg i gymdeithasu ym Môn (lle mae 54.8% yn gwneud hynny weithiau), nag yng Ngwynedd (lle mae 45.4% o siaradwyr Cymraeg gweddol yn siarad Cymraeg i gymdeithasu weithiau).

4.32.11 Mae'r canlyniadau'n debyg ar gyfer y ddwy sir, gyda siaradwyr Cymraeg rhugl yng Ngwynedd ychydig yn fwy tueddol o siarad Cymraeg yn y gwaith bob dydd (64.3% o gymharu â 60.9% ym Môn), gyda siaradwyr Cymraeg rhugl ym Môn yn fwy tueddol o siarad Cymraeg yn y gwaith weithiau (7.0% o gymharu â 4.5% yng Ngwynedd).

4.32.12 Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ar-lein bob dydd yng Ngwynedd (29.2% o gymharu â 22.5% ym Môn).

4.32.13 Ymhlith y rhai sy'n siarad Cymraeg yn weddol neu ychydig, mae defnyddio'r we yn Gymraeg bob dydd yn brin iawn (0.0% yn y rhan fwyaf o achosion) ac mae hyn yn gyson ar draws y ddwy sir.

4.32.14 Mae 86.4% o'r rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg ar-lein bob dydd yn gallu darllen Cymraeg yn dda iawn, ac ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg ar-lein weithiau, mae'r mwyafrif llethol yn gallu darllen Cymraeg yn dda iawn (61.9%) neu'n dda (27.6%).

4.32.15 Dim ond 33.3% o'r rhai sy'n gallu darllen Cymraeg yn dda iawn, a 7.9% o'r rhai sy'n gallu darllen Cymraeg yn dda, sy'n defnyddio'r Gymraeg ar-lein bob dydd. Mae canran uchel byth yn defnyddio'r Gymraeg ar-lein ymysg y rhai sy'n gallu darllen Cymraeg yn weddol (64.9%) neu ychydig (73.6%).

4.32.16 Mae’r canlyniadau’n debyg ar gyfer y ddwy sir a’r ddwy Ardal Cynllunio.

4.32.17 Mae 83.0% o’r rhai sy’n defnyddio’r Gymraeg ar-lein bob dydd yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn, ac ymhlith y rhai sy’n defnyddio’r Gymraeg ar-lein weithiau mae’r mwyafrif yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn (55.0%) neu’n dda (28.7%).

4.32.18 Dim ond 34.8% o’r rhai sy’n gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn, a 11.1% o’r rhai sy’n gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda, sy’n defnyddio’r Gymraeg ar-lein bob dydd. Mae canran uchel byth yn defnyddio’r Gymraeg ar-lein ymysg y rhai sy’n gallu ysgrifennu Cymraeg yn weddol (48.5%) neu ychydig (66.6%).

4.32.19 Mae’r canlyniadau’n debyg ar gyfer y ddwy sir a’r ddwy Ardal Cynllunio.

**Tabl 50: Pa mor aml fyddwch yn defnyddio'r Gymraeg?**

| | Yn y carterf / efo teulu | | | | Yn y gwaith | | | | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | |
| Holl ardal astudiaeth | 56.1% | 14.1% | 22.4% | 7.4% | 39.2% | 9.7% | 21.5% | 29.7% | 3,404 |
| Gwynedd | 59.8% | 11.3% | 21.7% | 7.2% | 41.4% | 8.5% | 20.0% | 30.1% | 1,929 |
| Ynys Môn | 51.2% | 17.7% | 23.4% | 7.7% | 36.2% | 11.2% | 23.4% | 29.2% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 56.0% | 14.1% | 22.4% | 7.5% | 39.1% | 9.7% | 21.8% | 29.3% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 56.4% | 14.0% | 22.4% | 7.2% | 39.4% | 9.2% | 18.7% | 32.7% | 401 |
| | Mewn siop/ caffi/ ar y stryd ayyb | | | | Ar y we / Twitter / Facebook | | | | N = |
| | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | |
| Holl ardal astudiaeth | 50.6% | 19.3% | 20.0% | 10.0% | 15.7% | 15.7% | 41.5% | 27.1% | 3,404 |
| Gwynedd | 55.0% | 17.6% | 18.1% | 9.3% | 18.1% | 16.0% | 38.0% | 27.9% | 1,929 |
| Ynys Môn | 44.9% | 21.5% | 22.6% | 11.1% | 12.5% | 15.5% | 46.0% | 26.0% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 51.0% | 18.8% | 20.2% | 9.9% | 15.9% | 15.7% | 41.8% | 26.6% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 47.4% | 22.9% | 18.7% | 11.0% | 14.7% | 16.2% | 38.7% | 30.4% | 401 |
| | I gymdeithasu | | | | | | | | N = |
| | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | | | | | |
| Holl ardal astudiaeth | 51.8% | 16.1% | 21.7% | 10.3% | | | | | 3,404 |
| Gwynedd | 56.0% | 13.8% | 20.4% | 9.8% | | | | | 1,929 |
| Ynys Môn | 46.2% | 19.2% | 23.5% | 11.1% | | | | | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 52.0% | 15.7% | 21.8% | 10.5% | | | | | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 50.1% | 19.7% | 21.2% | 9.0% | | | | | 401 |

**Tabl 51: Pa mor aml fyddwch yn defnyddio'r Gymraeg? (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau)**

| | Yn y carterf / efo teulu | | | | Yn y gwaith | | | | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 52.3% | 16.6% | 26.5% | 4.6% | 37.3% | 10.3% | 26.0% | 26.4% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 53.7% | 21.6% | 19.4% | 5.2% | 36.6% | 11.2% | 23.1% | 29.1% | 134 |
| Gwerthiannau | 45.0% | 15.6% | 29.6% | 9.7% | 34.9% | 11.6% | 27.2% | 26.4% | 493 |
| | **Mewn siop/ caffi/ ar y stryd ayyb** | | | | **Ar y we / Twitter / Facebook** | | | | **N =** |
| | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 46.9% | 21.1% | 24.3% | 7.7% | 14.4% | 17.9% | 44.6% | 23.0% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 48.5% | 29.9% | 16.4% | 5.2% | 15.7% | 20.1% | 28.4% | 35.8% | 134 |
| Gwerthiannau | 41.0% | 20.3% | 26.6% | 12.2% | 14.6% | 14.4% | 49.9% | 21.1% | 493 |
| | **I gymdeithasu** | | | | | | | | **N =** |
| | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 49.8% | 18.4% | 25.0% | 6.7% | | | | | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 54.5% | 22.4% | 17.9% | 5.2% | | | | | 134 |
| Gwerthiannau | 41.8% | 17.4% | 29.4% | 11.4% | | | | | 493 |

**Tabl 52: Pa mor aml fyddwch yn defnyddio'r Gymraeg? (fesul ward)**

| | Yn y carterf / efo teulu | | | | I gymdeithasu | | | | Ar y we / Twitter / Facebook | | | | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | |
| Abersoch | 21.4% | 9.4% | 45.9% | 23.3% | 23.3% | 13.8% | 39.6% | 23.3% | 2.5% | 6.9% | 63.5% | 27.0% | 159 |
| Clynnog | 66.4% | 12.1% | 13.4% | 8.1% | 55.7% | 14.8% | 13.4% | 16.1% | 16.8% | 12.8% | 24.8% | 45.6% | 149 |
| De Dolgellau | 47.4% | 18.5% | 23.7% | 10.4% | 41.7% | 24.2% | 24.6% | 9.5% | 11.4% | 11.8% | 46.9% | 29.9% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 68.2% | 3.4% | 19.6% | 8.9% | 65.9% | 7.3% | 16.2% | 10.6% | 22.9% | 11.7% | 37.4% | 27.9% | 179 |
| Hirael | 21.1% | 21.1% | 46.1% | 11.7% | 16.7% | 25.0% | 45.0% | 13.3% | 1.7% | 9.4% | 71.7% | 17.2% | 180 |
| Llanrug | 87.5% | 3.1% | 6.5% | 2.8% | 82.6% | 5.0% | 4.7% | 7.8% | 29.6% | 19.3% | 19.3% | 31.8% | 321 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Cyngar | 72.3% | 9.6% | 14.3% | 3.8% | 67.9% | 11.8% | 12.6% | 7.7% | 18.4% | 19.2% | 34.1% | 28.3% | 364 |
| Llanbadrig | 29.2% | 18.7% | 39.7% | 12.4% | 25.8% | 21.5% | 34.0% | 18.7% | 4.8% | 9.1% | 60.3% | 25.8% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 67.4% | 13.4% | 12.7% | 6.5% | 56.4% | 15.3% | 14.7% | 13.7% | 16.9% | 18.6% | 32.9% | 31.6% | 307 |
| Porthyfelin | 16.8% | 35.8% | 32.7% | 14.6% | 15.0% | 31.9% | 39.4% | 13.7% | 2.7% | 8.8% | 68.1% | 20.4% | 226 |

| | Mewn siop/ caffi/ ar y stryd ayyb | | | | Yn y gwaith | | | | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | Bob dydd | Weithiau | Byth | Dim Ateb | |
| Abersoch | 20.8% | 20.1% | 34.0% | 25.2% | 15.1% | 8.2% | 39.0% | 37.7% | 159 |
| Clynnog | 53.7% | 20.8% | 9.4% | 16.1% | 36.9% | 11.4% | 12.1% | 39.6% | 149 |
| De Dolgellau | 40.8% | 28.4% | 20.4% | 10.4% | 30.8% | 11.4% | 21.3% | 36.5% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 67.0% | 7.8% | 14.5% | 10.6% | 39.7% | 4.5% | 17.3% | 38.5% | 179 |
| Hirael | 13.9% | 34.4% | 40.6% | 11.1% | 14.4% | 17.2% | 45.6% | 22.8% | 180 |
| Llanrug | 85.4% | 4.7% | 4.7% | 5.3% | 62.3% | 2.8% | 5.9% | 29.0% | 321 |
| | | | | | | | | | |
| Cyngar | 67.6% | 12.1% | 12.4% | 8.0% | 51.4% | 6.0% | 14.3% | 28.3% | 364 |
| Llanbadrig | 22.5% | 26.8% | 33.5% | 17.2% | 16.7% | 11.0% | 37.8% | 34.4% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 55.0% | 19.9% | 14.0% | 11.1% | 46.6% | 9.4% | 14.0% | 30.0% | 307 |
| Porthyfelin | 14.6% | 34.1% | 36.3% | 15.0% | 11.1% | 19.9% | 34.5% | 34.5% | 226 |

## 4.33 Defnydd o'r Gymraeg wrth gymdeithasu

4.33.1 Drwy'r holl ardal, gweithgareddau hamdden yw'r mwyaf tebygol o gael eu gwneud drwy gyfrwng y Gymraeg (39.1%), yna gweithgareddau hanes a diwylliant (26.7%) a chrefydd (25.8%); ychydig yn llai cyffredin yw gwleidyddiaeth leol (18.3%) a chlybiau ieuenctid/henoed (13.0%). Mae gweithgareddau hamdden, hanes a diwylliant a gwleiyddiaeth leol i gyd gryn dipyn yn fwy tebygol o gael eu gwneud yn Gymraeg yng Ngwynedd nag ym Môn, tra bod y bwlch yn llai ar gyfer crefydd a chlybiau ieuenctid/henoed. Mae gweithgareddau'n fwy tebygol o ddigwydd yn Gymraeg yn Ardal Cynllunio PCE nag yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, gyda'r bwlch mwyaf yn achos crefydd.

4.33.2 Mae trigolion tai fforddiadwy yn fwy tebygol na thrigolion tai newydd a thai a werthwyd yn ddiweddar i wneud gweithgareddau cymdeithasol yn Gymraeg. Ar y llaw arall, mae lefel y 'dim ateb' yn awgrymu bod preswylwyr tai fforddiadwy yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau (ac eithrio hamdden).

4.33.3 Mae defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau ar ei uchaf yn Llanrug, ac ar ei isaf yn Hirael.

4.33.4 Mae'r patrwm fod ymatebwyr yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn Gymraeg po fwyaf rhugl ydynt yn Gymraeg yn gyson ar draws y ddwy sir.

4.33.5 Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tueddol o wneud gweithgareddau hamdden yn Gymraeg yng Ngwynedd (65.3%) nag ym Môn (55.5%). Mae siaradwyr Cymraeg da yn fwy tueddol o wneud hynny ym Môn (32.1%) nag yng Ngwynedd (28.3%), fel y mae siaradwyr Cymraeg gweddol (14.8% ym Môn yn gwneud gweithgareddau hamdden yn Gymraeg, 10.9% yng Ngwynedd), ond mae rhai sy'n siarad ychydig o Gymraeg yn fwy tueddol o gymryd rhan yn Gymraeg yng Ngwynedd (7.8%) nag ym Môn (4.0%).

4.33.6 Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tueddol o gymryd rhan mewn gweithgareddau hanes/diwylliant yn Gymraeg yng Ngwynedd (47.5%) nag ym Môn (36.6%), gyda'r un peth yn wir – ar raddfa lai – ar gyfer pob lefel gallu.

4.33.7 Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tueddol o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol yn Gymraeg yng Ngwynedd (32.6%) nag ym Môn (26.0%). Mae siaradwyr Cymraeg da yn fwy tueddol o wneud hynny ym Môn (13.4%) nag yng Ngwynedd (11.1%), fel y mae siaradwyr Cymraeg gweddol (2.6% ym Môn, 2.5% yng Ngwynedd), ond mae rhai sy'n

siarad ychydig o Gymraeg yn fwy tueddol o gymryd rhan yn Gymraeg yng Ngwynedd (1.6%) nag ym Môn (1.1%).

4.33.8 Mae'r canlyniadau'n debyg iawn ar gyfer Gwynedd a Môn, gydag ychydig yn fwy o'r ymatebwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau crefydd yng Ngwynedd nag ym Môn ar gyfer pob gallu heblaw gweddol (lle mae 8.7% yn cymryd rhan yn Gymraeg ym Môn a 5.9% yn gwneud hynny yng Ngwynedd).

4.33.9 Mae'r canlyniadau'n debyg ar gyfer y ddwy sir, gydag ychydig yn fwy o'r ymatebwyr yn cymryd rhan mewn clybiau ieuenctid/henoed yn Gymraeg ym Môn nag yng Ngwynedd ar gyfer pob gallu. Mae'r bwlch mwyaf yn achos siaradwyr Cymraeg gweddol, lle mae 12.2% ohonynt yn cymryd rhan mewn clwb yn Gymraeg ym Môn, o gymharu ag 1.7% yng Ngwynedd.

4.33.10 Ar gyfer gweithgareddau eraill, mae mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl yn cymryd rhan yn Gymraeg yng Ngwynedd (16.7%) nag ym Môn (13.1%), ond ar gyfer y lefelau gallu eraill mae mwy yn cymryd rhan yn Gymraeg ym Môn nag yng Ngwynedd.

**Tabl 53: Defnydd o'r Gymraeg wrth gymdeithasu**

| | Hamdden / Chwaraeon | | | Hanes / diwylliant / celfyddydau | | | Gwleidyddiaeth lleol | | | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | |
| Holl ardal astudiaeth | 39.1% | 28.3% | 32.6% | 26.7% | 27.5% | 45.8% | 18.3% | 27.8% | 53.8% | 3,404 |
| Gwynedd | 43.1% | 24.5% | 32.5% | 30.6% | 24.0% | 45.4% | 20.8% | 24.5% | 54.7% | 1,929 |
| Ynys Môn | 33.8% | 33.3% | 32.9% | 21.6% | 32.1% | 46.3% | 15.1% | 32.3% | 52.7% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 39.2% | 28.8% | 32.1% | 26.2% | 27.8% | 45.9% | 18.3% | 28.3% | 53.4% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 38.4% | 24.7% | 36.9% | 30.4% | 24.9% | 44.6% | 18.2% | 24.4% | 57.4% | 401 |

| | Crefydd e.e. Capel / Eglwys | | | Clwb ieuenctid / Clwb yr henoed | | | Arall | | | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | |
| Holl ardal astudiaeth | 25.8% | 26.9% | 47.4% | 13.0% | 26.2% | 60.8% | 10.2% | 19.0% | 70.8% | 3,404 |
| Gwynedd | 26.9% | 24.1% | 49.0% | 12.8% | 23.5% | 63.7% | 11.2% | 16.7% | 72.1% | 1,929 |
| Ynys Môn | 24.3% | 30.4% | 45.2% | 13.2% | 29.7% | 57.1% | 8.8% | 22.0% | 69.2% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 24.8% | 27.6% | 47.6% | 13.5% | 26.7% | 59.8% | 10.2% | 19.7% | 70.0% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 32.9% | 21.4% | 45.6% | 9.2% | 22.2% | 68.6% | 9.7% | 13.7% | 76.6% | 401 |

**Tabl 54: Defnydd o'r Gymraeg wrth gymdeithasu (gwerthiannau & caniatadau cynllunio tai newydd wedi eu cwblhau)**

| | Hamdden / Chwaraeon | | | Hanes / diwylliant / celfyddydau | | | Gwleidyddiaeth lleol | | | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 41.2% | 32.4% | 26.5% | 23.2% | 29.4% | 47.4% | 15.3% | 30.2% | 54.5% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 52.2% | 23.9% | 23.9% | 20.1% | 18.7% | 61.2% | 14.9% | 17.9% | 67.2% | 134 |
| Gwerthiannau | 32.5% | 35.9% | 31.6% | 22.9% | 36.9% | 40.2% | 18.5% | 36.9% | 44.6% | 493 |

| | Crefydd e.e. Capel / Eglwys | | | Clwb ieuenctid / Clwb yr henoed | | | Arall | | | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 22.3% | 29.6% | 48.1% | 13.5% | 29.4% | 57.2% | 8.8% | 18.9% | 72.3% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 20.1% | 23.1% | 56.7% | 13.4% | 17.2% | 69.4% | 9.7% | 10.4% | 79.9% | 134 |
| Gwerthiannau | 20.1% | 36.5% | 43.4% | 13.2% | 34.1% | 52.7% | 10.8% | 25.6% | 63.7% | 493 |

**Tabl 55: Defnydd o'r Gymraeg wrth gymdeithasu (fesul ward)**

| | Hamdden / Chwaraeon | | | Hanes / diwylliant / celfyddydau | | | Gwleidyddiaeth lleol | | | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | |
| Abersoch | 18.2% | 42.8% | 39.0% | 12.6% | 40.9% | 46.5% | 6.9% | 42.1% | 50.9% | 159 |
| Clynnog | 36.2% | 15.4% | 48.3% | 30.9% | 14.8% | 54.4% | 24.2% | 18.1% | 57.7% | 149 |
| De Dolgellau | 30.8% | 28.4% | 40.8% | 27.0% | 30.3% | 42.7% | 16.1% | 30.8% | 53.1% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 42.5% | 21.2% | 36.3% | 30.7% | 20.1% | 49.2% | 24.0% | 21.8% | 54.2% | 179 |
| Hirael | 12.2% | 53.9% | 33.9% | 7.8% | 52.8% | 39.4% | 7.2% | 50.6% | 42.2% | 180 |
| Llanrug | 63.2% | 7.5% | 29.3% | 41.7% | 9.3% | 48.9% | 35.5% | 9.7% | 54.8% | 321 |
| | | | | | | | | | | |
| Cyngar | 46.4% | 20.1% | 33.5% | 27.5% | 23.6% | 48.9% | 20.1% | 25.3% | 54.7% | 364 |
| Llanbadrig | 23.4% | 45.9% | 30.6% | 14.4% | 42.6% | 43.1% | 10.0% | 45.0% | 45.0% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 37.8% | 21.5% | 40.7% | 20.5% | 21.2% | 58.3% | 16.0% | 18.9% | 65.1% | 307 |
| Porthyfelin | 19.5% | 51.3% | 29.2% | 10.2% | 53.1% | 36.7% | 8.4% | 51.8% | 39.8% | 226 |
| | **Crefydd e.e. Capel / Eglwys** | | | **Clwb ieuenctid / Clwb yr henoed** | | | **Arall** | | | **N =** |
| | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb | |
| Abersoch | 7.5% | 43.4% | 49.1% | 6.9% | 42.1% | 50.9% | 4.4% | 42.1% | 53.5% | 159 |
| Clynnog | 44.3% | 16.8% | 38.9% | 14.8% | 17.4% | 67.8% | 14.1% | 16.1% | 69.8% | 149 |
| De Dolgellau | 35.1% | 25.6% | 39.3% | 7.6% | 28.4% | 64.0% | 7.6% | 18.5% | 73.9% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 27.4% | 22.9% | 49.7% | 13.4% | 22.3% | 64.2% | 16.2% | 17.3% | 66.5% | 179 |
| Hirael | 10.0% | 48.3% | 41.7% | 7.2% | 47.8% | 45.0% | 6.7% | 38.9% | 54.4% | 180 |
| Llanrug | 39.3% | 11.2% | 49.5% | 22.7% | 10.3% | 67.0% | 12.1% | 3.7% | 84.1% | 321 |
| | | | | | | | | | | |
| Cyngar | 34.6% | 21.7% | 43.7% | 15.1% | 21.4% | 63.5% | 8.5% | 11.0% | 80.5% | 364 |
| Llanbadrig | 18.2% | 41.6% | 40.2% | 10.0% | 42.6% | 47.4% | 6.7% | 36.8% | 56.5% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 25.4% | 23.1% | 51.5% | 15.3% | 20.8% | 63.8% | 10.1% | 16.6% | 73.3% | 307 |
| Porthyfelin | 14.6% | 50.9% | 34.5% | 11.1% | 47.3% | 41.6% | 7.1% | 38.5% | 54.4% | 226 |

## 4.34 Sector gweithio

4.34.1 Y categori mwyaf cyffredin ymhob achos yw’r rhai nad ydynt yn gweithio, wedi ymddeol neu’n fyfyrwyr llawn amser (34.3% dros yr holl ardal), ac yn gyffredinol mae’r sector gyhoeddus (22.4%) ychydig yn fwy cyffredin na’r sector breifat (19.8%). Mae mwy o bobl yn y sector breifat yng Ngwynedd (20.6%) nag ym Môn (18.7%), a mwy o bobl yn y sector gyhoeddus ym Môn (23.3%) nag yng Ngwynedd (21.6%). Mae llai o bobl ddim yn gweithio yn Ardal Cynllunio PCE (30.4%) na Gwynedd a Môn (34.9%), a chanran fwy o bobl yn y sector gyhoeddus yn y Parc (25.9%) nag yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (21.9%).

4.34.2 Roedd mwy o drigolion tai newydd yn y sector breifat (23.9%, 21.2% yn y sector gyhoeddus), gyda’r gwrthwyneb yn wir ar gyfer tai a werthwyd yn ddiweddar (23.3% yn y sector gyhoeddus, 21.3% yn y sector breifat). Roedd canran uchel o drigolion tai fforddiadwy heb ateb y cwestiwn.

4.34.3 Roedd canran uchel ddim yn gweithio yn Abersoch (44.0%), Porthyfelin (44.7%) a Hirael (48.9%). Roedd y canrannau uchaf ar gyfer y sector gyhoeddus yng Nghyngar (27.5%) a De Dolgellau (26.5%), a’r isaf yn Abersoch (5.7%). Roedd mwy na’r cyffredin yn gweithio yn y sector wirfoddol yng Nghlynnog (2.7%) a Llanbadrig (2.4%). Roedd y ganran uchaf o weithwyr yn y sector breifat yn Abersoch (24.5%).

**Tabl 56: Sector gweithio**

| | Preifat | Gwirfoddol | Cyhoeddus | Ddim yn gweithio / Wedi ymddeol / Myfyriwr llawn amser | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 19.8% | 1.5% | 22.4% | 34.3% | 22.0% | 3,404 |
| Gwynedd | 20.6% | 1.6% | 21.6% | 34.2% | 22.1% | 1,929 |
| Ynys Môn | 18.7% | 1.4% | 23.3% | 34.6% | 22.0% | 1,475 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 19.8% | 1.6% | 21.9% | 34.9% | 21.8% | 3,003 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 19.2% | 1.0% | 25.9% | 30.4% | 23.4% | 401 |
| | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 23.9% | 1.1% | 21.2% | 30.3% | 23.5% | 831 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 21.6% | 1.5% | 14.2% | 25.4% | 37.3% | 134 |
| Gwerthiannau | 21.3% | 1.6% | 23.3% | 34.7% | 19.1% | 493 |
| | | | | | | |
| Abersoch | 24.5% | .6% | 5.7% | 44.0% | 25.2% | 159 |
| Clynnog | 22.8% | 2.7% | 16.1% | 34.9% | 23.5% | 149 |
| De Dolgellau | 14.7% | 1.4% | 26.5% | 31.8% | 25.6% | 211 |
| Diffwys & Maenofferen | 18.4% | 1.7% | 20.7% | 35.2% | 24.0% | 179 |
| Hirael | 17.8% | 1.1% | 16.1% | 48.9% | 16.1% | 180 |
| Llanrug | 19.9% | 1.2% | 24.9% | 33.0% | 20.9% | 321 |
| Cyngar | 18.1% | 0.5% | 27.5% | 32.7% | 21.2% | 364 |
| Llanbadrig | 16.7% | 2.4% | 17.2% | 39.2% | 24.4% | 209 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 20.5% | 1.3% | 23.1% | 34.2% | 20.8% | 307 |
| Porthyfelin | 16.8% | 1.3% | 13.3% | 44.7% | 23.9% | 226 |

### 4.35 Yn eich gwaith, pa iaith sy'n cael ei defnyddio yn bennaf?

4.35.1 Mae'r gyfran uchaf o'r ymatebwyr yn gweithio mewn amgylchedd Cymraeg, gyda 43.8% o'r ymatebwyr yn nodi mai'r Gymraeg neu'r Gymraeg-yn-bennaf a ddefnyddir yn eu gwaith, o gymharu â 33.1% yn nodi Saesneg neu Saesneg-yn-bennaf a 22.0% yn nodi bod y ddwy iaith yn gyfartal. Roedd ychydig yn fwy o ddefnydd o'r iaith yng Ngwynedd nag ym Môn, gyda 48.5% yn nodi bod y gweithle'n Gymraeg neu'n Gymraeg-yn-bennaf, o gymharu â 37.6% ym Môn. Roedd lefel uchel o weithleoedd dwyieithog ym Môn – 26.4%, o gymharu ag 18.7% yng Ngwynedd. Roedd rhywfaint yn fwy o weithleoedd Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf yn Ardal Cynllunio PCE (48.1%) o gymharu ag Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (43.2%).

4.35.2 Roedd lefel uchel o breswylwyr tai fforddiadwy'n gweithio mewn amgylchedd Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf – 54.0%, o gymharu â 42.2% ar gyfer tai newydd yn gyffredinol. Roedd y ganran yn is eto ar gyfer tai a werthwyd yn ddiweddar (34.6%).

4.35.3 Ymhlith y wardiau, roedd y ganran uchaf o weithleoedd Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf gan ymatebwyr yn Llanrug (62.2%), gyda Chlynnog (56.5%) a Chyngar (54.2%) hefyd yn uchel. Roedd y gweithleoedd dwyieithog ar eu huchaf gan ymatebwyr yng Nghyngar (31.0%) a Llanfihangel Ysgeifiog (29.0%). Ymhlith trigolion Abersoch (67.3%), Porthyfelin (64.8%) a Hirael (61.9%) y gwelwyd y canrannau uchaf o weithleoedd Saesneg neu Saesneg-yn-bennaf.

4.35.4 Mae prif iaith gwaith yn y sector breifat yng Ngwynedd yn Gymraeg neu'n Gymraeg-yn-bennaf mewn 34.0% o achosion, ac mewn 30.4% o achosion ym Môn. Yng Ngwynedd, mae prif iaith gwaith yn y sector gwirfoddol yn Gymraeg neu'n Gymraeg-yn-bennaf mewn 53.3% o achosion, ond 9.5% yw'r ffigwr ar gyfer Môn (gyda 42.9% yn ddwyieithog). Tra bod prif iaith gwaith yn y sector gyhoeddus yn Gymraeg neu'n Gymraeg-yn-bennaf mewn 61.9% o achosion yng Ngwynedd, mewn 45.1% o achosion y mae hyn yn wir ar gyfer Môn.

4.35.5 Mae prif iaith gwaith yn y sector breifat yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn yn Gymraeg neu'n Gymraeg-yn-bennaf mewn 33.1% o achosion, ac mewn 28.6% o achosion yn Ardal Cynllunio PCE. Yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, mae prif iaith gwaith yn y sector gwirfoddol yn Gymraeg neu'n Gymraeg-yn-bennaf mewn 36.2% o achosion, a 25.0% yw'r ffigwr ar gyfer Ardal Cynllunio PCE (o sampl o 4). Tra bod prif iaith gwaith yn y sector gyhoeddus yn Gymraeg neu'n Gymraeg-yn-bennaf mewn 52.8% o achosion yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, mae hyn yn wir mewn 63.5% o achosion ar gyfer Ardal Cynllunio PCE.

4.35.6 Yng Ngwynedd, yn y sector breifat, Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf yw prif iaith gwaith 53.4% o'r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt. Mae'r ffigwr cyfatebol yn 47.2% ym Môn. Yng Ngwynedd, yn y sector gyhoeddus, Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf yw prif iaith gwaith 75.4% o'r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt. 60.6% yw'r ffigwr cyfatebol ar gyfer Môn.

**Tabl 57: Yn eich gwaith, pa iaith sy'n cael ei defnyddio yn bennaf?**

| | Cymraeg | Cymraeg yn bennaf – gyda pheth ddefnydd o Saesneg | Dwyieithog – defnydd cyfartal o Gymraeg a Saesneg | Saesneg yn bennaf – gyda pheth defnydd o Gymraeg | Saesneg | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 24.4% | 19.4% | 22.0% | 15.8% | 17.3% | 1.1% | 1,485 |
| Gwynedd | 28.1% | 20.4% | 18.7% | 15.3% | 16.6% | 0.9% | 844 |
| Ynys Môn | 19.5% | 18.1% | 26.4% | 16.4% | 18.3% | 1.4% | 641 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 23.6% | 19.5% | 22.4% | 16.5% | 16.7% | 1.2% | 1300 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 29.7% | 18.4% | 19.5% | 10.3% | 21.6% | 0.5% | 185 |
| | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 23.7% | 18.5% | 22.1% | 15.1% | 20.3% | 0.3% | 384 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 24.0% | 30.0% | 18.0% | 12.0% | 16.0% | 0.0% | 50 |
| Gwerthiannau | 18.9% | 15.8% | 21.5% | 20.6% | 22.4% | 0.9% | 228 |
| | | | | | | | |
| Abersoch | 12.2% | 6.1% | 14.3% | 22.4% | 44.9% | 0.0% | 49 |
| Clynnog | 32.3% | 24.2% | 12.9% | 11.3% | 19.4% | 0.0% | 62 |
| De Dolgellau | 17.8% | 18.9% | 27.8% | 11.1% | 23.3% | 1.1% | 90 |
| Diffwys & Maenofferen | 21.9% | 31.5% | 23.3% | 6.8% | 13.7% | 2.7% | 73 |
| Hirael | 3.2% | 6.3% | 25.4% | 34.9% | 27.0% | 3.2% | 63 |
| Llanrug | 41.2% | 20.9% | 16.9% | 12.8% | 6.1% | 2.0% | 148 |
| | | | | | | | |
| Cyngar | 30.4% | 23.8% | 31.0% | 8.9% | 5.4% | 0.6% | 168 |
| Llanbadrig | 13.2% | 3.9% | 22.4% | 27.6% | 30.3% | 2.6% | 76 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 19.6% | 23.2% | 29.0% | 13.8% | 13.8% | 0.7% | 138 |
| Porthyfelin | 2.8% | 8.5% | 21.1% | 25.4% | 39.4% | 2.8% | 71 |

### 4.36 Yn eich gwaith, pa iaith sy'n cael ei defnyddio ar gyfer cyfathrebu MEWNOL?

4.36.1 Roedd y canlyniadau'n agos dros yr holl ardal, gyda 40.7% yn nodi mai Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf yw iaith cyfathrebu mewnol, a 39.8% yn nodi Saesneg neu Saesneg-yn-bennaf. Nododd mwy o ymatebwyr Gymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf yng Ngwynedd (45.7%) nag ym Môn (34.2%), gyda lefel y dwyieithrwydd yn uwch ym Môn (20.0% o gymharu a 14.3% yng Ngwynedd). Roedd mwy o gyfathrebu mewnol Cymraeg neu Gymraeg yn bennaf gan ymatebwyr yn Ardal Cynllunio PCE (45.4%) nag yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (40.1%), gyda lefel y dwyieithrwydd yn isel yn Ardal Cynllunio PCE (10.3% o gymharu â 17.7% ar gyfer Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn).

4.36.2 Nododd lefel uchel o breswylwyr tai fforddiadwy fod cyfathrebu mewnol yn Gymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf (54.0%, o gymharu â 37.2% ar gyfer tai newydd yn gyffredinol). Roedd y ganran yn is eto ar gyfer tai a werthwyd yn ddiweddar (32.0%).

4.36.3 Ymhlith y wardiau, roedd y lefel uchaf o gyfathrebu mewnol Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf ymhlith ymatebwyr yng Nghlynnog (56.5%), Llanrug (54.1%) a Diffwys a Maenofferen (52.1%). Ymatebwyr yng Nghynar nododd y lefel uchaf o gyfathrebu mewnol dwyieithog (22.6%), tra bod y lefel uchaf o gyfathrebu mewnol Saesneg neu Saesneg-yn-bennaf ymhlith ymatebwyr yn Hirael (69.8%) ac Abersoch (69.4%).

4.36.4 Tra bod cyfathrebu mewnol yn y sector wirfoddol yn Gymraeg neu'n Gymraeg-yn-bennaf mewn 50.0% o achosion yng Ngwynedd, 9.5% oedd y ffigwr ar gyfer Môn. Yn y sector gyhoeddus, roedd cyfathrebu mewnol yn Gymraeg neu'n Gymraeg-yn-bennaf mewn 57.8% o achosion yng Ngwynedd, a 43.3% ym Môn. Yn y sector gyhoeddus, roedd cyfathrebu mewnol yn Gymraeg neu'n Gymraeg-yn-bennaf mewn 59.6% o achosion yn Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri, ac mewn 49.9% o achosion yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn.

4.36.5 Yng Ngwynedd, yn y sector breifat, Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf yw iaith cyfathrebu mewnol gwaith 52.6% o'r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt. Mae'r ffigwr cyfatebol yn 41.5% ym Môn.

4.36.6 Yng Ngwynedd, yn y sector breifat, Saesneg neu Saesneg-yn-bennaf yw iaith cyfathrebu mewnol gwaith 82.3% o'r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn eithaf pwysig iddynt. Mae'r ffigwr cyfatebol yn 71.4% ym Môn.

4.36.7 Yng Ngwynedd, yn y sector gyhoeddus, Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf yw iaith cyfathrebu mewnol gwaith 62.2% o'r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt. Mae'r ffigwr cyfatebol yn 59.7% ar gyfer Môn.

4.36.8 Yng Ngwynedd, yn y sector gyhoeddus, Saesneg neu Saesneg-yn-bennaf yw iaith cyfathrebu mewnol gwaith 45.2% o'r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn eithaf pwysig iddynt. Mae'r ffigwr cyfatebol yn 39.2% ar gyfer Môn.

**Tabl 58: Yn eich gwaith, pa iaith sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfathrebu MEWNOL?**

| | Cymraeg | Cymraeg yn bennaf – gyda pheth ddefnydd o Saesneg | Dwyieithog – defnydd cyfartal o Gymraeg a Saesneg | Saesneg yn bennaf – gyda pheth defnydd o Gymraeg | Saesneg | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 28.7% | 12.1% | 16.8% | 13.1% | 26.7% | 2.7% | 1,485 |
| Gwynedd | 33.8% | 12.0% | 14.3% | 12.3% | 25.5% | 2.1% | 844 |
| Ynys Môn | 22.0% | 12.2% | 20.0% | 14.0% | 28.4% | 3.4% | 641 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 28.2% | 11.9% | 17.7% | 12.9% | 26.8% | 2.5% | 1300 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 32.4% | 13.0% | 10.3% | 14.1% | 26.5% | 3.8% | 185 |
| | | | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 23.7% | 13.5% | 18.5% | 11.5% | 31.3% | 1.6% | 384 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 36.0% | 18.0% | 16.0% | 6.0% | 24.0% | | 50 |
| Gwerthiannau | 23.2% | 8.8% | 13.2% | 17.1% | 36.0% | 1.8% | 228 |
| | | | | | | | |
| Abersoch | 10.2% | 8.2% | 12.2% | 4.1% | 65.3% | 0.0% | 49 |
| Clynnog | 41.9% | 14.5% | 4.8% | 16.1% | 21.0% | 1.6% | 62 |
| De Dolgellau | 27.8% | 10.0% | 13.3% | 20.0% | 27.8% | 1.1% | 90 |
| Diffwys & Maenofferen | 32.9% | 19.2% | 13.7% | 2.7% | 30.1% | 1.4% | 73 |
| Hirael | 4.8% | 6.3% | 14.3% | 25.4% | 44.4% | 4.8% | 63 |
| Llanrug | 45.9% | 8.1% | 20.3% | 10.8% | 12.8% | 2.0% | 148 |
| | | | | | | | |
| Cyngar | 28.6% | 19.6% | 22.6% | 11.9% | 13.7% | 3.6% | 168 |
| Llanbadrig | 11.8% | 2.6% | 19.7% | 15.8% | 44.7% | 5.3% | 76 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 27.5% | 12.3% | 16.7% | 20.3% | 21.0% | 2.2% | 138 |
| Porthyfelin | 8.5% | 4.2% | 15.5% | 14.1% | 53.5% | 4.2% | 71 |

## 4.37 Ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith

4.37.1 Yr ymateb mwyaf cyffredin ar draws yr ardal oedd 'byth' (46.1%), gyda 30.0% yn nodi eu bod yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yn rheolaidd, a 21.5% yn nodi eu bod yn gwneud hynny 'weithiau'. Roedd mwy o'r ymatebwyr yng Ngwynedd na Môn yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith, gyda 53.4% ym Môn yn nodi nad ydynt byth yn gwneud hynny o gymharu â 40.6% yng Ngwynedd. Roedd gwahaniaeth tebyg rhwng yr ardaloedd cynllunio, gyda 47.6% yn nodi nad ydynt byth yn ysgrifennu yn Gymraeg yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, o gymharu â 35.7% ar gyfer Ardal Cynllunio PCE.

4.37.2 Nododd lefel isel o breswylwyr tai fforddiadwy nad ydynt byth yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith (36.0%, o gymharu â 47.9% ar gyfer tai newydd yn gyffredinol). Roedd y ganran yn waeth eto ar gyfer tai a werthwyd yn ddiweddar (56.6% byth yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith).

4.37.3 O edrych ar y wardiau, gan amlaf mae canran fwy yn nodi eu bod yn ysgrifennu Cymraeg yn rheolaidd na'u bod yn gwneud hynny weithiau. Yr eithriadau yw'r wardiau lle mae nifer uchaf wedi nodi nad ydynt byth yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith: Hirael (77.8%), Abersoch (75.5%), Llanbadrig (71.1%) a Phorthyfelin (69.0%). Y wardiau lle mae'r lefel uchaf o ymatebwyr yn ysgrifennu Cymraeg yn rheolaidd yw Llanrug (41.9%) a Chlynnog (40.3%).

4.37.4 Mae ymatebwyr yng Ngwynedd yn fwy tueddol o ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith nag ymatebwyr ym Môn. Mae hyn yn wir am bob sector. Yn y sector breifat, nid yw 57.4% byth yn ysgrifennu Cymrareg yn y gwaith yng Ngwynedd, ond mae 68.5% byth yn gwneud yn Ynys Môn. Yn y sector wirfoddol, 30.0% sydd byth yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yng Ngwynedd, a 38.1% yn ynys Môn. Mae'r bwlch ar ei fwyaf yn y sector gyhoeddus, lle nad yw 25.4% byth yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yng Ngwynedd, tra bod hynny'n wir am 42.2% ym Môn.

4.37.5 Mae ymatebwyr yn Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri yn fwy tueddol o ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith nag ymatebwyr yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, a hynny ymhob sector heblaw'r sector wirfoddol. Mae 29.8% o ymatebwyr yn y sector wirfoddol yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn byth yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith, o gymharu â 75.0% yn Ardal Cynllunio PCE (ond dim ond 4 person oedd yn y sector yn y Parc). Yn y sector breifat, nid yw 49.4% o ymatebwyr yn Ardal Cynllunio PCE byth yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith, tra bod hynny'n wir am 63.6% o ymatebwyr yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn. Yn y sector gyhoeddus, nid yw 24.0% o ymatebwyr yn Ardal Cynllunio

PCE byth yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith, ond mae hynny'n wir am 34.4% yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn.

4.37.6 Yng Ngwynedd, mae 98.3% o'r rhai sy'n ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yn rheolaidd yn gallu gwneud hynny'n dda neu'n dda iawn, ac mae'r un peth yn wir am 96.2% ym Môn. Ar y llaw arall, mae 26.2% o'r ymatebwyr yng Ngwynedd sydd byth yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu'n dda iawn, ac mae'r un peth yn wir am 32.5% ym Môn.

4.37.7 Yng Ngwynedd, dim ond 12.0% o'r ymatebwyr sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn sydd byth yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith, ond mae hynny'n wir am 22.2% ym Môn. Yng Ngwynedd, mae 33.3% o'r ymatebwyr sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda byth yn gwneud hynny yn y gwaith, ond mae hynny'n wir am 47.8% ym Môn.

4.37.8 Yng Ngwynedd, yn y sector breifat, mae 62.4% o'r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yn rheolaidd neu weithiau. 48.4% yw'r ffigwr cyfatebol ym Môn.

4.37.9 Yng Ngwynedd, yn y sector breifat, 22.6% o'r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn eithaf pwysig iddynt sy'n ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yn rheolaidd neu weithiau. 8.9% yw'r ffigwr cyfatebol ym Môn.

4.37.10 Yng Ngwynedd, yn y sector gyhoeddus, mae 86.1% o'r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yn rheolaidd neu weithiau. 73.3% yw'r ffigwr cyfatebol ym Môn.

4.37.11 Yng Ngwynedd, yn y sector gyhoeddus, 38.7% o'r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn eithaf pwysig iddynt sy'n ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yn rheolaidd neu weithiau. 31.4% yw'r ffigwr cyfatebol ym Môn.

**Tabl 59: Ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith**

| | Byddaf – yn rheolaidd | Byddaf – weithiau | Byth | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 30.0% | 21.5% | 46.1% | 2.4% | 1485 |
| Gwynedd | 34.4% | 22.7% | 40.6% | 2.3% | 844 |
| Ynys Môn | 24.3% | 19.8% | 53.4% | 2.5% | 641 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 29.3% | 20.8% | 47.6% | 2.3% | 1300 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 35.1% | 26.5% | 35.7% | 2.7% | 185 |
| | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 29.7% | 21.1% | 47.9% | 1.3% | 384 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 30.0% | 30.0% | 36.0% | 4.0% | 50 |
| Gwerthiannau | 22.4% | 20.2% | 56.6% | .9% | 228 |
| | | | | | |
| Abersoch | 6.1% | 18.4% | 75.5% | 0.0% | 49 |
| Clynnog | 40.3% | 27.4% | 30.6% | 1.6% | 62 |
| De Dolgellau | 28.9% | 23.3% | 46.7% | 1.1% | 90 |
| Diffwys & Maenofferen | 26.0% | 20.5% | 52.1% | 1.4% | 73 |
| Hirael | 4.8% | 12.7% | 77.8% | 4.8% | 63 |
| Llanrug | 41.9% | 26.4% | 29.1% | 2.7% | 148 |
| | | | | | |
| Cyngar | 31.5% | 22.6% | 44.6% | 1.2% | 168 |
| Llanbadrig | 7.9% | 18.4% | 71.1% | 2.6% | 76 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 27.5% | 18.1% | 53.6% | .7% | 138 |
| Porthyfelin | 9.9% | 15.5% | 69.0% | 5.6% | 71 |

### 4.38 Cefnogaeth y cyflogwr i'r iaith Gymraeg

4.38.1 Nodwyd bod y mwyafrif o gyflogwyr yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y mwyafrif o'r agweddau ar y busnes (59.5%), ac roedd 18.7% pellach yn cefnogi defnydd anffurfiol. Nodwyd bod 4.8% yn unig ddim yn gefnogol. Er bod mwy o gyflogwyr ymatebwyr yng Ngwynedd yn llwyr gefnogol i'r iaith (60.3% o gymharu â 58.5% ym Môn), roedd mwy o gefnogaeth rannol ym Môn (20.7% o gymharu â 17.1% yng Ngwynedd). Roedd mwy o gyflogwyr anghefnogol ym Môn (5.9%) nag yng Ngwynedd (4.0%). Yn yr un modd, roedd mwy o gyflogwyr llwyr gefnogol yn Ardal Cynllunio PCE (63.2%) nag Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (59.0%), ond cryn dipyn yn fwy o gyflogwyr rhannol gefnogol yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (19.8%) nag yn Ardal Cynllunio PCE (10.8%). Roedd mwy o gyflogwyr anghefnogol yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (5.2%) nag yn Ardal Cynllunio PCE (2.7%).

4.38.2 Roedd mwy o gefnogaeth lwyr i ddefnydd o'r iaith gan gyflogwyr preswylwyr tai fforddiadwy (68.0%) na thai newydd yn gyffredinol (55.5%), er bod mwy o gefnogaeth rannol gan gyflogwyr preswylwyr tai newydd (20.1%) na thai fforddiadwy (12.0%). Roedd mwy o gyflogwyr anghefnogol gan drigolion tai newydd (4.9%) na thai fforddiadwy (0.0%). Yn achos gwerthiannau diweddar, roedd llai o gefnogaeth lwyr (51.8%) ac roedd lefel y cyflogwyr anghefnogol yn uchel (7.0%), ond roedd mwy na'r cyffredin o gefnogaeth rannol (24.6%).

4.38.3 Roedd y lefel uchaf o gefnogaeth lwyr gan gyflogwyr trigolion Llanrug (69.8%), a'r lefel isaf yn Abersoch (30.6%). Roedd y lefel uchaf o gefnogaeth rannol yn Hirael (30.2%), lle roedd lefel y gefnogaeth lwyr yn isel (30.2%). Roedd y lefel uchaf o gyflogwyr anghefnogol ym Mhorthyfelin (9.9%), er bod rhaid nodi bod y ganran a ddewisodd beidio ag ateb yn 59.2% yn Abersoch.

4.38.4 Mae cefnogaeth cyflogwyr i ddefnydd o'r Gymraeg yn weddol gyson rhwng Gwynedd a Môn, gyda'r gwahanol sectorau'n amrywio. Yn y sector breifat, roedd 71.0% o gyflogwyr ymatebwyr ym Môn yn llwyr neu'n rhannol gefnogol, o gymharu â 61.5% yng Ngwynedd. Yn y sector wirfoddol, roedd 83.3% yn gefnogol yng Ngwynedd, ond 57.1% ym Môn. Roedd y canlyniadau'n debyg ar gyfer y sector gyhoeddus, gyda 92.1% o gyflogwyr ymatebwyr yng Ngwynedd yn gefnogol, o gymharu â 87.2% ym Môn.

4.38.5 Roedd y patrwm yn debyg ar gyfer yr ardaloedd cynllunio. Yn y sector breifat, roedd 66.9% o gyflogwyr yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn yn llwyr neu'n rhannol gefnogol, o gymharu â 53.2% yn Ardal Cynllunio PCE. Yn y sector wirfoddol, roedd 74.5% o gyflogwyr yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn yn gefnogol, o gymharu â 50.0% (o sampl o 4) yn Ardal

Cynllunio PCE. Roedd cefnogaeth yn debyg yn y sector gyhoeddus, gyda 90.4% o gyflogwyr ymatebwyr yn Ardal Cynllunio PCE yn gefnogol, a 89.8% yn gefnogol yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn.

4.38.6 Yng Ngwynedd, yn y sector breifat, mae cyflogwyr 54.7% o’r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt yn llwyr gefnogol i’r defnydd o’r Gymraeg. Mae’r ffigwr yr un fath ym Môn – 54.7%.

4.38.7 Yng Ngwynedd, yn y sector breifat, mae cyflogwyr 29.0% o’r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn eithaf pwysig iddynt yn llwyr gefnogol i’r defnydd o’r Gymraeg. 23.2% yw’r ffigwr ym Môn.

4.38.8 Yng Ngwynedd, yn y sector gyhoeddus, mae cyflogwyr 83.0% o’r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt yn llwyr gefnogol i’r defnydd o’r Gymraeg. Mae’r ffigwr yn 77.5% ym Môn.

4.38.9 Yng Ngwynedd, yn y sector gyhoeddus, mae cyflogwyr 69.4% o’r ymatebwyr sydd wedi nodi bod y Gymraeg yn eithaf pwysig iddynt yn llwyr gefnogol i’r defnydd o’r Gymraeg. Mae’r ffigwr yn 69.0% ym Môn.

**Tabl 60: Cefnogaeth y cyflogwr i'r iaith Gymraeg**

| | Yn gefnogol o'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob un neu'r rhan fwyaf o agweddau'r busnes, yn ffurfiol ac yn anffurfiol | Yn gefnogol o'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ond nid mewn busnes ffurfiol | Ddim yn gefnogol o'r defnydd o'r Gymraeg | Dim Ateb | N = |
|---|---|---|---|---|---|
| Holl ardal astudiaeth | 59.5% | 18.7% | 4.8% | 17.0% | 1,485 |
| Gwynedd | 60.3% | 17.1% | 4.0% | 18.6% | 844 |
| Ynys Môn | 58.5% | 20.7% | 5.9% | 14.8% | 641 |
| Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn | 59.0% | 19.8% | 5.2% | 16.1% | 1,300 |
| Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | 63.2% | 10.8% | 2.7% | 23.2% | 185 |
| | | | | | |
| Tai newydd (caniatadau cynllunio) | 55.5% | 20.1% | 4.9% | 19.5% | 384 |
| Ag amodau tai fforddiadwy | 68.0% | 12.0% | 0.0% | 20.0% | 50 |
| Gwerthiannau | 51.8% | 24.6% | 7.0% | 16.7% | 228 |
| | | | | | |
| Abersoch | 30.6% | 8.2% | 2.0% | 59.2% | 49 |
| Clynnog | 61.3% | 12.9% | 1.6% | 24.2% | 62 |
| De Dolgellau | 63.3% | 11.1% | 3.3% | 22.2% | 90 |
| Diffwys & Maenofferen | 60.3% | 20.5% | 6.8% | 12.3% | 73 |
| Hirael | 39.7% | 30.2% | 4.8% | 25.4% | 63 |
| Llanrug | 69.6% | 20.9% | 2.7% | 6.8% | 148 |
| | | | | | |
| Cyngar | 69.6% | 20.8% | 4.2% | 5.4% | 168 |
| Llanbadrig | 43.4% | 19.7% | 6.6% | 30.3% | 76 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 57.2% | 23.2% | 6.5% | 13.0% | 138 |
| Porthyfelin | 39.4% | 25.4% | 9.9% | 25.4% | 71 |


## 4.39 Mudo

Mae'r dalgylchoedd mapio a welir yn y mapiau isod ar sail yr wyth ardal Cynllun Datblygu Lleol yng Ngwynedd (Bangor, Caernarfon, Llŷn, Porthmadog, Ffestiniog, Dolgellau, Bala, Tywyn), ac wedi'i rhannu yn bedair rhan yn Ynys Môn – Gogledd yr ynys (dalgylch Amlwch), Gorllewin yr Ynys (dalgylch Caergybi), Canol yr Ynys (dalgylch Llangefni) ac De yr Ynys (dalgylch Porthaethwy).

4.39.1 <u>Abersoch</u>

Roedd canran gymharol isel o'r ymatebwyr wedi symud i Abersoch o rywle yn nalgylch Llŷn (36.1%), gydag ychydig o fudo yno o ddalgylch Porthmadog (1.2%). Canran isel oedd wedi mudo yno o weddill Cymru (1.2%), ond roedd lefel uchel o fudo o ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig (30.1%). Roedd nifer uchel heb ateb y cwestiwn (31.3%).


**Map 1: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Absersoch**



4.39.2 Clynnog

Symud o fewn dalgylch Caernarfon oedd fwyaf cyffredin, gyda chanran ganolig o 48.6% wedi gwneud hynny. Roedd canran ychydig yn fwy na'r cyffredin wedi symud i Glynnog o ddalgylchoedd eraill yng Ngwynedd – 7.1% o ddalgylch Porthmadog yn fwyaf arbennig, 2.9% o ddalgylch Llŷn ac 1.4% yr un o ddalgylchoedd Bangor a Dolgellau. Roedd canran gymharol uchel wedi symud i Glynnog o weddill Cymru (8.6%) ac o'r Deyrnas Unedig (18.6%).


**Map 2: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Clynnog**



4.39.3 <u>De Dolgellau</u>

Roedd canran gymharol uchel yn byw yn nalgylch Dolgellau yn flaenorol (64.5%), gydag ychydig wedi symud yno o ddalgylch Tywyn (1.8%) a llai fyth o ddalgylch Ffestiniog (0.9%). Roedd canran uchel yn byw mewn ardal arall o Gymru yn flaenorol (10.9%), a chanran eithaf sylweddol wedi symud yno o ardaloedd eraill yn y DU (14.9%).


**Map 3: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward De Dolgellau**



4.39.4 Diffwys a Maenofferen

Roedd canran gymharol uchel yn byw yn nalgylch Ffestiniog yn flaenorol (69.9%), gyda rhywfaint o fudo o ddalgylch Porthmadog (3.2%) ac ychydig o fudo o ddalgylch Porthaethwy (1.1%). Canran gymharol isel oedd wedi mudo yno o weddill Cymru (4.3%) ond roedd canran eithaf sylweddol yn byw mewn ardal arall o'r DU yn flaenorol (12.9%).


**Map 4: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Diffwys a Maenofferen**



4.39.5 Hirael

Yn Hirael, gwelir canran uchel o fudo o fewn dalgylch Bangor (73.5%), gyda mwy na'r cyffredin o fudo o ddalgylchoedd gwahanol yn ardal yr astudiaeth – 6.0% wedi symud yno o ddalgylch Porthaethwy, a 1.2% yr un o ddalgylchoedd Amlwch, Caergybi, Llangefni a Llŷn. Mae'r ganran sydd wedi symud yno o weddill Cymru (4.8%) yn gymharol isel, a'r mudo o ardaloedd eraill yn y DU (3.6%) yn isel.


**Map 5: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Hirael**



4.39.6 Llanrug

Yn Llanrug, gwelir canran uchel o fudo o fewn dalgylch Caernarfon (72.4%), gyda mwy na’r cyffredin o fudo o ddalgylchoedd gwahanol yn ardal yr astudiaeth – 3.0% yr un wedi symud yno o ddalgylchoedd Bangor a Llangefni, 1.5% yr un o ddalgylchoedd Llŷn a Phorthaethwy, a 0.7% yr un o ddalgylchoedd Caergybi a Ffestiniog. Roedd canran gymharol isel wedi mudo yno o weddill Cymru (4.5%), a chanran isel yn byw yn rhywle arall yn y DU yn flaenorol (3.7%).


**Map 6: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Llanrug**



4.39.7 Cyngar

Roedd canran gymharol uchel yn byw yn nalgylch Llangefni’n flaenorol (64.3%), gyda lefel uchel o fudo o ddalgylchoedd eraill o fewn ardal yr astudiaeth – 5.7% o ddalgylch Amlwch, 4.5% o ddalgylch Porthaethwy, 3.2% o ardal Caernarfon, 2.5% o ardal Caergybi, 1.9% o ddalgylch Bangor a 0.6% o ddalgylch Dolgellau. Roedd canran isel wedi mudo o weddill Cymru (1.3%) a chanran gymharol isel wedi mudo o ardaloedd eraill yn y DU (6.4%).


**Map 7: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Cyngar**



4.39.8 Llanbadrig

Roedd canran ganolig o'r ymatebwyr wedi symud o fewn dalgylch Amlwch (51.8%), gyda 3.6% wedi symud yno o ddalgylch Caergybi, 1.8% o ddalgylch Porthaethwy a 0.9% yr un o ddalgylchoedd Bangor, Llangefni, Porthmadog a Thywyn. Roedd canran ganolig wedi symud o weddill Cymru (5.4%) a chanran uchel wedi mudo o ardaloedd eraill o'r Deyrnas Unedig (29.5%).


**Map 8: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Llanbadrig**



4.39.9 Llanfihangel Ysgeifiog

Canran gymharol isel o'r ymatebwyr oedd wedi symud o fewn dalgylch Porthaethwy, gyda lefel uchel wedi symud o ddalgylchoedd eraill yn ardal yr astudiaeth: 17.1% o ddalgylch Llangefni yn fwyaf arbennig, gyda 5.5% o ddalgylch Bangor, 4.1% o ddalgylch Amlwch, 3.4% yr un o ddalgylchoedd Caergybi a Chaernarfon, a 0.7% yr un o ddalgylchoedd Porthmadog a Thywyn. Canran isel oedd wedi symud yno o weddill Cymru (2.7%) a chanran ganolig o rywle arall yn y Deyrnas Unedig (11.6%).


**Map 9: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Llanfihangel Ysgeifiog**



4.39.10 Porthyfelin

Roedd canran uchel wedi symud o fewn dalgylch Caergybi (71.5%), gyda rhywfaint o symud o ddalgylchoedd Amlwch a Llangefni (2.3% yr un), a llai o ddalgylchoedd Dolgellau a Phorthaethwy (0.8% yr un). Roedd lefel isel o fudo yno o weddill Cymru (2.3%) ac o ardaloedd eraill yn y DU (8.5%).

**Map 10: Patrwm mudo ymatebwyr sydd wedi symud i ward Porthyfelin**



# 5. Casgliadau

## 5.1 Natur yr ymatebwyr

- Cafwyd 1,559 o ymatebion dilys, sef 34.5% o'r sampl. Roedd 55.3% o'r ymatebion o Wynedd a 44.7% o Fôn; roedd 87.9% o Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn a 12.1% o Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri. (Tabl 1 (T1))
- Roedd 21.6% o'r ymatebwyr yn byw mewn tai newydd (ar sail data Cynllunio), 2.7% yn byw mewn cartrefi ag amodau tai fforddiadwy, a 14.9% mewn tai wedi'u gwerthu yn y 5 mlynedd diwethaf. (T1)
- Roedd dros hanner yr ymatebwyr wedi symud i'w cartref presennol ers 2003 (T5), a 22.5% yn brynwyr tro cyntaf (T9).
- Roedd 37.0% o'r ymatebwyr yn byw ar aelwydydd 2 berson, a 26.2% yn byw ar aelwydydd 1 person (T16), ac roedd cyfanswm o 3,404 o bobl yn byw ar yr aelwydydd y cafwyd ymateb ohonynt (T40).
- Roedd 34.3% o'r preswylwyr perthnasol ddim yn gweithio, wedi ymddeol neu mewn addysg llawn amser. Roedd 22.4% yn gweithio yn y sector gyhoeddus, 19.8% yn y sector breifat, ac 1.5% yn y sector wirfoddol. (T56)
- Nodwyd bod hunaniaeth genedlaethol 62.1% o'r preswylwyr yn Gymreig, gyda 10.1% pellach yn Gymreig-a-Phrydeinig. (T49)

## 5.2 Tueddiadau cyffredinol

### 5.2.1 Daliadaeth

- Roedd 43.7% o'r ymatebwyr yn berchen yn gyflawn (heb forgais) ar eu heiddo, a 33.7% yn berchen gyda morgais. Roedd 18.1% yn rhentu, naill ai'n breifat neu gan gymdeithas tai. (T11)
- Wrth gymharu daliadaeth flaenorol a phresennol yr ymatebwyr, gwelir awydd i newid i fod yn berchen ar eu heiddo, heb forgais os yw hynny'n bosibl. (T26)

### 5.2.2 Costau

- Doedd 34.4% o'r ymatebwyr ddim yn talu'n fisol am eu tŷ, ond roedd 24.4% yn talu rhwng £251 a £500 mewn morgais neu rent. (T13)
- Wrth gymharu costau misol blaenorol a phresennol, gwelir bod y rhai oedd â costau isel yn flaenorol yn dueddol o newid i fod heb gost, y rhai â chostau canolig yn dueddol o aros yr un fath, a'r rhai â chostau uchel gan amlaf yn aros yr un fath neu'n mynd i dalu mwy. (T27)

### 5.2.3 Math eiddo

- Tai/byngalos ar wahân oedd y math mwyaf cyffredin o eiddo (39.2%), gyda thai teras (26.4%) a thai pâr (23.0%) tua'r un mor gyffredin; doedd fflatiau (7.5%) ddim mor gyffredin. (T10)
- Y duedd wrth gymharu eiddo blaenorol ac eiddo presennol yr ymatebwyr yw bod pobl naill ai'n aros yn yr un math o eiddo neu'n symud i fath mwy o eiddo. (T25)

### 5.2.4 Mudo (gan gynnwys rhesymau)

- Roedd 70.6% o'r ymatebwyr yn byw o fewn ardal yr astudiaeth yn flaenorol, ac 16.9% wedi symud yma o rywle arall yn y DU. Roedd 5.8% wedi symud i ardal yr astudiaeth o rywle arall yng Nghymru, ac 1.3% o dramor. (T29)
- O blith y bobl a symudodd i ardal yr astudiaeth o rywle arall yn y DU neu dramor (N = 284), roedd 11.3% wedi byw ym Môn o'r blaen, 16.2% wedi byw yng Ngwynedd, a 12.0% wedi byw yn rhywle arall yng Nghymru. (T31)
- Hoffter o'r ardal (16.9%) yw'r rheswm a nodwyd amlaf dros symud i'r eiddo presennol, gyda'r angen am eiddo mwy (16.2%) a newid mewn statws teuluol (16.0%) hefyd yn rhesymau poblogaidd. (T32)

### 5.2.5 Defnydd

- Cartref parhaol oedd y defnydd ar gyfer 91.0% o'r eiddo, tra oedd 4.9% yn dai gwyliau at ddefnydd personol (roedd 35.5% o'r holl dai gwyliau yn holl ardal yr astudiaeth yn Abersoch). (T35)
- Yng ngogledd-orllewin Lloegr yr oedd cartref parhaol 42.3% o'r sawl nad oedd yr eiddo presennol yn gartref parhaol iddynt. (T36)

### 5.2.6 Gallu ieithyddol

- Nodwyd bod 69.8% o holl breswylwyr y tai yn gallu siarad Cymraeg, a 69.6% yn deall Cymraeg llafar; roedd llai yn gallu darllen Cymraeg (60.8%) a llai fyth yn gallu ysgrifennu Cymraeg (56.8%). (T41)
- Mae'r ymateb i gwestiynau eraill yn awgrymu bod oddeutu 10% ychwanegol yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu 'ychydig' o Gymraeg – h.y. ychydig frawddegau syml. (T42, T46, T47)
- Er bod 57.2% yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl (T42), dim ond 40.8% oedd yn gallu darllen Cymraeg yn dda iawn (T46), a 37.5% oedd yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn (T47).
- Nodwyd bod y Gymraeg yn bwysig iawn i 60.3% o'r preswylwyr, ac yn eithaf pwysig i 14.8%. Doedd 13.6% ddim yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall, ac roedd yr iaith yn eithaf dibwys neu'n hollol ddibwys yng ngolwg 5.9%. (T48)

### 5.2.7 Defnydd o'r Gymraeg (yn y cartref)

- Y cartref oedd y gofod mwyaf cyffredin ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, gyda 56.1% o'r holl breswylwyr yn defnyddio'r Gymraeg yno bob dydd. (T50)
- Nododd 55.0% mai'r Gymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn yr eiddo, tra nododd 52.5% y Saesneg (T37); nododd 31.0% eu bod yn siarad yr iaith arall yn yr eiddo yn ogystal (T39).
- Roedd 89.5% o'r preswylwyr a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn siarad Cymraeg yn y cartref bob dydd. (T50)
- Mae'r cymharu gallu ieithyddol plant o wahanol oedran a chefndir ieithyddol yn awgrymu bod addysg yn allweddol. Lle nad oedd y Gymraeg yn brif iaith y cartref, roedd 0.0% o blant 0-4 oed yn siarad Cymraeg yn rhugl, ond roedd hyn yn codi i 40.2% o blant 5-15 oed. Lle roedd y Gymraeg yn brif iaith y cartref, roedd 51.4% o blant 0-4 oed yn siarad Cymraeg yn rhugl, a 95.0% o blant 5-15 oed. Mae'r patrwm yn debyg ar gyfer darllen ac ysgrifennu hefyd. (T43)

### 5.2.8 Defnydd o'r Gymraeg (gwaith)

- Nodwyd bod 39.2% o'r preswylwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith bob dydd. (T50)
- Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf oedd prif iaith gwaith 43.8% o'r preswylwyr, gyda iaith gwaith yn Saesneg neu Saesneg-yn-bennaf i 33.1%, a 22.0% yn gweithio mewn gweithleoedd dwyieithog (T57). Fodd bynnag, roedd ychydig yn llai cyffredin i iaith cyfathrebu mewnol fod yn Gymraeg neu'n ddwyiethog, gyda'r Saesneg yn fwy blaenllaw. (T58)
- Roedd 51.5% yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith naill ai'n rheolaidd neu weithiau. (T59)
- Roedd 59.5% o gyflogwyr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg mewn agweddau ffurfiol ac anffurfiol o waith y busnes, ac 18.7% pellach yn gefnogol mewn agweddau anffurfiol yn unig. (T60)
- Roedd 87.7% o'r sawl oedd yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn, a 58.0% o'r sawl oedd yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn yn gwneud hynny yn y gwaith (T59). Mae 63.0% o'r sawl sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn siarad Cymraeg yn y gwaith bob dydd. (T50)
- Mae pobl sy'n ystyried y Gymraeg yn bwysig iawn lawer yn fwy tueddol nag eraill o fod yn gweithio yn rhywle lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio a'i chefnogi. (T57-T59)

### 5.2.9 Defnydd o'r Gymraeg (tu allan i'r cartref a'r gwaith)

- Roedd 51.8% o'r preswylwyr yn defnyddio'r iaith bob dydd i gymdeithasu, a 50.6% yn ei defnyddio bob dydd ar y stryd neu mewn siop/caffi. Roedd y defnydd isaf ar gyfer defnydd ar-lein, gydag 15.7% yn defnyddio'r Gymraeg ar-lein bob dydd. (T50)

- Roedd 82.9% o'r sawl oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn siarad Cymraeg ar y stryd bob dydd, ynghyd â 28.4% o'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn dda; mae 85.1% o'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl, a 26.5% o'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn dda, yn defnyddio'r iaith bob dydd i gymdeithasu. (T50)
- Mae defnydd o'r Gymraeg ar-lein yn isel ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl (26.6% yn defnyddio'r Gymraeg ar-lein bob dydd, 23.1% weithiau), ac yn isel iawn ymysg pawb arall. (T50)
- Mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol weithgareddau cymdeithasol yn amrywio. Nododd 39.1% o'r preswylwyr eu bod yn cymryd rhan mewn hamdden/chwaraeon yn Gymraeg, tra bod y ffigwr yn is ar gyfer hanes/diwylliant/celfyddydau (26.7%) a chrefydd (25.8%). Cymharol ychydig oedd yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol (18.3%) neu glwb ieuenctid/henoed (13.0%) yn Gymraeg. (T53)
- Mae pobl yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn Gymraeg po fwyaf rhugl ydynt yn yr iaith. (T53)

## 5.3 Tueddiadau o fewn segmentau

### 5.3.1 Tai newydd

- Mae'r lefel o brynwyr tro cyntaf sy'n byw mewn tai newydd ychydig yn is na'r cyfartaledd. (T9)
- Mae tai newydd yn fwy tueddol na'r cyffredin o fod yn dai ar wahân (T10). Mae llai na'r cyffredin yn berchen arnynt heb forgais (T11), ac mae'r ganran o breswylwyr tai newydd â chostau misol uwch na £375 yn uwch na'r cyffredin (T14).
- Mae canran is na'r cyffredin o dai newydd yn aelwydydd 1 person, a chanran uwch na'r cyffredin yn aelwydydd 3, 4 a 5 person, sy'n awgrymu bod mwy o deuluoedd yn byw mewn tai newydd (T16). Mae canran uwch na'r cyffredin o breswylwyr tai newydd yn gweithio yn y sector breifat, a llai'n gweithio yn y sector gyhoeddus neu ddim yn gweithio (T56). Defnyddir ychydig yn fwy na'r cyffredin o dai newydd fel tai gwyliau (T35).
- Nodwyd hoffter o'r ardal a'r cyfle i adeiladu cartref yn amlach fel rhesymau dros symud i dai newydd nag eiddo'n gyffredinol, ond rhesymau teuluol / angen tŷ mwy yn llai cyffredin. (T33)
- Gwelwyd ychydig yn fwy na'r cyffredin o fudo o rywle arall yng Ngwynedd ac o lefydd eraill yn y DU i dai newydd (T29), gyda'r mwyafrif wedi byw yng Ngwynedd, Môn neu ogledd Cymru o'r blaen (T31). Er bod y lefel o breswylwyr tai newydd sydd â gallu yn y Gymraeg yn agos at y cyfartaledd (T41), mae'r Saesneg yn brif iaith mewn ychydig yn fwy o dai newydd na chartrefi'n gyffredinol (T37), ac mae preswylwyr tai newydd ychydig yn fwy tueddol na'r cyffredin o beidio â defnyddio'r Gymraeg byth (T50).

### 5.3.2 Tai fforddiadwy

- Mae'r lefel o brynwyr tro cyntaf sy'n byw mewn tai fforddiadwy ychydig yn is na'r cyfartaledd. (T9)
- Mae lefel uchel o'r tai fforddiadwy'n dai pâr (T10), a mwy na'r cyffredin o'r preswylwyr yn berchen gyda morgais (T11). Lefel isel sydd heb gost fisol, gyda'r mwyafrif â chost ganolig bob mis – mae 51.7% yn talu rhwng £251 a £500 (T14).
- Mae lefel eithaf uchel o deuluoedd mwy yn byw mewn tai fforddiadwy, gyda chanran dipyn yn is na'r cyffredin o aelwydydd 1, 2 a 3 person, mwy na'r cyffredin o aelwydydd 4 a 6 person, a lefel gryn dipyn yn uwch o aelwydydd 5 person. (T16)
- Roedd canrannau uwch na'r cyffredin o ymatebwyr mewn tai fforddiadwy'n rhentu'n breifat neu fyw gyda ffrindiau / teulu yn flaenorol. (T19)
- O ran mudo, roedd lefel uchel o symud o fewn Gwynedd – gyda chanran isel iawn wedi symud i dŷ fforddiadwy o ran arall o'r DU (T29). Wrth edrych ar y rhesymau dros symud, roedd rhesymau swydd / ymddeol a hoffter o'r ardal yn isel; roedd bod yn agos at deulu a ffrindiau, a sefydlu cartref cyntaf, ychydig yn amlycach nag yn y darlun cyffredinol (T33).
- Roedd y tai fforddiadwy bron i gyd yn cael eu defnyddio fel cartref parhaol. (T35)
- Roedd y Gymraeg yn brif iaith y cartref mewn mwy na'r cyffredin o achosion (T37), a mwy na'r cyffredin o'r preswylwyr â gallu yn y Gymraeg (T41). Er hyn, roedd ychydig yn llai na'r cyffredin yn defnyddio'r iaith bob dydd yn y cartref, ar y stryd, yn y gwaith ac ar-lein, gyda lefel uwch na'r cyffredin yn defnyddio'r iaith 'weithiau' dan yr amgylchiadau hyn (T51). Mae defnydd preswylwyr tai fforddiadwy o'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon yn uwch na'r cyffredin, ond mae'n is ar gyfer mathau eraill o weithgarwch cymdeithasol (gyda'r ganran uchel o 'dim ateb' yn awgrymu bod yr ymatebwyr yn llai tueddol o gymryd rhan mewn gweithgareddau hanes, diwylliant, gwleidyddiaeth, crefydd ac ati). (T54)
- Nododd lefel uchel fod eu hunaniaeth genedlaethol yn Gymreig. (T49)
- Roedd lefel is na'r cyffredin yn gweithio yn y sector gyhoeddus (T56). Er hynny, roedd preswylwyr tai fforddiadwy'n llai tueddol na'r cyffredin o weld defnydd o'r Saesneg yn eu gwaith (T57), a'u cyflogwyr yn fwy tueddol o fod yn llwyr gefnogol i'r iaith (T560).

### 5.3.3 Gwerthiannau diweddar

- Roedd canran uwch o dai teras ymysg y tai a werthwyd yn y 5 mlynedd diweddaf na thai yn gyffredinol, ac roedd llai ohonynt yn fflatiau (T10). Roedd llawer yn llai na'r cyffredin o ymatebwyr mewn tai a werthwyd yn ddiweddar yn berchnogion heb forgais, tipyn yn llai yn berchen gyda morgais, a hanner yr ymatebwyr (lefel uchel iawn) yn rhentu gan gymdeithas tai (T11). Mae'r ganran o ymatebwyr â chostau misol uwch na £375 yn uwch na'r cyffredin (T14).
- Roedd lefel ychydig yn uwch na'r cyffredin o symud o ran arall o'r DU i'r tai hyn. (T29)

- Roedd angen eiddo llai yn rheswm mwy cyffredin na'r arfer dros symud i'r tai a werthwyd yn ddiweddar (T33), a chaiff lefel uwch na'r cyffredin eu defnyddio fel tai gwyliau (T35).
- Saesneg yw prif iaith yr aelwyd mewn canran uchel o'r tai hyn (T37), ac mae lefel dipyn yn is na'r cyffredin o'r preswylwyr â gallu yn y Gymraeg (T41). Roedd mwy na'r cyffredin byth yn defnyddio'r Gymraeg (T51), a llai na'r cyffredin yn defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon a hanes/diwylliant (T54).
- Nododd llai na'r cyffredin o'r preswylwyr fod eu hunaniaeth genedlaethol yn Gymreig, gyda mwy na'r cyffredin yn Brydeinig. (T49)
- Roedd preswylwyr tai a werthwyd yn ddiweddar yn llai tueddol o weld y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gwaith (T57), a llai o'r cyflogwyr yn llwyr gefnogol i'r Gymraeg (T60).

### 5.3.4 Prynwyr tro cyntaf

- Roedd 39.1% o brynwyr tro cyntaf yn byw gyda theulu/ffrindiau yn flaenorol. (T19)
- Mae 55.4% o brynwyr tro cyntaf yn berchen ar yr eiddo gyda morgais, a 40.0% yn berchen heb forgais. (T11)
- Roedd 28.6% o brynwyr tro cyntaf heb gost fisol, gyda'r costau misol yn dueddol o fod yn isel (cyfanswm o 36.6% â chostau rhwng £1 a £375). (T13)

### 5.3.5 Sector gwaith

- Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy cyffredin yn y sector gyhoeddus, gyda Chymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf yn brif iaith gwaith mewn 54.3% o achosion yno, o gymharu â 32.5% o achosion yn y sector breifat. (T57)
- Mae'r cyflogwr yn llwyr gefnogol i'r Gymraeg mewn 74.6% o achosion yn y sector gyhoeddus, o gymharu â 42.3% o achosion yn y sector breifat. (T60)
- Cymraeg neu Gymraeg-yn-bennaf yw prif iaith gwaith 69.1% o'r bobl yn y sector gyhoeddus sy'n gweld y Gymraeg yn bwysig iawn; mae'r un peth yn wir am 50.9% yn y sector breifat. (T57)

### 5.3.6 Gwynedd / Môn

- Mae tai pâr a thai ar wahân yn fwy cyffredin ym Môn, a thai teras yn fwy cyffredin yng Ngwynedd (T10). Mae ychydig yn fwy o berchnogaeth heb forgais ym Môn, gydag ymatebwyr yng Ngwynedd ychydig yn fwy tueddol o fod yn berchen gyda morgais (T11).
- Roedd lefel debyg o brynwyr tro cyntaf yn y ddwy sir (T9), ac mae'r patrwm o ran costau misol hefyd yn debyg (T13).
- Roedd ychydig yn fwy o aelwydydd 1 person ym Môn nag yng Ngwynedd (T16).
- Roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o fod wedi symud o rywle arall yng Nghymru neu rywle arall yn y DU i gartrefi yng Ngwynedd, tra bod lefel uwch o symud o fewn y sir ym Môn. Roedd symud o Wynedd i Fôn yn fwy cyffredin na symud o Fôn i Wynedd. (T29)

- Roedd y rhesymau dros symud i'r eiddo'n debyg at ei gilydd (T32), ond roedd ychydig yn fwy o'r eiddo'n dai gwyliau yng Ngwynedd nag ym Môn (T35).
- Roedd prif iaith yr eiddo'n fwy tueddol o fod yn Gymraeg yng Ngwynedd nag ym Môn (T37), gyda lefelau gallu yn y Gymraeg ychydig yn uwch yng Ngwynedd nag ym Môn (T42). Roedd mwy o bobl yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd yng Ngwynedd yn y cartref, ar y stryd, i gymdeithasu, yn y gwaith ac ar-lein, er bod mwy o breswylwyr Môn yn dweud eu bod yn gwneud hynny weithiau (T50). Roedd mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd nag ym Môn ar gyfer pob math o weithgarwch cymdeithasol heblaw clybiau ieuenctid/henoed (T53).
- Nodwyd bod hunaniaeth genedlaethol ychydig yn fwy o breswylwyr Gwynedd na Môn yn Gymreig, gyda rhywfaint yn fwy o breswylwyr Môn yn Gymreig-a-Phrydeinig, Seisnig, a Seisnig-a-Phrydeinig, gyda mwy o bobl Brydeinig yng Ngwynedd. (T49)
- Roedd ychydig yn fwy o bobl yn gweithio yn y sector gyhoeddus, a llai yn y sector breifat, ym Môn o gymharu â Gwynedd (T56). Er hynny, roedd defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith yn fwy cyffredin yng Ngwynedd nag ym Môn (T57-T59). Roedd cefnogaeth lwyr i'r iaith rywfaint yn uwch yng Ngwynedd, ond roedd mwy o gefnogaeth iddi yn anffurfiol ym Môn (T60). Roedd mwy o'r bobl sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn yn gwneud hynny yn y gwaith yng Ngwynedd nag ym Môn (T59).
- Ceir awgrym bod y gwaith o gyflwyno'r Gymraeg i blant o gefndiroedd di-Gymraeg yn digwydd yn fwy effeithiol yng Ngwynedd nag ym Môn. Mae'r ganran o blant 0-4 oed mewn cartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn 0.0% yng Ngwynedd a Môn fel ei gilydd; ar gyfer plant 5-15 oed, mae'r ffigwr yn 28.3% ym Môn ond yn 50.8% yng Ngwynedd. (T44-T45)

### 5.3.7 Ardal Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri / Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn

- Mae lefel is na'r cyffredin o brynwyr tro cyntaf yn Ardal Cynllunio PCE (T9).
- Roedd lefel uchel o dai ar wahân yn Ardal Cynllunio PCE o gymharu ag Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, ar draul tai pâr a fflatiau (T10). Roedd mwy o rentu preifat yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, ond ar wahân i hynny mae'r patrwm o ran daliadaeth yn debyg (T11). Mae costau misol yn weddol debyg hefyd (T13).
- Mae mwy o aelwydydd 1 a 2 berson yn Ardal Cynllunio PCE (T16).
- Symudodd lefel uwch o ymatebwyr o rannau eraill o ogledd Cymru, Cymru a'r DU i Ardal Cynllunio PCE nag i Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (T29). O gymharu ag Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, roedd llai o ymatebwyr yn Ardal Cynllunio PCE wedi symud i'w heiddo presennol er mwyn sefydlu cartref cyntaf, a mwy wedi symud yno oherwydd eu bod yn hoffi'r ardal (T32). Roedd defnydd y cartrefi'n weddol debyg rhwng y ddwy ardal (T35).
- Cymraeg oedd prif iaith y cartref yn y rhan fwyaf o achosion yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, gyda'r Saesneg yn fwy cyffredin fel prif iaith yn Ardal Cynllunio PCE (T37), er bod

lefel y gallu yn y Gymraeg yn debyg yn y ddwy ardal (T41). Roedd y defnydd o'r iaith yn y cartref ac yn y gwaith yn debyg rhwng y ddwy ardal, ond roedd mwy o ddefnydd ar y stryd ac i gymdeithasu bob dydd yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (T50). O edrych yn fanylach ar y defnydd cymdeithasol o'r iaith, roedd mwy o ddefnydd o'r iaith mewn gweithgareddau chwaraeon a chlybiau yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, tra bod mwy o ddefnydd ohoni mewn gweithgareddau hanes/diwylliant a chrefydd yn Ardal Cynllunio PCE (T53).

- Roedd mwy wedi nodi bod eu hunaniaeth genedlaethol yn Gymreig yn Ardal Cynllunio PCE nag yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, ond mae mwy wedi nodi eu bod yn Seisnig ac yn Brydeinig yno hefyd. (T49)
- Roedd gweithio yn y sector gyhoeddus yn fwy cyffredin yn Ardal Cynllunio PCE nag Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn, tra bod llai o bobl ddim yn gweithio yn Ardal Cynllunio PCE (T56). Roedd ymatebwyr o fewn PCE yn fwy tueddol o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith (T57-T59) ac roedd mwy o gefnogaeth lwyr i'r iaith gan gyflogwyr ymatebwyr o fewn PCE er bod lefel uchel o gefnogaeth i'r iaith mewn agweddau anffurfiol yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (T60). Roedd mwy o'r bobl sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn yn gwneud hynny yn y gwaith yn Ardal Cynllunio PCE nag yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn (T59).
- Ceir awgrym bod y gwaith o gyflwyno'r Gymraeg i blant o gefndiroedd di-Gymraeg yn digwydd yn fwy effeithiol yn Ardal Cynllunio PCE nag yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn. Mae'r ganran o blant 0-4 oed mewn cartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn 0.0% yn y ddwy ardal fel ei gilydd; ar gyfer plant 5-15 oed, mae'r ffigwr yn 35.7% yn Ardal Cynllunio Gwynedd a Môn ond yn 71.4% yn Ardal Cynllunio PCE. (T43)

## 5.4 Wardiau

Dyma grynodeb o'r tueddiadau pwysicaf yn y wardiau y penderfynwyd edrych yn fanylach arnynt:

- **Abersoch:** Canran uchel iawn wedi symud o ran arall o'r DU (42.2%, T29). 4.8% o'r ymatebwyr yn brynwyr tro cyntaf – sylweddol is na'r wardiau eraill (T9). Lefel uchel o dai gwyliau (32.5%, T35). Canran isel iawn o'r preswylwyr a allai siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (T41), a nododd mwy na'r cyffredin fod yr iaith yn hollol ddibwys iddynt (10.1%, T48). Saesneg oedd y brif iaith yn 81.9% o'r tai (T37), a lefel isel iawn oedd yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd mewn unrhyw sefyllfa y tu allan i'r gwaith (T52); dim ond i 12.2% yr oedd Cymraeg yn brif iaith gwaith (T57). Lefel isel a nododd fod eu hunaniaeth genedlaethol yn Gymreig (24.5%), gyda lefel uchel o bobl Seisnig a Phrydeinig (T49). O ran rhesymau dros symud yno, roedd lefel uwch na'r cyffredin o ymddeol (19.3%) a hoffi'r ardal (27.7%) ac is na'r cyffredin o angen eiddo mwy (7.2%), newidiadau teuluol (4.8%) a phrynu

tro cyntaf (3.6%) (T34). Mwy na'r cyffredin o dai ar wahân (49.4%, T10), a lefel uchel iawn yn berchen heb forgais (60.2%, T12). Canran uchel heb ateb sawl cwestiwn.

- **Clynnog:** Lefel uwch na'r cyffredin o fudo o rannau eraill o ogledd Cymru (7.1%), Cymru (8.6%) a'r DU (21.4%) (T29). Ychydig yn llai na'r cyfartaledd o brynwyr tro cyntaf (T9), a'r nifer o dai gwyliau'n agos at y cyfartaledd (T35). Canran uchel yn gallu siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (T41), a chanran uchel hefyd yn nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt (73.8%, T48). Roedd prif iaith y cartref yn Gymraeg mewn canran uchel o achosion (68.6%, T37), gyda mwy na'r cyffredin yn ei defnyddio bob dydd y tu allan i'r gwaith (T52); Cymraeg oedd prif iaith gwaith i ganran uwch na'r cyfartaledd o breswylwyr (32.3%, T57). Roedd hunaniaeth genedlaethol y preswylwyr yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol (T49). Roedd lefel uwch na'r cyffredin o symud yno oherwydd swydd (18.6%), newid mewn statws teuluol (21.4%) a hoffi'r ardal (25.7%) (T34). Lefel uchel o dai ar wahân (55.7%, T10) a pherchnogaeth heb forgais (58.6%, T12).

- **De Dolgellau**: Lefel uwch na'r cyffredin o fudo o rannau eraill o ogledd Cymru (7.3%), Cymru (8.2%) a'r DU (21.8%) (T29). Lefel is na'r cyffredin o brynwyr tro cyntaf (13.6%, T9), a'r nifer o dai gwyliau'n agos at y cyfartaledd (T35). Canran ychydig yn is na'r cyfartaledd yn gallu siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (T41), a chanran is na'r cyfartaledd yn nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt (50.2%, T48). Roedd prif iaith y cartref yn Saesneg mewn lefel uchel o achosion (67.3%, T37), a lefel is na'r cyffredin yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd y tu allan i'r gwaith (T52); roedd y Gymraeg yn brif iaith gwaith i lai na'r cyffredin o'r trigolion (17.8%, T57). Roedd hunaniaeth genedlaethol y preswylwyr yn agos at y cyfartaledd (T49) heblaw bod mwy na'r cyffredin o Brydeinwyr (16.1%). Roedd lefel uwch na'r cyffredin o symud yno oherwydd swydd (13.6%), ac is na'r cyffredin o symud oherwydd newid teuluol (11.8%) a chyfle i adeiladu (1.8%) (T34). Mwy na'r cyffredin o dai teras (35.5%, T10), a lefel eithaf uchel o rentu gan gymdeithas tai (16.4%, T12).

- **Diffwys a Maenofferen**: Lefel uwch na'r cyffredin o fudo o rannau eraill o ogledd Cymru (7.5%, T29). Lefel debyg i'r cyfartaledd o brynwyr tro cyntaf (T9) a thai gwyliau (T35). Canran ychydig yn uwch na'r cyffredin yn gallu siarad Cymraeg, canran is na'r cyffredin yn deall yr iaith, a chanran sylweddol uwch na'r cyffredin yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg (T41); canran uwch na'r cyffredin yn ystyried y Gymraeg yn bwysig iawn (68.2%, T48). Lefel uchel o gartrefi â'r Gymraeg yn brif iaith (71.0%, T37), a lefel uchel yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd y tu allan i'r gwaith (T52); er bod llai o breswylwyr nag arfer â'r Gymraeg fel prif iaith gwaith, roedd lefel uchel o Gymraeg-yn-bennaf fel prif iaith gwaith (31.5%, T57). Roedd yr hunaniaeth genedlaethol yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol heblaw bod llai na'r cyffredin wedi nodi Cymreig-a-Phrydeinig (6.1%) a mwy wedi nodi Seisnig

(9.5%) (T49). Lefel uwch na'r cyffredin wedi symud yno oherwydd angen eiddo mwy (26.9%) a'r cyfleusterau cymunedol (10.8%); lefel is na'r cyffredin o symud oherwydd swydd (3.2%), newidiadau teuluol (11.8%), teulu a ffrindiau (6.5%) a chyfle i adeiladu (2.2%) (T34). Roedd lefel uchel iawn o dai teras (68.8%, T10) a mwy na'r cyffredin o berchnogaeth heb forgais (50.5%) a rhentu preifat (15.1%) (T12).

- **Hirael**: Lefel is na'r cyffredin o fudo o rannau eraill o'r DU (10.8%, T29). Lefel uchel iawn o brynwyr tro cyntaf (39.8%, T9) a lefel isel o dai gwyliau (T35). Canran isel yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, gyda mwy yn deall yr iaith nag yn ei siarad (T41). Canran isel yn gweld yr iaith yn bwysig iawn, a chanran uchel yn ei gweld yn hollol ddibwys (10.0%, T48). Lefel uchel iawn o'r cartrefi â Saesneg yn brif iaith (85.5%, T37), a lefel isel yn defnyddio'r iaith bob dydd y tu allan i'r gwaith (T52); lefel isel iawn oedd â'r Gymraeg yn brif iaith gwaith (3.2%, T57). Llai na'r cyffredin o hunaniaeth genedlaethol Gymreig (41.1%), a lefel uchel o 'arall' (6.7%) (T49). Lefel uchel wedi symud yno er mwyn sefydlu cartref cyntaf (24.1%); lefel isel ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhesymau eraill, gan gynnwys adeiladu (0.0%) a hoffi'r ardal (8.4%) (T34). Lefel isel o dai ar wahân (3.6%) a lefel uchel o dai teras (51.8%) (T10), a lefel uchel o rentu (15.7% yn breifat, 20.5% yn gymdeithasol) (T12).

- **Llanrug**: Lefel uchel o fudo o lefydd eraill yng Ngwynedd (80.6%), ac isel o fewnfudo o ardaloedd eraill o'r DU (5.2%) (T29). Lefel ychydig yn uwch na'r cyffredin o brynwyr tro cyntaf (28.4%, T9), a'r lefel isaf ymhlith y wardiau o dai gwyliau (T35). Canran sylweddol uwch na'r cyffredin yn gallu siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (T41), a chanran uchel iawn yn nodi bod y Gymraeg yn bwysig iawn iddynt (84.7%, T48). Lefel uchel iawn â'r Gymraeg yn brif iaith yr eiddo (88.8%, T37), a lefel uchel o ddefnydd o'r Gymraeg bob dydd y tu allan i'r gwaith (T52); Cymraeg oedd prif iaith gwaith canran uchel iawn o'r preswylwyr (41.2%, T57). Canran uchel iawn â hunaniaeth genedlaethol Gymreig (88.2%, T49). Lefel uchel wedi symud yno er mwyn cael eiddo mwy (23.9%) a lefel isel am eu bod yn hoffi'r ardal (9.7%) (T34). Mwy o dai pâr (35.1%) a llai o dai teras (20.1%) a fflatiau (1.5%) na'r cyffredin (T10); lefel uwch na'r cyffredin o berchnogaeth gyda morgais (48.5%) a llai na'r cyffredin o rentu (T12).

